Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Rhif: WG48598**

Llywodraeth Cymru

Ymgynghoriad ar y Papur Gwyn

# Sicrhau Dyfodol Cynaliadwy:

## Egwyddorion Amgylcheddol, Llywodraethiant a Thargedau Bioamrywiaeth ar gyfer Cymru Wyrddach

Dyddiad cyhoeddi: 30 Ionawr 2024

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn 30 Ebrill 2024b

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd / This document is also available in English.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg

OGL © Hawlfraint y Goron xxxx

## Trosolwg

Mae'r Papur Gwyn hwn yn nodi cynigion i gyflwyno Bil i'r Senedd a fydd yn gwreiddio egwyddorion amgylcheddol yng nghyfraith Cymru, yn cryfhau llywodraethiant amgylcheddol yng Nghymru trwy sefydlu corff newydd i oruchwylio cydymffurfiaeth â chyfraith amgylcheddol gan awdurdodau cyhoeddus Cymru, ac yn cyflwyno fframwaith targedau bioamrywiaeth newydd ac uchelgeisiol i fynd i'r afael â'r argyfwng natur parhaus. Mae'r cynigion yn adlewyrchu ein hymrwymiad tuag at "Gymru wyrddach i fynd i'r afael â newid hinsawdd a'r argyfwng natur" fel y nodir yn y Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio.

## Sut i ymateb

Dylech ymateb drwy lenwi'r ffurflen ar-lein neu lenwi'r holiadur a'i anfon at:
environmental.governance@gov.wales

Os ydych yn bwriadu ymateb yn ysgrifenedig, anfonwch ffurflenni wedi'u llenwi at:
Land, Nature and Forestry Division
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3N

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau print bras, Braille ac iaith amgen o'r ddogfen hon ar gael ar gais.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:
Land, Nature and Forestry Division
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: environmental.governance@gov.wales

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Gymraeg / This document is also available in Welsh

## Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad.

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hwn, a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu'r wybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru. (Art 6(1)(e)

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Yn achos ymgynghoriadau ar y cyd, gall hyn gynnwys awdurdodau cyhoeddus eraill. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o ymatebion i ymgynghoriadau, yna gellir comisiynu trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) i wneud y gwaith hwn. Dim ond o dan gontract yr ymgymerir â gwaith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio eich manylion cyn cyhoeddi eich ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth ac y gall Llywodraeth Cymru fod o dan rwymedigaeth gyfreithiol i ddatgelu peth gwybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau  hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael ei gadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch, a'i weld
- i'w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hwnnw
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data
- (o dan rai amgylchiadau) i'ch data gael ei 'ddileu'
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth a gedwir gan Lywodraeth Cymru ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), gweler y manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
e-bost: dataprotectionofficer@llyw.cymru

Manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF
Rhif ffôn: 0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk

## Cynnwys

Rhagair gan y Gweinidog ..... 6
Rhagarweiniad ..... 7
Sut i ymateb ..... 7
Rhan A – Egwyddorion Amgylcheddol ..... 15
Rhan B – Sefydlu Corff Llywodraethiant Amgylcheddol i Gymru ..... 24
Rhan C: Targedau ar gyfer diogelu ac adfer bioamrywiaeth ..... 49
ATODIAD 1 – Rhestr o Gwestiynau'r Ymgynghoriad ..... 71
ATODIAD 2 – Rhestr Awgrymedig o Awdurdodau Cyhoeddus Perthnasol yng Nghymru i'w Goruchwylio gan Gorff Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru ..... 74
ATODIAD 3: Cefndir ..... 75
ATODIAD 4: Targedau a Cherrig Milltir Presennol ..... 79
ATODIAD 5: Deddfwriaeth yng Nghymru ..... 83
ATODIAD 6: Dyletswydd i nodi camau gweithredu a blaenoriaethau lleol sy'n cyfrannu at gyflawni'r targedau bioamrywiaeth statudol trwy Gynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol – Rhestr fyrrach arfaethedig o Awdurdodau Cyhoeddus ..... 88

## Rhagair gan y Gweinidog

Yr amgylchedd yw'r sylfaen yr adeiladwyd ein cymdeithas a'n heconomi arni. Mae'n darparu aer glân i ni ei anadlu, dŵr glân i'w yfed, a thir ffrwythlon i dyfu bwyd. Mae hefyd yn cefnogi cyfoeth o fioamrywiaeth, sy'n hanfodol ar gyfer iechyd ein hecosystemau.

Fodd bynnag, mae gweithgareddau dynol yn bygwth ein hamgylchedd ni fwy a mwy. Mae newid hinsawdd, llygredd a gorelwa ar adnoddau i gyd yn effeithio ar ein byd naturiol. Nid yn unig y mae'r bygythiadau hyn yn niweidio'r amgylchedd ond maent hefyd yn peri risg ddifrifol i'n llesiant ni'n hunain a llesiant cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r dystiolaeth yn glir ein bod ni'n wynebu argyfwng natur a hinsawdd. Mae gweithgareddau dynol yn achosi i hinsawdd y Ddaear newid ar raddfa na welwyd ei thebyg, gan arwain at dywydd mwy eithafol, lefelau'r môr yn codi, a rhewlifoedd yn toddi. Mae'n debygol mai 2023 fydd y flwyddyn boethaf erioed ers i gofnodion ddechrau. Mae colli bioamrywiaeth yn digwydd ar raddfa frawychus, gydag un o bob chwe rhywogaeth yng Nghymru (o'r rhai sy'n cael eu monitro) yn wynebu bod yn ddiflanedig. Mae colli bioamrywiaeth fel hyn nid yn unig yn drasiedi i'r byd naturiol ond hefyd yn fygythiad i'n llesiant ni ein hunain.

Yma yng Nghymru, rydym wedi ymateb trwy weithredu polisïau a deddfwriaeth sy'n canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r duedd hon a gwella'r amgylchedd, o ran Cymru ac wrth ystyried ein cyfrifoldeb byd-eang.

Mae'r Papur Gwyn hwn yn nodi sut rydym yn bwriadu ategu a gwella'r fframwaith presennol hwnnw trwy fesurau deddfwriaethol newydd. Mae hyn yn cynnwys gwreiddio cyfres o egwyddorion amgylcheddol sylfaenol yng nghyfraith Cymru, a fydd wrth wraidd penderfyniadau yn ymwneud â llunio polisïau a chynigion deddfwriaethol. Mae hefyd yn cyflwyno ein dull arfaethedig o sefydlu corff llywodraethiant amgylcheddol newydd, a fydd yn dwyn awdurdodau cyhoeddus Cymru i gyfrif am unrhyw ddiffyg cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol, gan gynnwys trwy gamau gorfodi. Yn drydydd, mae'n nodi cynigion ar gyfer targedau bioamrywiaeth; sicrhau ein bod yn cymryd camau gweithredol i ddiogelu ac adfer bioamrywiaeth ledled Cymru.

Mae'n bwysig ein bod ni'n sicrhau eich cyfranogiad, eich mewnbwn a'ch crebwyll i sicrhau bod y mesurau hyn mor effeithiol â phosibl ac yn diwallu anghenion pobl Cymru. Edrychaf ymlaen at glywed eich safbwyntiau.

Julie James AS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd

# Rhagarweiniad

1. Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i barhau i ddatblygu a chryfhau cyfraith amgylcheddol yng Nghymru. Bydd hyn yn hanfodol wrth fynd i'r afael â heriau newid hinsawdd, colli bioamrywiaeth, a niwed i'r amgylchedd fel llygredd.

2. Mae'r Papur Gwyn hwn yn nodi cynigion i gyflwyno Bil i'r Senedd a fydd yn gwreiddio egwyddorion amgylcheddol yng nghyfraith Cymru, yn cryfhau llywodraethiant amgylcheddol yng Nghymru trwy sefydlu corff newydd i oruchwylio cydymffurfiaeth â chyfraith amgylcheddol gan awdurdodau cyhoeddus Cymru, ac yn cyflwyno fframwaith targedau bioamrywiaeth newydd ac uchelgeisiol i fynd i'r afael â'r argyfwng natur parhaus. Mae'r cynigion yn adlewyrchu ein hymrwymiad tuag at "Gymru wyrddach i fynd i'r afael â newid hinsawdd a'r argyfwng natur" fel y nodir yn y Rhaglen Lywodraethu a'r Cytundeb Cydweithio.

3. Ymrwymodd y Prif Weinidog i gyflwyno Bil ar y materion hyn yn ystod tymor y Senedd hon yn ei ddatganiad deddfwriaethol diweddaraf.

4. Mae'r Papur Gwyn hwn yn nodi cynigion ar gyfer Bil i gwmpasu tri maes allweddol ac mae'n gwahodd barn gan bartïon â buddiant:
   i. Gwreiddio egwyddorion amgylcheddol yng nghyfraith Cymru;
   ii. Llywodraethiant amgylcheddol, gan gynnwys sefydlu corff llywodraethiant amgylcheddol i Gymru; a
   iii. Fframwaith targedau statudol i ddiogelu ac adfer bioamrywiaeth yng Nghymru.

5. Yn cyd-fynd â'r Papur Gwyn hwn, mae Asesiad Effaith Integredig drafft ac Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft sy'n darparu ein hasesiad cynnar o gostau a manteision ein cynigion.

# Sut i ymateb

Dylech ymateb drwy lenwi'r ffurflen ar-lein neu lenwi'r holiadur a'i anfon at: environmental.governance@gov.wales

Os ydych yn bwriadu ymateb yn ysgrifenedig, anfonwch ffurflenni wedi'u llenwi at:
Land, Nature and Forestry Division
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3N

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Mae fersiynau print bras, Braille ac iaith amgen o'r ddogfen hon ar gael ar gais.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:
Land, Nature and Forestry Division
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: environmental.governance@gov.wales

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Gymraeg / This document is also available in Welsh

## Rheoliad Cyffredinol y DU ar Ddiogelu Data)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych wrth ichi ymateb i'r ymgynghoriad.

Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i brosesu'r data personol hwn, a fydd yn eu galluogi i wneud penderfyniadau cytbwys ynghylch sut maent yn cyflawni eu swyddogaethau cyhoeddus. Y sail gyfreithiol ar gyfer prosesu'r wybodaeth yn yr ymarfer casglu data hwn yw ein tasg gyhoeddus; hynny yw, arfer ein hawdurdod swyddogol i ymgymryd â rôl a swyddogaethau craidd Llywodraeth Cymru. (Art 6(1)(e)

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol. Yn achos ymgynghoriadau ar y cyd, gall hyn gynnwys awdurdodau cyhoeddus eraill. Pan fo Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o ymatebion i ymgynghoriadau, yna gellir comisiynu trydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori) i wneud y gwaith hwn. Dim ond o dan gontract yr ymgymerir â gwaith o'r fath. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn nodi gofynion caeth ar gyfer prosesu a chadw data personol yn ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio eich manylion cyn cyhoeddi eich ymateb.

Dylech hefyd fod yn ymwybodol o’n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth ac y gall Llywodraeth Cymru fod o dan rwymedigaeth gyfreithiol i ddatgelu peth gwybodaeth.

Os caiff eich manylion eu cyhoeddi fel rhan o’r ymateb i’r ymgynghoriad, caiff yr adroddiadau hyn eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd gweddill eich data a gedwir fel arall gan Lywodraeth Cymru yn cael ei gadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

dan y ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl:

- i wybod am y data personol a gedwir amdanoch, a’i weld
- i’w gwneud yn ofynnol inni gywiro gwallau yn y data hwnnw
- (o dan rai amgylchiadau) i wrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu’r data
- (o dan rai amgylchiadau) i’ch data gael ei ‘ddileu’
- (o dan rai amgylchiadau) i gludadwyedd data
- i gyflwyno cwyn i Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth, sef ein rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am yr wybodaeth a gedwir gan Lywodraeth Cymru ac am y defnydd a wneir ohoni, neu os ydych am arfer eich hawliau o dan y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), gweler y manylion cyswllt isod:

Swyddog Diogelu Data
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
CAERDYDD
CF10 3NQ
e-bost: dataprotectionofficer@llyw.cymru

Manylion cyswllt Swyddfa’r Comisiynydd
Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire SK9 5AF
Rhif ffôn: 0303 123 1113
Gwefan: https://ico.org.uk

## Cefndir a Chyd-destun Polisi

### Cyfraith amgylcheddol yng Nghymru

6. Yn ogystal â chyfraith amgylcheddol sy’n deillio o’r UE, mae’r Senedd wedi creu corff sylweddol o ddeddfwriaeth mewn perthynas â’r amgylchedd, gan

adlewyrchu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i sicrhau Cymru lanach, wyrddach a mwy cydnerth. Mae hynny'n cynnwys:

- **Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016:** Mae'r Ddeddf hon yn cyflwyno fframwaith ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru ac mae'n gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus penodol i gynnal a gwella bioamrywiaeth a hybu gwytnwch ecosystemau. Mae hefyd yn cynnwys dyletswyddau ar Weinidogion Cymru mewn perthynas â mynd i'r afael â newid hinsawdd, megis sicrhau bod allyriadau nwyon tŷ gwydr net Cymru 100% yn is na lefelau llinell sylfaen 1990 erbyn 2050.
- **Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023:** Mae'r Ddeddf hon yn cyflwyno ystod o fesurau i drawsnewid sector amaethyddol Cymru trwy ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru arfer swyddogaethau penodol yn y ffordd sydd, yn eu tyb hwy, yn cyfrannu orau at gyflawni amcanion rheoli tir yn gynaliadwy, gan gefnogi ffermwyr i ddiwallu anghenion cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

- **Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru):** Bil a basiwyd gan y Senedd ar 28 Tachwedd 2023 sy'n cyflwyno mesurau a fydd yn cyfrannu at welliannau i ansawdd aer yng Nghymru ac yn lleihau effeithiau llygredd aer. Mae'r Bil yn cynnwys fframwaith ar gyfer pennu targedau ansawdd aer cenedlaethol, ac mae'n gosod dyletswyddau ar Weinidogion Cymru i hybu ymwybyddiaeth o lygredd aer a chyhoeddi strategaeth seinwedd genedlaethol. Drwy'r Bil hwn, Cymru fydd y rhan gyntaf o'r DU i gynnwys seinweddau mewn deddfwriaeth.

7. At hynny, mae **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015** yn gwneud cyfraniad sylweddol at ganlyniadau amgylcheddol, gan gynnwys trwy'r ddyletswydd ar gyrff cyhoeddus Cymru i arfer datblygu cynaliadwy, sy'n golygu'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Rhaid i'r cyrff cyhoeddus hynny osod amcanion llesiant i gyfrannu o'u gorau at nodau llesiant y Ddeddf, ac i weithredu mewn ffordd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hunain.

## Ymadael â'r UE a'r effeithiau ar gyfraith amgylcheddol yng Nghymru

8. Mae'r Cytundeb ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd a'r Cytuniad ar yr Undeb Ewropeaidd yn cynnwys egwyddorion ac amcanion amgylcheddol allweddol sy'n ceisio sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei ddiogelu i lefel uchel[1].

9. Mae'r amgylchedd wedi bod yn rhan allweddol o bolisi a chyfraith yr Undeb Ewropeaidd ers degawdau, ac mae llawer o'r gyfraith amgylcheddol yng Nghymru yn deillio o gyfraith amgylcheddol yr UE. Yr egwyddorion amgylcheddol a nodir yn erthygl 191(2) o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd yw:
   a. yr egwyddor ragofalus

[1] Er enghraifft, erthygl 3(3) o'r Cytuniad ar yr Undeb Ewropeaidd ac erthyglau 11 a 191 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd.

b. yr egwyddor ataliol
c. egwyddor cywiro yn y ffynhonnell
d. yr egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu

10. Yn ogystal, mae erthygl 11 o'r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd yn nodi bod yn rhaid integreiddio gofynion diogelu'r amgylchedd wrth ddiffinio a gweithredu polisïau a gweithgareddau'r UE, yn enwedig er mwyn hybu datblygu cynaliadwy. Y nod yw sicrhau bod diogelu'r amgylchedd yn cael ei ymgorffori ym mhob polisi a gweithgaredd, gan sicrhau bod diogelu'r amgylchedd yn rhan o bob polisi a gweithred, nid dim ond y rhai hynny sy'n ymwneud â'r amgylchedd.

11. Yn flaenorol, roedd cyfraith amgylcheddol ac atebolrwydd Aelod-wladwriaethau'r UE yn cael eu goruchwylio gan y **Comisiwn Ewropeaidd** a **Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd** (CJEU) (yr olaf ynghyd â llysoedd domestig y DU). Pe bai Aelod-wladwriaeth wedi methu â chyflawni ei rhwymedigaethau o dan gyfraith yr UE, gallai'r Comisiwn Ewropeaidd ymchwilio a dwyn achos gorfodi. Mae rôl y CJEU yn cynnwys sicrhau bod cyfraith yr UE yn cael ei dehongli'n gywir, penderfynu a yw Aelod-wladwriaethau wedi cyflawni eu rhwymedigaethau o dan gyfraith yr UE, a darparu dehongliadau o gyfraith yr UE ar gais barnwyr cenedlaethol. Chwaraeodd cyfraith achos CJEU ran bwysig yn natblygiad egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE a rhoi'r egwyddorion amgylcheddol ar waith.

12. Yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE, nid yw'r rôl oruchwylio hon gan y Comisiwn Ewropeaidd mwyach. At hynny, ni all llysoedd domestig bellach gyfeirio cwestiynau am ddehongli cyfraith yr UE at y CJEU, ac mae Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir (Dirymu a Diwygio) 2023 (Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir) yn dileu gweddill effeithiau egwyddorion cyffredinol a ddargedwir yng nghyfraith yr UE fel nad ydynt bellach yn dylanwadu ar ddehongli cyfraith yr UE sydd wedi'i chadw ar lyfr statud y DU (caiff hyn ei drafod ymhellach isod).

13. Ar 1 Mai 2021, daeth **Cytundeb Masnach a Chydweithredu'r DU a'r UE** (TCA) i rym. Mae'r TCA yn cynnwys ymrwymiadau amgylcheddol mewn ystod eang o feysydd, gan gynnwys newid hinsawdd, ansawdd aer, ansawdd dŵr a bioamrywiaeth.

14. Mae egwyddorion diogelu'r amgylchedd hefyd wedi'u cynnwys mewn cytundebau rhyngwladol megis **Datganiad Rio ar yr Amgylchedd a Datblygu 1992**. Mae'r cytundeb hwn, a lofnodwyd gan 172 o lywodraethau – gan gynnwys y DU – yn Uwchgynhadledd y Ddaear 1992 yn nodi 27 egwyddor i lywio cyflawni datblygu cynaliadwy.

## Yr argyfwng hinsawdd a natur

15. Ym mis Ebrill 2019, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru argyfwng hinsawdd, gan gydnabod yr angen brys i fynd i'r afael â bygythiad newid hinsawdd. Amlygodd y datganiad fod yr argyfwng hinsawdd yn fygythiad difrifol ac uniongyrchol i iechyd, economi, seilwaith ac amgylchedd naturiol Cymru, a bod angen

gweithredu ar frys i leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr ac addasu i effeithiau newid hinsawdd.

16. Wrth wneud y datganiad hwn, gwnaeth Llywodraeth Cymru nifer o ymrwymiadau gan ddangos ymhellach ei hymrwymiad i weithredu ar frys, gan gynnwys:
    - Gosod targed allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net erbyn 2050
    - Datblygu cynllun newid hinsawdd cynhwysfawr
    - Buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy a mesurau effeithlonrwydd ynni
    - Hybu trafnidiaeth gynaliadwy a chynllunio defnydd tir
    - Amddiffyn ac adfer cynefinoedd naturiol

17. Yn 2021, cyhoeddodd y Senedd argyfwng natur er mwyn ymateb i'r dirywiad brawychus mewn bioamrywiaeth yng Nghymru. Roedd y datganiad hwn yn cydnabod yr angen brys i fynd i'r afael â'r bygythiadau i fywyd gwyllt a chynefinoedd naturiol gan weithgareddau dynol, megis colli cynefinoedd, newid hinsawdd a llygredd.

18. Roedd datgan argyfwng natur yn gam sylweddol ymlaen i ddiogelu'r amgylchedd yng Nghymru. Roedd yn anfon neges glir bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gymryd camau i ddiogelu bioamrywiaeth ac adfer yr amgylchedd naturiol.

19. Ers datgan argyfwng natur, mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i fynd i'r afael â'r argyfwng bioamrywiaeth, gan gynnwys:
    - Gweithredu argymhellion yr archwiliad dwfn bioamrywiaeth a oedd yn canolbwyntio ar ymateb Cymru i'r targed byd-eang '30 erbyn 30' er mwyn amddiffyn a rheoli 30 y cant o'n tir, ein dyfroedd croyw a'n moroedd erbyn 2030.
    - Datblygu a gweithredu'r Rhaglen Rhwydweithiau Natur sy'n ceisio gwella cyflwr a chysylltedd ein rhwydwaith safleoedd gwarchodedig gan gyfrannu at ein hymrwymiadau rhyngwladol megis '30 erbyn 30'. Mae'r rhaglen hon hefyd yn annog ymgysylltu â'r gymuned a chynyddu'r gallu i ddatblygu amrywiaeth o brosiectau i alluogi ein cynefinoedd a'n rhywogaethau mwyaf gwerthfawr i ffynnu.
    - Mae mentrau fel y Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd, Lleoedd Lleol ar gyfer Natur a'r Goedwig Genedlaethol i gyd yn cyfrannu at fynd i'r afael â'r argyfwng natur yn ogystal â'r argyfwng hinsawdd sy'n sbardun allweddol colli bioamrywiaeth.
    - Mae sicrhau mynd i'r afael â bioamrywiaeth yn elfen allweddol o'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy a fydd yn cael ei lansio yn 2025.
    - Diweddaru Polisi Cynllunio Cymru i ddarparu eglurder pellach ar sicrhau budd net ar gyfer bioamrywiaeth trwy gymhwyso'r dull fesul cam, pwyslais cryfach ar ddefnyddio dull rhagweithiol o ymdrin â seilwaith gwyrdd a dull cryfach o ddiogelu SoDdGAau
    - Cynllun Grant Rheoli Rhwydwaith Ardaloedd Morol Gwarchodedig sy'n cefnogi cynigion i wella dealltwriaeth o bwysau a chyflwyno mesurau i wella rheolaeth ar ein rhwydwaith, gan gyfrannu at fynd i'r afael â'r argyfwng natur.

## Datblygiadau Polisi Blaenorol ar Egwyddorion Amgylcheddol a Llywodraethiant Amgylcheddol yng Nghymru ar ôl Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

20. Yn 2019, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar egwyddorion a threfniadau llywodraethu amgylcheddol yng Nghymru ar ôl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd, gan ofyn am safbwyntiau ar sut i ddarparu fframwaith llywodraethu amgylcheddol effeithiol yng Nghymru ar ôl ymadael â'r UE (ymgynghoriad 2019). Mae'r ddogfen ymgynghori a chrynodeb o'r ymatebion i'w gweld yma.

21. Lansiwyd yr ymgynghoriad ar 18 Mawrth 2019, gan bara 12 wythnos tan 9 Mehefin 2019. Roedd yn rhan o drafodaeth agored barhaus gyda rhanddeiliaid trwy:
    - ystyried sut y cafodd egwyddorion amgylcheddol eu gweithredu yng nghyfraith yr UE, ac yng nghyfraith a pholisi yng Nghymru a gweddill y DU.
    - amlinellu'r strwythur llywodraethiant amgylcheddol presennol o fewn yr UE a'r mecanweithiau sydd ar gael yng Nghymru.
    - amlinellu cyd-destun cyfraith amgylcheddol ar ôl ymadael â'r UE.
    - darparu dadansoddiad o'r bylchau mewn egwyddorion a llywodraethiant amgylcheddol a fyddai'n codi yng Nghymru unwaith y byddai'r DU yn ymadael â'r Undeb Ewropeaidd.
    - gofyn am safbwyntiau ar ba egwyddorion amgylcheddol ddylai fod yn gymwys yng Nghymru a sut.
    - ceisio barn ar nodweddion allweddol angenrheidiol system lywodraethu newydd; ac
    - ystyried a allai unrhyw fecanweithiau llywodraethu amgylcheddol fod yn berthnasol ar lefel y DU.

22. Yn dilyn ymgynghoriad 2019, comisiynodd Llywodraeth Cymru grŵp gorchwyl rhanddeiliaid, sef "Grŵp Gorchwyl Rhanddeiliaid ar Lywodraethu Amgylcheddol" (y Grŵp Gorchwyl), i gynorthwyo gyda datblygu opsiynau ar gyfer trefniadau llywodraethu amgylcheddol yng Nghymru. Cadeiriwyd y Grŵp Gorchwyl gan yr Athro Robert Lee[2] ac roedd yr aelodau'n cynnwys sefydliadau amgylcheddol ac academyddion allweddol.

23. Cyflwynodd y Grŵp Gorchwyl adroddiad terfynol gydag argymhellion penodol i Lywodraeth Cymru. Ar y pryd, derbyniodd Llywodraeth Cymru, yn llawn neu mewn egwyddor, yr holl argymhellion yn ymwneud ag egwyddorion amgylcheddol a sefydlu corff llywodraethiant amgylcheddol. Mae adroddiad terfynol y Grŵp Gorchwyl ac ymateb Llywodraeth Cymru iddo ar gael yma.

24. Mae rhagor o fanylion am yr ymateb i'r ymgynghoriad ac adroddiad y Grŵp Gorchwyl, gan gynnwys sut mae Llywodraeth Cymru wedi ei ddefnyddio i lunio

[2] Athro'r Gyfraith yn Ysgol y Gyfraith Birmingham

cynigion ymhellach, i'w gweld yn erbyn y cynigion perthnasol yn y Papur Gwyn hwn.

## Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru

25. Er nad oes gan Gymru gorff llywodraethiant amgylcheddol parhaol ar waith eto, penodwyd Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru (IEPAW) ar 1 Mawrth 2021. Rôl yr IEPAW yw ystyried materion mewn perthynas â gweithredu cyfraith amgylcheddol yng Nghymru a chyflwyno adroddiadau ar faterion o'r fath i Weinidogion Cymru yn nodi ei argymhellion. Mae'r IEPAW hefyd yn darparu mecanwaith i aelodau'r cyhoedd gynnig cyflwyniadau am weithredu cyfraith amgylcheddol yng Nghymru. Mae'r IEPAW wedyn yn ystyried eu dilysrwydd ac yn argymell unrhyw gamau y mae'n tybio sydd angen i Weinidogion Cymru eu cymryd.

26. Mae'r IEPAW wedi cyflawni rôl werthfawr mewn perthynas â gweithredu cyfraith amgylcheddol yng Nghymru, ond mae cylch gwaith a phwerau'r IEPAW yn llai eang na'r trefniadau a oedd yn bodoli o'r blaen o dan fframwaith llywodraethu amgylcheddol yr UE. Yn benodol, nid oes gan yr IEPAW bwerau ymchwilio a gorfodi statudol i fynd i'r afael â chwynion am gydymffurfiaeth â chyfraith amgylcheddol gan awdurdodau cyhoeddus. Mae'r Papur Gwyn hwn yn cydnabod hyn ac yn ceisio adeiladu ar waith pwysig yr IEPAW trwy gadw a chryfhau llywodraethiant amgylcheddol yng Nghymru trwy greu corff statudol.

# Rhan A – Egwyddorion Amgylcheddol

## Cefndir – Egwyddorion Amgylcheddol

1. Ers ymadael â'r UE, mae rôl egwyddorion amgylcheddol yr UE wedi newid, ac nid yw'r strwythurau llywodraethiant amgylcheddol bellach yn berthnasol yng Nghymru.

2. Mae'r amgylchedd a diogelu'r amgylchedd yn faterion datganoledig, felly lle'r Senedd yw llunio deddfwriaeth a fyddai'n gwreiddio'r egwyddorion amgylcheddol yng nghyfraith Cymru a sefydlu corff llywodraethiant amgylcheddol.

3. I gydnabod hyn, yn ystod tymor blaenorol y Senedd, gofynnodd Llywodraeth Cymru am farn ar sut i ddarparu fframwaith llywodraethiant amgylcheddol effeithiol i Gymru a oedd yn datblygu ar y fframweithiau sy'n rhan o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 (Deddf Amgylchedd Cymru) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol).

4. Mae **Deddf Amgylchedd Cymru** yn cefnogi llywodraethiant amgylcheddol trwy ddarparu'r fframwaith ar gyfer hybu rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru. Ymhlith pethau eraill, mae'n gosod dyletswydd ar Cyfoeth Naturiol Cymru, wrth arfer ei swyddogaethau, i geisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy mewn perthynas â Chymru a rhoi egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy ar waith, i'r graddau y mae hynny'n gydnaws â'u harfer yn briodol[3]. Mae Deddf Amgylchedd Cymru hefyd yn gosod rhai rhwymedigaethau'n uniongyrchol ar Weinidogion Cymru a chyrff cyhoeddus eraill, ond nid y ddyletswydd gyffredinol i geisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy.

5. Mae **Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol** hefyd yn gwella llywodraethiant amgylcheddol trwy ei nod cyffredinol o wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'n nodi sawl nod llesiant i'w gyflawni yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy sy'n disgrifio'r ffyrdd o weithio sy'n cefnogi datblygu cynaliadwy. Mae Deddf Cenedlaethau'r Dyfodol yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus penodol, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, i gyflawni datblygu cynaliadwy a rhaid i hynny gynnwys gosod a chyhoeddi amcanion (a elwir yn "amcanion llesiant") sydd wedi'u cynllunio i wneud y cyfraniad mwyaf posibl at gyflawni pob un o'r nodau llesiant, a chymryd pob cam rhesymol (wrth arfer eu swyddogaethau) i gyflawni'r amcanion llesiant hynny[4].

6. Roedd ymgynghoriad 2019 ar **Egwyddorion a threfniadau llywodraethu amgylcheddol yng Nghymru ar ôl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd** yn

[3] Adran 5 o Ddeddf Amgylchedd Cymru, sy'n diwygio erthygl 4 o Orchymyn Corff Adnoddau Naturiol Cymru (Sefydlu) 2012 (O.S. 2012/1903). Diffinnir "rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol" yn adran 3 o Ddeddf Amgylchedd Cymru a nodir "egwyddorion rheoli cynaliadwy ar adnoddau naturiol" yn adran 4.
[4] Adran 3 o Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol.

ystyried yr egwyddorion a’r amcanion sy’n bresennol o fewn fframweithiau deddfwriaethol presennol Cymru uchod, ac yn eu cymharu ag egwyddorion ac amcanion amgylcheddol yr UE yn y Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd a’r Cytuniad ar yr Undeb Ewropeaidd.[5] Mae’r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd a’r Cytuniad ar yr Undeb Ewropeaidd yn cynnwys egwyddorion ac amcanion amgylcheddol allweddol sy’n ceisio sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei ddiogelu i lefel uchel[6].

7. Mae Erthygl 11 o’r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd yn nodi bod yn rhaid integreiddio gofynion diogelu’r amgylchedd wrth ddiffinio a gweithredu polisïau a gweithgareddau’r UE, yn enwedig gyda’r bwriad o hybu datblygu cynaliadwy. Y nod yw sicrhau bod diogelu’r amgylchedd yn cael ei ymgorffori ym mhob polisi a gweithgaredd, gan sicrhau bod diogelu’r amgylchedd yn rhan o bob polisi a gweithred, nid dim ond y rhai hynny sy’n ymwneud â’r amgylchedd.

8. Mae Erthygl 191(2) yn nodi y dylai polisi’r UE ar yr amgylchedd fod yn seiliedig ar bedair egwyddor; yr egwyddor ragofalus, yr egwyddor ataliol, egwyddor cywiro yn y ffynhonnell a’r egwyddor mai’r llygrwr sy’n talu. Mae’r gwaith o ddehongli’r egwyddorion yn parhau i ddatblygu. Er gwybodaeth, dyma ddisgrifiadau enghreifftiol cryno ohonynt:

    a. Yr egwyddor ragofalus: *yn unol â diffiniad Datganiad Rio ar yr Amgylchedd a Datblygu 1992, lle mae bygythiadau o ddifrod difrifol neu anadferadwy, ni ddylid defnyddio diffyg sicrwydd gwyddonol llwyr fel rheswm dros ohirio mesurau cost-effeithiol i atal diraddio amgylcheddol;*

    b. Y dylid cymryd camau ataliol: *yr egwyddor y dylid cymryd camau ataliol i osgoi difrod amgylcheddol;*

    c. Y dylid rhoi blaenoriaeth i gywiro unrhyw niwed amgylcheddol yn y ffynhonnell: *yr egwyddor y dylid rhoi blaenoriaeth i gywiro unrhyw niwed amgylcheddol trwy dargedu’r achos gwreiddiol yn y ffynhonnell:* ac

    d. Y dylai’r llygrwr dalu: *dylai costau rheoli ac adfer llygredd gael eu talu gan y rhai sy’n achosi llygredd yn hytrach na’r gymuned yn gyffredinol.*

9. Ystyriodd ymgynghoriad 2019 i ba raddau yr oedd deddfwriaeth Cymru eisoes yn cynnwys yr egwyddorion hyn. Nododd yr ymgynghoriad fod yr egwyddor ragofalus wedi’i chynrychioli gan ddyluniad Deddf Amgylchedd Cymru, a disgrifiodd rôl yr egwyddor ataliol o dan egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy Deddf Amgylchedd Cymru[7] yn ogystal â’r “pum ffordd o weithio” yn Neddf Cenedlaethau’r Dyfodol[8]. Amlygodd yr ymgynghoriad fod y ddwy Ddeddf hyn eisoes wedi’u hymgorffori yn y gwaith o lunio a chyflawni polisïau yng Nghymru, gan gynnwys y gofyniad ymgorffori.

[5] Yn enwedig ar dudalennau 12 i 20 (Rhan 2, Egwyddorion Amgylcheddol).
[6] Er enghraifft, erthygl 3(3) o’r Cytuniad ar yr Undeb Ewropeaidd ac erthyglau 11 a 191 o’r Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd.
[7] Adran 4 o Ddeddf Amgylchedd Cymru.
[8] Adran 5(2) o Ddeddf Cenedlaethau’r Dyfodol.

10. Fodd bynnag, cydnabu ymgynghoriad 2019 hefyd fod gwahaniaeth rhwng y graddau yr oedd yr egwyddor ragofalus a'r egwyddor ataliol yn y ddwy Ddeddf hynny yn gymwys o'i gymharu ag egwyddorion amgylcheddol yr UE[9]. Yn benodol, er bod y "pum ffordd o weithio" yn gymwys ar draws pob maes polisi ac i ystod eang o gyrff cyhoeddus yng Nghymru, mae rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn faes mwy cyfyngedig, yn gymwys i arfer holl swyddogaethau Cyfoeth Naturiol Cymru, a rhai o swyddogaethau Gweinidogion Cymru, ond nid yn fwy cyffredinol.

11. Yn ogystal, roedd ymgynghoriad 2019 yn glir nad oedd egwyddor cywiro yn y ffynhonnell a'r egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu yn cael eu cynnwys yn benodol yn neddfwriaeth Cymru[10].

12. Ar y sail hon, cynigiodd yr ymgynghoriad blaenorol wreiddio egwyddorion amgylcheddol yr UE yng nghyfraith bresennol Cymru:

    a) trwy gyflwyno deddfwriaeth i gynnwys egwyddor cywiro yn y ffynhonnell a'r egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu yng nghyfraith amgylcheddol bresennol Cymru fel egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, a

    b) trwy ymestyn y ddyletswydd i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, fel y mae'n berthnasol i Cyfoeth Naturiol Cymru, i gylch ehangach o gyrff cyhoeddus.

13. Roedd ymgynghoriad 2019 hefyd yn gofyn a oedd unrhyw egwyddorion eraill y gallai fod angen eu cynnwys yn neddfwriaeth y dyfodol.

## Canlyniad ymgynghoriad blaenorol ynghylch Egwyddorion Amgylcheddol

14. Roedd yr ymatebwyr i ymgynghoriad 2019 yn gryf o blaid cyflwyno cyfres o egwyddorion amgylcheddol i lywio datblygiad cyfraith amgylcheddol Cymru. Fodd bynnag, roedd barn gymysg ar ba egwyddorion i'w cynnwys a sut i gyflawni hyn.

15. Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn cefnogi cynnwys pedair egwyddor amgylcheddol yr UE: yr egwyddor ragofalus, yr egwyddor ataliol, egwyddor cywiro yn y ffynhonnell a'r egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu. Awgrymwyd egwyddorion ychwanegol gan rai, llawer yn cyfeirio at y gofyniad am integreiddio sy'n rhan o fframwaith yr UE.

16. Roedd llawer o'r farn, yn hytrach na diwygio'r ddeddfwriaeth bresennol, fel yr oedd yn cael ei ystyried ar y pryd, y byddai'n werthfawr datgan yr egwyddorion amgylcheddol mewn un darn o ddeddfwriaeth fel rhan o strwythur cyffredin. Roedd yr ymatebwyr ar y cyfan yn cefnogi ymestyn y ddyletswydd rheoli

[9] Paragraff 2.26.
[10] Paragraff 2.24, Tabl 1 a pharagraff 2.26.

adnoddau naturiol yn gynaliadwy i bob corff cyhoeddus yng Nghymru. Fodd bynnag, y consensws oedd ei bod hi'n ddyddiau cynnar ar reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, a bod angen gwell dealltwriaeth o'r effaith ac unrhyw oblygiadau a fyddai'n deillio o ymestyn y ddyletswydd cyn gwneud hynny.

## Grŵp Gorchwyl Rhanddeiliaid

17. Argymhellodd y Grŵp Gorchwyl y dylid darparu ar gyfer pedair egwyddor amgylcheddol yr UE (yr egwyddor ragofalus, yr egwyddor ataliol, egwyddor cywiro yn y ffynhonnell a'r egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu) yn neddfwriaeth Cymru ac y dylai'r egwyddorion gael eu cefnogi gan amcan cyffredin yn nodi uchelgeisiau amgylcheddol yng Nghymru, gan gynnwys y cysylltiadau rhwng polisi amgylcheddol a meysydd polisi eraill (integreiddio).

18. Roedd y Grŵp Gorchwyl o'r farn nad oedd Deddf Amgylchedd Cymru yn fframwaith ar gyfer llywodraethiant amgylcheddol, ond y dylid ei hystyried yn lasbrint ar gyfer rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy y gellid ei ddatblygu dros amser. Felly daeth y Grŵp Gorchwyl i'r casgliad mai'r ffordd orau o wreiddio egwyddorion amgylcheddol yr UE fyddai darparu ar eu cyfer mewn ffordd a oedd yn caniatáu dull mwy systemig a oedd yn osgoi gorgymhlethu deddfwriaeth bresennol. Argymhellodd y Grŵp Gorchwyl hefyd y dylid gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi'r egwyddorion amgylcheddol hyn ar waith wrth ddatblygu polisïau a deddfwriaeth.

19. Derbyniwyd yr argymhellion hynny gan y Gweinidog Materion Gwledig, Ynni a'r Amgylchedd ar y pryd. Derbyniodd hefyd, mewn egwyddor, argymhelliad i archwilio ymestyn y ddyletswydd i reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy i gyrff cyhoeddus eraill fel mater ar wahân.

## Newid deddfwriaethol yn ystod tymor y Senedd bresennol

20. Ers cynnal gwaith datblygu polisi yn ymwneud â'r egwyddorion yn 2019-20, mae'r dirwedd ddeddfwriaethol ledled y DU wedi newid. Mae'r DU bellach wedi ymadael â'r UE a derbyniodd Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir Gydsyniad Brenhinol ar 29 Mehefin 2023.

21. O ran cyd-destun, roedd llawer o'r gyfraith amgylcheddol bresennol yn y DU naill ai wedi cael effaith uniongyrchol neu wedi'i throsglwyddo o gyfraith berthnasol yr UE. O'r herwydd, roedd corff cyfraith amgylcheddol sy'n deillio o'r UE eisoes wedi'i ddatblygu o ran egwyddorion amgylcheddol yr UE. Yn dilyn diwedd cyfnod pontio Brexit (31 Rhagfyr 2020), nid yw'r DU bellach yn cael ei rhwymo gan y Cytuniad ar Weithrediad yr UE nac unrhyw gyfraith newydd yn yr UE a fyddai wedi cael effaith uniongyrchol yn flaenorol (fel Rheoliadau'r UE), ac nid yw'n ofynnol iddi chwaith drosglwyddo unrhyw gyfraith yr UE newydd sy'n cael effaith anuniongyrchol, fel Cyfarwyddebau'r UE.

22. Sicrhaodd Deddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (y Ddeddf Ymadael) y byddai cyfreithiau penodol a luniwyd tra bod y DU yn aelod o'r UE yn parhau i fod yn berthnasol ar ôl Brexit. Wrth wneud hynny, datblygwyd categori newydd

o gyfraith y DU a elwir yn gyfraith yr UE a ddargedwir. Roedd y categori hwn yn cynnwys deddfwriaeth ddomestig benodol sy'n deillio o'r UE a deddfwriaeth uniongyrchol yr UE a oedd mewn grym yn union cyn y diwrnod ymadael. Yng nghyd-destun cyfraith amgylcheddol, cafodd corff cyfraith amgylcheddol yr UE ei ddargadw. Yn ogystal, cafodd egwyddorion cyffredinol cyfraith yr UE a gydnabuwyd gan Lys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd cyn diwedd y cyfnod pontio eu hymgorffori ar lyfr statud y DU o dan y Ddeddf Ymadael, ond gyda rhai cyfyngiadau, fel mai dim ond i helpu i ddehongli cyfraith yr UE a ddargedwir y gellir eu defnyddio.

23. Mae Deddf Cyfraith yr UE a Ddargedwir yn dileu gweddill effeithiau egwyddorion cyffredinol a ddargedwir o gyfraith yr UE fel nad ydynt bellach yn dylanwadu ar ddehongli cyfraith yr UE sydd wedi'i dargadw ar lyfr statud y DU. Fodd bynnag, mae llawer o gyfraith achos Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd sy'n ategu sut y dylid dehongli darnau penodol o gyfraith amgylcheddol yr UE o safbwynt egwyddorion amgylcheddol yr UE. Mae rhywfaint o ansicrwydd o hyd ynghylch sut y bydd y fath ddeddfwriaeth yn cael ei dehongli gan lysoedd domestig wrth roi egwyddorion domestig dehongli statudol ar waith ar ôl y diwygiadau hyn.

24. Mae hyn yn arbennig o bwysig yng Nghymru ar hyn o bryd, o gofio bod egwyddorion amgylcheddol yn absennol o'i llyfr statud. Bwriad Llywodraeth Cymru wrth gyflwyno deddfwriaeth sylfaenol nawr yw ymgorffori egwyddorion amgylcheddol yr UE fel eu bod yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau ar sail statudol unwaith y daw'r Bil i rym.

## Datganiad polisi ar egwyddorion amgylcheddol

25. Er mwyn osgoi amheuaeth, er nad oes dyletswydd statudol ar Weinidogion Cymru ar hyn o bryd i roi'r egwyddorion amgylcheddol (yr egwyddor ragofalus, yr egwyddor ataliol, egwyddor cywiro yn y ffynhonnell, yr egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu ac integreiddio) ar waith, safbwynt polisi Gweinidogion Cymru yw y byddant yn parhau i fod yn sail i bolisi yng Nghymru hyd nes y daw'r Bil i rym.

# Cynigion i wreiddio egwyddorion amgylcheddol yng Nghymru

## Egwyddorion amgylcheddol i'w gwreiddio yng nghyfraith Cymru

26. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y bydd y Bil yn cynnwys darpariaeth i nodi egwyddorion amgylcheddol sy'n adlewyrchu rhai'r UE a nodir uchod, gan gynnwys;

i. Integreiddio
ii. Yr egwyddor ragofalus
iii. Yr egwyddor ataliol
iv. Egwyddor cywiro yn y ffynhonnell; a
v. Yr egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu.

27. Ar ôl ystyried argymhellion y Grŵp Gorchwyl, a materion perthnasol eraill, cynigir y bydd yr egwyddorion amgylcheddol yn cael eu hategu gan amcan cyffredin i geisio sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei ddiogelu i lefel uchel a gwella ansawdd yr amgylchedd yng Nghymru, yn arbennig i gyfrannu at ddatblygu cynaliadwy. Y bwriad yw y bydd hyn yn rhoi ffocws i gamau gweithredu ac yn darparu pwrpas clir ar gyfer cymhwyso'r egwyddorion amgylcheddol.

28. Roedd ymgyngoreion yn 2019 yn gefnogol iawn i gynnwys yr egwyddorion amgylcheddol penodol hyn, a sefydlwyd y Grŵp Gorchwyl i ystyried y mater yn fwy trwyadl. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd gwreiddio'r egwyddorion amgylcheddol hyn, ynghyd ag amcan cyffredin yn unol ag argymhelliad y Grŵp Gorchwyl, yn gam pwysig o ran cryfhau amddiffyniadau amgylcheddol yng Nghymru.

29. Er i rai ymatebwyr i ymgynghoriad 2019 awgrymu rhai egwyddorion ychwanegol, prin yw'r dystiolaeth a gyflwynwyd i gyfiawnhau cynnwys egwyddorion ychwanegol ar hyn o bryd.

## Canllawiau – Deall beth mae'r egwyddorion amgylcheddol yn ei olygu

30. Er bod gan yr egwyddorion amgylcheddol ystyron a ddëellir yn dda sydd, ymhlith pethau eraill, yn deillio o gyfraith achos Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd, mae eu dehongli a'u cymhwyso yn parhau i ddatblygu. Mae'n bwysig bod dealltwriaeth glir a thryloywder o hyd ynghylch yr hyn a olygir gan yr egwyddorion amgylcheddol a sut y bwriedir eu cymhwyso.

31. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig bod y Bil yn cynnwys dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi canllawiau i egluro sut y bwriedir dehongli'r egwyddorion amgylcheddol. Mae hyn yn dilyn y dull eang y mae Llywodraethau'r DU a'r Alban wedi'i fabwysiadu wrth gyflwyno egwyddorion amgylcheddol mewn rhannau eraill o'r DU.

32. Y bwriad yw y bydd y canllawiau'n seiliedig ar ystyron a ddeellir yn dda yr egwyddorion amgylcheddol sydd yn tarddu o ffynonellau perthnasol gan gynnwys cyfraith achosion. Bwriad arall yw y bydd y Bil yn cynnwys darpariaeth i'w gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru ymgynghori'n gyhoeddus ar y canllawiau ac ar unrhyw newidiadau dilynol iddynt. Er enghraifft, gall newidiadau fod yn briodol os oes gwybodaeth wyddonol newydd berthnasol neu os oes cynsail sylweddol wedi'i sefydlu trwy gyfraith achosion.

EA1: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynigion sy'n ymwneud â pharatoi canllawiau a fydd yn egluro sut y bwriedir dehongli'r egwyddorion amgylcheddol?

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

Os hoffech egluro'ch ateb, defnyddiwch y blwch testun isod.

| |
|---|
| |

## Cymhwyso'r egwyddorion amgylcheddol a'r canllawiau cysylltiedig

33. Argymhellodd y Grŵp Gorchwyl, ynghyd â rhai ymatebwyr i ymgynghoriad 2019, y dylai'r egwyddorion amgylcheddol fod uwchlaw deddfwriaeth bresennol Cymru, a felly cael eu darparu mewn ffordd systematig a chyffredinol.

34. Nododd eiriolwyr dros y dull hwn fod darparu'r egwyddorion amgylcheddol fel hyn yn llai amwys ac yn dangos bwriad yn fwy uniongyrchol. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r farn hon ac yn ystyried mai'r dull hwn sydd yn adlewyrchu orau sut yr oedd egwyddorion amgylcheddol yr UE a ddarparwyd gan y Cytuniad ar Weithrediad yr UE yn gymwys i ddatblygu polisïau yn flaenorol.

35. O'r herwydd, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig gwreiddio'r egwyddorion amgylcheddol ynghyd ag amcan cyffredin i geisio sicrhau bod yr amgylchedd yn cael ei ddiogelu i lefel uchel a gwella ansawdd yr amgylchedd yng Nghymru, yn arbennig i gyfrannu at ddatblygu cynaliadwy, yn hytrach na thrwy wreiddio'r egwyddorion o fewn y fframwaith rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn unol â chynnig ymgynghoriad 2019.

36. Ar ôl ystyried argymhelliad y Grŵp Gorchwyl a materion perthnasol eraill, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y bydd dyletswydd yn cael ei gosod ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyladwy i'r egwyddorion amgylcheddol a'r canllawiau cysylltiedig wrth ddatblygu eu polisïau a'u deddfwriaeth. Bydd hyn yn sicrhau, ar sail statudol, y bydd polisïau a deddfwriaeth yn y dyfodol yn cael eu datblygu gan roi sylw dyladwy i'r egwyddorion.

37. Ystyriwyd cymhwyso'r egwyddorion amgylcheddol i gyrff cyhoeddus Cymru yn ystod ymgynghoriad 2019, pan drafodwyd ehangu egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy i wreiddio egwyddorion amgylcheddol yr UE ac yna ymestyn y ddyletswydd rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, fel y mae'n gymwys i Cyfoeth Naturiol Cymru, i grŵp ehangach o gyrff cyhoeddus. Cafwyd cefnogaeth eang i ymestyn y ddyletswydd rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, fel y nodwyd uchod. Fodd bynnag, ar ôl ystyried ymatebion ymgynghoriad 2019 ac argymhellion y Grŵp Gorchwyl, nid oes cynnig i wreiddio'r egwyddorion amgylcheddol yng nghyfraith Cymru yn y ffordd honno.

38. Rydym wedi ystyried a ddylid gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus Cymru i gymhwyso'r egwyddorion amgylcheddol a'r canllawiau cysylltiedig, ac os felly, sut y dylid gwneud hynny. Mae gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru fel sy'n cael ei gynnig uchod yn golygu y bydd yr egwyddorion amgylcheddol yn cael eu cymhwyso yn y cam llunio polisi strategol, ac y dylai eu gosod ar y lefel uchaf olygu eu bod yn rhaeadru i faes polisi gweithredol a chyflawni gweithredol. Gallai fod yn anghymesur, felly, i osod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus, hyd yn oed cyrff cyhoeddus eraill sy'n llunio polisïau, fel awdurdodau lleol a chyrff hyd braich, i gymhwyso'r egwyddorion amgylcheddol lle mae goruchwyliaeth lywodraethol eisoes yn bodoli. Ar hyn o bryd, y dyb yw nad oes achos cryf dros

gynnig cynnwys dyletswydd ar gyrff cyhoeddus ac felly nid yw Llywodraeth Cymru yn cynnig gwneud hynny.

39. Fodd bynnag, mae gennym ddiddordeb mewn safbwyntiau ynghylch a ddylid gosod dyletswydd ar wahân ar gyrff cyhoeddus Cymru i gymhwyso'r egwyddorion amgylcheddol, ac, os felly, pa ffurf y dylai'r ddyletswydd honno ei chymryd ac i bwy y dylai fod yn gymwys.

EA2: Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyladwy i'r egwyddorion amgylcheddol a'r canllawiau cysylltiedig wrth ddatblygu eu polisïau a'u deddfwriaeth. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r dull hwn?

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

Os hoffech egluro'ch ateb, defnyddiwch y blwch testun isod.

| |
|---|

EA3: A oes gennych unrhyw farn ynghylch a ddylid gosod dyletswydd ar wahân ar gyrff cyhoeddus Cymru (ac eithrio Gweinidogion Cymru) i gymhwyso'r egwyddorion a'r canllawiau cysylltiedig? Os ydych o'r farn y dylai'r ddyletswydd fod yn gymwys i gyrff cyhoeddus Cymru, nodwch yn y blwch testun isod i ba gyrff cyhoeddus yng Nghymru a pham, yn ogystal ag unrhyw safbwynt sydd gennych ar sut y dylai'r ddyletswydd fod yn gymwys i'r cyrff hynny.

| Dylai | Na ddylai |
|---|---|
| | |

| |
|---|

## Y berthynas rhwng yr egwyddorion amgylcheddol a'r corff llywodraethiant amgylcheddol

40. Unwaith y daw'r egwyddorion amgylcheddol i rym, byddant yn cael eu hystyried yn rhan o gyfraith amgylcheddol yng Nghymru a bydd gan y corff llywodraethiant rôl yn eu goruchwylio ac adrodd arnynt. Mae hyn yn golygu y gall y corff llywodraethiant arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â'r egwyddorion amgylcheddol, a fyddai'n cynnwys monitro'r gwaith o gymhwyso'r egwyddorion amgylcheddol hynny, a chydymffurfio â hwy, i'r graddau y mae'r Bil yn gosod dyletswydd i wneud hynny ar Weinidogion Cymru ac unrhyw awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru. Mae cylch gwaith arfaethedig y corff llywodraethiant wedi'i nodi yn adran nesaf y Papur Gwyn.

EA4: A oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol yn ymwneud â bwriad Llywodraeth Cymru i wreiddio’r egwyddorion amgylcheddol a’r amcan cyffredin yng nghyfraith Cymru sydd heb eu cynnwys yn eich atebion i’r cwestiynau uchod?

# Rhan B – Sefydlu Corff Llywodraethiant Amgylcheddol i Gymru

## Cefndir Llywodraethiant Amgylcheddol

1. Mae llywodraethiant amgylcheddol cadarn yn hollbwysig ar gyfer amgylchedd iach a chynaliadwy sy'n diogelu ein hadnoddau naturiol hanfodol.

2. Mae gan Gymru ddull unigryw eisoes o ymdrin â diogelu'r amgylchedd, sy'n ei gwahaniaethu oddi wrth weddill y DU. Mae'r cyd-destun datblygu cynaliadwy cyffredinol sydd wedi'i ymgorffori trwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn creu fframwaith cryf i arwain a chefnogi datblygu a gweithredu polisïau i reoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae'r ymrwymiad hwn i ddiogelu'r amgylchedd wedi'i gryfhau gan amcanion rheoli tir cynaliadwy yn Neddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023, er enghraifft, yn ogystal â mesurau newydd i wella ansawdd yr amgylchedd awyr yng Nghymru trwy Fil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) a basiwyd gan y Senedd ar 28 Tachwedd 2023.

3. Yn y cyd-destun hwn, mae Llywodraeth Cymru wedi nodi cyfle strategol i gryfhau diogelu'r amgylchedd yng Nghymru ymhellach trwy sefydlu corff newydd a fydd yn gwella ein gallu cyfunol i hybu, cadw a chynnal ein hamgylchedd. Dyna pam rydym yn sefydlu corff llywodraethiant amgylcheddol pwrpasol trwy'r Bil hwn a fydd yn sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus Cymru yng Nghymru yn goruchwylio cyfraith amgylcheddol yn gadarn.

4. Cyn ymadael â'r UE, bu'r Comisiwn Ewropeaidd yn monitro gweithredu cyfraith yr UE, a chydymffurfiaeth â hi, gan y DU. Pe bai'r DU wedi methu â chyflawni ei rhwymedigaethau o dan gyfraith yr UE, yna roedd y pŵer gan y Comisiwn Ewropeaidd i ymchwilio ac i gymryd camau gorfodi. Roedd hyn yn cefnogi cydymffurfiaeth â rhwymedigaethau cyfraith amgylcheddol oherwydd bod llawer o'r gyfraith amgylcheddol yng Nghymru naill ai'n gyfraith yr UE wedi'i throsglwyddo neu'n gyfraith yr UE uniongyrchol effeithiol.

5. Yn dilyn ymadawiad y DU â'r UE, nid oes gan y Comisiwn Ewropeaidd y rôl oruchwylio hon mwyach yn y DU. Cafodd trefniadau llywodraethu amgylcheddol ar ôl yr UE eu hystyried yn fanwl yn ystod ymgynghoriad 2019 ar **Egwyddorion a threfniadau llywodraethu amgylcheddol yng Nghymru ar ôl ymadael â'r Undeb Ewropeaidd**, gyda ffocws penodol ar ddatblygu corff goruchwylio annibynnol i oruchwylio gweithredu a chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol yng Nghymru.

6. Roedd ymgynghoriad 2019 yn ceisio barn ar bwrpas, amcanion a swyddogaethau corff o'r fath, gan gynnwys amcanion uchelgeisiol a fyddai'n gymwys i ystod eang o awdurdodau cyhoeddus Cymru. Cafwyd cymeradwyaeth glir i'r dull gweithredu a lefel yr uchelgais ymysg ymatebwyr i'r ymgynghoriad, a dylanwadodd y Grŵp Gorchwyl ar y cynigion hyn ymhellach yn 2020. At hynny, roedd ymatebwyr yn deall yn glir y cyfle i adfer yn ogystal â gwella'r

oruchwyliaeth hon dros gyfraith amgylcheddol ers Brexit, gan gryfhau'r achos dros sefydlu corff llywodraethiant newydd i Gymru.

7. Mae'r achos hwn dros newid wedi'i atgyfnerthu ymhellach trwy waith parhaus Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru (IEPAW). Mae'r IEPAW wedi cyflawni rôl werthfawr mewn perthynas â gweithredu cyfraith amgylcheddol yng Nghymru, ond mae ei gylch gwaith a'i bwerau yn llai eang na'r trefniadau a oedd yn bodoli o'r blaen o dan fframwaith llywodraethiant amgylcheddol yr UE. Yn benodol, nid oes gan yr IEPAW bwerau statudol i fynd i'r afael â chwynion am gydymffurfio â chyfraith amgylcheddol gan awdurdodau cyhoeddus.

8. Ar ôl ymgynghoriad 2019 a Grŵp Gorchwyl 2020, sefydlwyd dau gorff llywodraethiant amgylcheddol newydd mewn rhannau eraill o'r DU:
    - Mae **Swyddfa Diogelu'r Amgylchedd (OEP)**, a sefydlwyd gan Ddeddf yr Amgylchedd 2021, yn gorff cyhoeddus annibynnol anadrannol dan nawdd Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra). Mae'n goruchwylio awdurdodau cyhoeddus yn Lloegr a Gogledd Iwerddon, ac awdurdodau cyhoeddus heb eu datganoli yng Nghymru, ac yn monitro a yw awdurdodau cyhoeddus o'r fath yn cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol.
    - Mae **Safonau Amgylcheddol yr Alban (ESS)**, a sefydlwyd gan Ddeddf Ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd (Parhad) (Yr Alban) 2021, yn gorff cyhoeddus annibynnol anadrannol sy'n craffu, ymchwilio ac yn ceisio sicrhau gwelliannau o ran effeithiolrwydd cyfraith amgylcheddol yn yr Alban, a chydymffurfiaeth â chyfraith amgylcheddol gan awdurdodau cyhoeddus yn yr Alban. Mae'r ESS hefyd yn rhoi cyngor ac arweiniad i Lywodraeth yr Alban ar bolisi amgylcheddol.

9. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig sefydlu corff llywodraethiant amgylcheddol statudol i Gymru ("y corff llywodraethiant") trwy'r Bil. Bydd y corff llywodraethiant yn helpu i gynnal a gwella safonau uchel o ddiogelu'r amgylchedd trwy oruchwylio gweithrediad cyfraith amgylcheddol yng Nghymru gan awdurdodau cyhoeddus Cymru a'u cydymffurfiaeth â hi.

10. Mae'r adran hon o'r Papur Gwyn yn rhoi trosolwg o gylch gwaith arfaethedig y corff llywodraethiant ac yn ceisio mewnbwn gan randdeiliaid wrth lunio pwrpas, amcanion, swyddogaethau a ffurf y corff llywodraethiant arfaethedig i Gymru.

## Pwrpas ac Amcanion Corff Llywodraethiant Amgylcheddol i Gymru

11. Prif bwrpas y corff llywodraethiant fydd goruchwylio gweithrediad cyfraith amgylcheddol yng Nghymru gan awdurdodau cyhoeddus Cymru a'u cydymffurfiaeth â hi.

12. Wrth geisio cyflawni'r pwrpas hwn, mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai'r corff llywodraethiant gael ei ddiffinio gan amcanion clir. Rydym felly yn cynnig y dylai'r corff llywodraethiant wneud y canlynol:
    i. Monitro a chynghori Gweinidogion Cymru ar ddatblygu cyfraith a pholisi amgylcheddol yng Nghymru.

ii. Derbyn cwynion/sylwadau gan y cyhoedd ynghylch methiannau honedig gan awdurdodau cyhoeddus Cymru i gydymffurfio â chyfraith amgylcheddol.
iii. Monitro Gweinidogion Cymru ac awdurdodau cyhoeddus Cymru wrth iddynt weithredu a chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol. Mae hyn yn cynnwys ymchwilio i fethiannau honedig i gydymffurfio, a chymryd camau gorfodi lle mae angen.
iv. Gwneud gwaith craffu a goruchwylio annibynnol ar gyflawni unrhyw dargedau amgylcheddol statudol a bennir gan Weinidogion Cymru (megis y fframwaith targed bioamrywiaeth newydd sy'n cael ei gynnig yn y Bil hwn).
v. Darparu cyngor arbenigol, fel y mae'n credu sy'n angenrheidiol, i Weinidogion Cymru ac awdurdodau cyhoeddus Cymru mewn perthynas â chyfraith amgylcheddol.
vi. Mabwysiadu dull blaengar ac ataliol, gan hybu canfod cynnar, asesu ac ymyrryd rhagweithiol yn erbyn risgiau sy'n dod i'r amlwg sy'n ymwneud â'r amgylchedd yng nghyd-destun swyddogaethau cyfraith amgylcheddol a'i gweithredu'n effeithiol.
vii. Ymarfer ei swyddogaethau'n annibynnol ar Lywodraeth Cymru ac yn ddiduedd.
viii. Gweithio'n adeiladol i ategu a chydweddu â chyrff cyhoeddus a sefydlwyd eisoes i fonitro, craffu, cynghori neu ddwyn awdurdodau cyhoeddus Cymru i gyfrif, gan gynnwys Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
ix. Lle bo'n briodol, gweithio ar y cyd ar feysydd o ddiddordeb cyffredin mewn perthynas â swyddogaethau cyfraith amgylcheddol a'i gweithredu'n effeithiol, gyda'r OEP a'r ESS.
x. Pwyso ar ymarfer o fewn yr Undeb Ewropeaidd, tra'n cydnabod y fframwaith deddfwriaethol penodol sydd ar waith yng Nghymru.

CLI1: I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r pwrpas a'r amcanion arfaethedig ar gyfer y corff llywodraethiant amgylcheddol newydd i Gymru?

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

Os hoffech egluro'ch ateb, defnyddiwch y blwch testun isod.

| |
|---|
| |

## Strategaeth a Gofynion Adrodd

13. Wrth gyflawni ei bwrpas a'i amcanion, bydd yn hanfodol i'r corff llywodraethiant ategu strwythurau llywodraethu a gofynion adrodd presennol a gweithio'n adeiladol a chydweithredol â sefydliadau partner perthnasol. Bydd manylion pellach am hyn yn adran *Partneriaeth* y Papur Gwyn hwn, ond ochr yn ochr â

hyn, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y bydd yn ofynnol i'r corff llywodraethiant gynhyrchu a chyhoeddi dogfen sy'n nodi ei strategaeth.

14. Bydd y ddogfen strategaeth hon yn nodi sut mae'r corff llywodraethiant yn bwriadu cyflawni ei bwrpas a'i amcanion, gan gynnwys, yn y man lleiaf:
    - Y dull y bydd y corff llywodraethiant yn ei fabwysiadu i fonitro'n effeithiol sut mae Gweinidogion Cymru ac awdurdodau cyhoeddus Cymru yn gweithredu a chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol.
    - Sut y bydd yn monitro targedau amgylcheddol statudol, gan gynnwys sut y bydd yn ategu ac yn gwella gwaith cyrff cyhoeddus perthnasol eraill, megis y Pwyllgor Newid Hinsawdd, i graffu ar dargedau yng Nghymru, yn hytrach na'u dyblygu.
    - Gweithdrefnau'r corff llywodraethiant ar gyfer rheoli cwynion neu sylwadau cyhoeddus am fethiannau honedig gan awdurdodau cyhoeddus Cymru i gydymffurfio â chyfraith amgylcheddol.
    - Polisi gorfodi'r corff llywodraethiant, a ddylai gynnwys canllawiau ar sut y bydd ymchwiliadau a gorfodi'n cael eu rheoli, gan gynnwys sut mae'n bwriadu defnyddio hysbysiadau gwybodaeth a chydymffurfio ac adroddiadau gwella.
    - Sut y bydd yn gweithio'n effeithiol a chydweithredol â sefydliadau partner, yn enwedig Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a'r OEP.

15. Bydd y corff llywodraethiant yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru felly bydd y gwaith o ddatblygu ei strategaeth yn cael ei wneud gan y corff ei hun. Bydd angen cyhoeddi'r strategaeth gyntaf o fewn 12 mis i sefydlu'r corff llywodraethiant. Fodd bynnag, bydd yn ofynnol i'r corff llywodraethiant ymgynghori â rhanddeiliaid perthnasol wrth ddatblygu ei strategaeth, a bydd yn ofynnol i'r corff llywodraethiant adolygu ei strategaeth, a gall ei diweddaru o bryd i'w gilydd.

16. Ochr yn ochr â'i strategaeth, bydd gofyn i'r corff llywodraethiant hefyd gyhoeddi adroddiad blynyddol sy'n nodi'r gwaith a wnaeth dros y 12 mis blaenorol.

17. Rydym yn cynnig bod strategaeth y corff llywodraethiant a'i adroddiad blynyddol yn cael eu cyflwyno i Weinidogion Cymru iddynt hwy eu gosod gerbron y Senedd. Bydd y dull hwn yn sicrhau bod y corff llywodraethiant yn cydnabod rôl sylfaenol y Senedd wrth ddarparu atebolrwydd gwleidyddol i bobl Cymru, a bydd yn gwella annibyniaeth y corff llywodraethiant yn ogystal ag ymwybyddiaeth o waith y corff llywodraethiant ar draws deddfwrfa Cymru.

CLI2: I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r gofynion arfaethedig o ran strategaeth a gofynion adrodd y corff llywodraethiant?

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

Os hoffech egluro'ch ateb, defnyddiwch y blwch testun isod.

| |
|---|
| |

## Goruchwylio Awdurdodau Cyhoeddus Perthnasol Cymru gan y Corff Llywodraethiant

18. Er mwyn cyflawni ei bwrpas orau, mae'n bwysig bod gan y corff llywodraethiant gylch gwaith uchelgeisiol sy'n diffinio'n glir yr awdurdodau cyhoeddus y mae'n gallu eu goruchwylio a, lle bo angen, dwyn camau gorfodi yn eu herbyn.

19. Yn ystod ymgynghoriad 2019, gofynnodd Llywodraeth Cymru am farn ar yr awdurdodau cyhoeddus i'w cynnwys o fewn cylch gwaith swyddogaethau'r corff llywodraethiant. Yn y lle cyntaf, cynigiwyd y canlynol:
    - Gweinidogion Cymru
    - Cyfoeth Naturiol Cymru
    - Awdurdodau lleol Cymru
    - Gweinidogion y Goron

20. Denodd y cynnig hwn gryn gefnogaeth, ynghyd ag amrywiaeth o safbwyntiau ar beth oedd cwmpas 'awdurdodau lleol Cymru', 'cyrff cyhoeddus' ac 'awdurdodau cyhoeddus'. Fodd bynnag, roedd yr ymatebwyr yn gyson o ran eu bod o'r farn y dylid defnyddio rhestr eang i gwmpasu'r amrywiaeth o awdurdodau cyhoeddus a allai effeithio ar yr amgylchedd yng Nghymru.

21. Ers cyfnod yr ymgynghoriad, mae'r OEP wedi cael ei sefydlu i oruchwylio cyrff cyhoeddus sydd heb eu datganoli yng Nghymru, sydd yn cynnwys Gweinidogion y Goron ac Adrannau Llywodraeth y DU ymhlith eraill.

22. Ar ôl myfyrio ar yr ymatebion i'r ymgynghoriad, rydym yn cynnig ehangu cylch gwaith y corff llywodraethiant y tu hwnt i Weinidogion Cymru, awdurdodau lleol Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru. Yn unol â'n hawydd i bennu cylch gwaith mwy uchelgeisiol ac i wella cydlyniant, rydym yn hytrach yn cynnig bod cylch gwaith y corff llywodraethiant yn cynnwys **Gweinidogion Cymru** ac **awdurdodau cyhoeddus Cymru** sy'n cael eu rhestru yn Atodiad 2.

23. Mae'r rhestr arfaethedig yn Atodiad 2 yn cwmpasu cyrff yng Nghymru (cyhoeddus a phreifat) y credwn y gallai fod ganddynt bwerau neu ddyletswyddau presennol sy'n ymwneud â'r amgylchedd, neu a allai effeithio ar yr amgylchedd. Er enghraifft, mae'r rhestr arfaethedig yn cynnwys:
    a. rheoleiddwyr amgylcheddol sy'n gweithredu yng Nghymru (megis Cyfoeth Naturiol Cymru),
    b. awdurdodau datganoledig yng Nghymru sydd â phwerau neu swyddogaethau presennol sy'n ymwneud â'r amgylchedd, neu o'u harfer, a allai effeithio ar yr amgylchedd (megis y ddyletswydd i geisio cynnal a

gwella bioamrywiaeth a hybu gwytnwch ecosystemau yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016), ac

c. cyrff preifat sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus sy'n ymwneud â'r amgylchedd, neu a allai effeithio ar yr amgylchedd (megis cwmnïau dŵr).

24. Mae'n bwysig nodi na fydd y corff llywodraethiant yn rheoleiddiwr amgylcheddol 'rheng flaen' (fel Cyfoeth Naturiol Cymru). Er enghraifft, mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru bwerau amrywiol i ddwyn camau gorfodi lle mae unigolion (cyhoeddus a phreifat) wedi methu â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol yng Nghymru (megis ymateb i achosion llygredd). Nid ydym o'r farn ei bod yn rhesymol i Cyfoeth Naturiol Cymru, fel y corff sy'n gorfodi'r rheoliadau amgylcheddol hynny, graffu ar effeithiolrwydd y gyfraith amgylcheddol sy'n sail i'w swyddogaethau rheoleiddio a gorfodi ei hun.

25. At hynny, er y gall rheoleiddiwr amgylcheddol rheng flaen ystyried materion o ddiffyg cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol gan unigolion (preifat neu gyhoeddus), nid oes disgwyl iddo, ac nid yw'r grym ganddo, i ymchwilio i'r hyn y mae hynny'n ei ddweud am ddehongliad y corff nad yw'n cydymffurfio o gyfraith amgylcheddol, ac a oes rheswm mwy sylfaenol neu systemig yn achosi'r diffyg cydymffurfio.

26. Yn ogystal, dylai cwynion neu atgyfeiriadau y byddai'n fwyaf priodol i'r rheoleiddiwr perthnasol, neu Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, ymdrin â nhw gael eu cyfeirio'n unol â hynny. Mae swyddogaeth gwynion arfaethedig y corff llywodraethiant yn cael ei thrafod ymhellach isod.

27. Rydym hefyd yn cynnig cynnwys dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus Cymru i gydweithredu â'r corff llywodraethiant newydd mewn cysylltiad ag arfer swyddogaethau'r corff llywodraethiant.

CLl3: Rydym yn cynnig y dylai cylch gwaith y corff llywodraethiant fod yn berthnasol i Weinidogion Cymru ac awdurdodau cyhoeddus perthnasol Cymru sy'n arfer y swyddogaethau amgylcheddol a restrir yn Atodiad 2 yng Nghymru. I ba raddau ydych chi'n cytuno â hyn?

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

Os hoffech egluro'ch ateb, defnyddiwch y blwch testun isod.

| |
|---|

CLl4: Yn eich barn chi, a oes unrhyw awdurdodau cyhoeddus eraill, neu gyrff preifat sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus, y dylid eu hychwanegu at y rhestr (neu eu dileu oddi arni) yn Atodiad 2? Defnyddiwch y blwch testun isod i esbonio eich ateb.

## Swyddogaethau Arfaethedig y Corff Llywodraethiant Amgylcheddol

28. Er mwyn cyflawni ei bwrpas sef goruchwylio gweithredu a chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol yng Nghymru, bydd gan y corff llywodraethiant nifer o swyddogaethau penodol. Mae'r rhain yn cael eu categoreiddio'n fras o dan yr is-benawdau canlynol:
    i. Monitro ac adrodd
    ii. Darparu cyngor
    iii. Cwynion a sylwadau
    iv. Ymchwilio
    v. Gorfodi
    vi. Partneriaeth

### <u>Monitro ac adrodd</u>

29. Bydd monitro gweithredu cyfraith amgylcheddol, a monitro cydymffurfiaeth â hi, gan awdurdodau cyhoeddus perthnasol yng Nghymru yn un o swyddogaethau allweddol y corff llywodraethiant.

30. Er mwyn cyflawni'r swyddogaeth hon, bydd y corff llywodraethiant yn casglu data, yn cynnal asesiadau rheolaidd, ac yn gwerthuso effeithiolrwydd y deddfau amgylcheddol presennol wrth gyflawni eu hamcanion arfaethedig. Drwy fonitro cynhwysfawr, bydd y corff llywodraethiant yn nodi meysydd sy'n peri pryder, bylchau posibl yn y ddeddfwriaeth, ac yn cynghori ar faterion sy'n dod i'r amlwg, gan alluogi penderfyniadau cytbwys ac ymyriadau amserol gan reoleiddwyr a Llywodraeth Cymru.

31. Bydd y monitro rhagweithiol hwn yn ategu'r cynigion ynghylch cynghori, oherwydd bydd y corff llywodraethiant yn gallu defnyddio'r wybodaeth hon i adrodd canfyddiadau i Lywodraeth Cymru yn uniongyrchol, neu i gynghori awdurdodau cyhoeddus Cymru i gefnogi eu cydymffurfiaeth â chyfraith amgylcheddol.

32. Rydym hefyd yn rhagweld y bydd monitro gweithredol yn galluogi'r corff llywodraethiant i gynnal ymchwiliadau a dwyn camau gorfodi yn rhagweithiol ar sail gwybodaeth y mae'n ei chasglu ei hun, yn hytrach na dibynnu ar gwynion yn unig.

33. Bydd gan y corff llywodraethiant rôl graidd hefyd o ran darparu craffu annibynnol a goruchwylio cyflawni targedau amgylcheddol a bennir gan Weinidogion Cymru. Mae manylion pellach am hyn yn yr adran nesaf. Bydd y corff llywodraethiant hefyd yn gallu adrodd a chynghori ar dargedau amgylcheddol ehangach fel y maent yn berthnasol i Gymru, fel y rhai sydd wedi'u cynnwys mewn

confensiynau a chytundebau rhyngwladol. Byddai'r corff llywodraethiant yn gallu gwneud sylwadau priodol ynghylch unrhyw un o'i ganfyddiadau.

34. Felly disgwylir i allbynnau'r gweithgaredd monitro ac adrodd hwn fod ar y ffurfiau canlynol:
    i. Cyngor ataliol ac argymhellion i Lywodraeth Cymru a/neu awdurdodau cyhoeddus perthnasol Cymru
    ii. Ymchwilio rhagweithiol i fethiannau honedig i gydymffurfio â chyfraith amgylcheddol
    iii. Tueddiadau ar gyfer dadansoddi, y gellid eu cynnwys yn ei adroddiad blynyddol
    iv. Adroddiadau pwrpasol ar gydymffurfio, gwelliannau a/neu fethiannau systemig i gydymffurfio, wedi'u cynhyrchu fesul achos wrth i waith ymchwilio ddigwydd ac wrth i gamau gorfodi gael eu cymryd.

*Craffu ar dargedau statudol*

35. Mae dull Cymru o ymdrin â chyfraith a pholisi amgylcheddol eisoes yn gosod nodau uchelgeisiol i ddiogelu ein hamgylchedd naturiol cyfoethog ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Gyda'i sefyllfa strategol a'i wybodaeth arbenigol, gallai'r corff llywodraethiant gynnig mewnwelediadau gwerthfawr o ran a yw cyfraith amgylcheddol yng Nghymru yn gweithredu'n effeithiol i sicrhau y caiff ein targedau eu cyflawni, ac yn y pen draw yn rhoi hwb i ni gyflawni ein nodau amgylcheddol cyffredin.

36. Er mwyn cefnogi hyn, rydym yn cynnig y bydd y corff llywodraethiant yn monitro targedau amgylcheddol statudol. Rhaid i'r corff llywodraethiant adrodd yn rheolaidd, naill ai drwy ei adroddiad blynyddol neu drwy eithriad pan fo'r corff llywodraethiant yn ystyried ei fod yn briodol, ar sut mae Gweinidogion Cymru ac awdurdodau cyhoeddus perthnasol Cymru yn cyfrannu at dargedau amgylcheddol ac yn eu cyflawni.

37. Mae enghreifftiau o'r math o dargedau amgylcheddol y bydd y corff llywodraethiant yn eu monitro ac yn adrodd arnynt yn cynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i):
    - Bioamrywiaeth (sy'n cael ei drafod yn ddiweddarach yn y Papur Gwyn hwn)
    - Deddf Amgylchedd Cymru 2016
    - Bil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru)

38. Er ein bod o'r farn bod hon yn swyddogaeth bwysig, rydym yn cydnabod y bydd y corff llywodraethiant angen adnoddau dadansoddi ac adrodd er mwyn gallu ei chyflawni, ac mae risg y gallai ddyblygu'r swyddogaethau monitro targedau y mae sefydliadau eraill yn eu cyflawni megis y Pwyllgor Newid Hinsawdd. Rhaid i'r corff llywodraethiant nodi yn ei strategaeth sut y bydd ei waith yn ategu ac yn gwella gwaith cyrff cyhoeddus perthnasol eraill i graffu ar dargedau yng Nghymru, yn hytrach na'i ddyblygu.

CLI5: I ba raddau ydych chi'n cytuno â chwmpas a rôl arfaethedig y corff llywodraethiant mewn perthynas â monitro ac adrodd, gan gynnwys craffu ar dargedau statudol?

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

Os hoffech egluro'ch ateb, defnyddiwch y blwch testun isod.

| |
|---|
| |

## Darparu cyngor

39. Bydd y corff llywodraethiant yn cynnwys arbenigwyr amgylcheddol o wahanol ddisgyblaethau, gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) arbenigedd technegol, rheoleiddio a gorfodi amgylcheddol. Bydd hefyd yn gallu manteisio ar arbenigedd ehangach trwy fanteisio ar adnoddau allanol yn ôl yr angen.

40. Bydd darparu cyngor gwybodus ac arbenigol yn rôl bwysig a fydd yn cael ei harfer ar draws nifer o swyddogaethau'r corff llywodraethiant:
    i. Cyngor i Weinidogion Cymru ar newidiadau i gyfraith amgylcheddol a pholisi ehangach
    ii. Cyngor ar ôl ystyried cwynion nad ydynt yn gwarantu ymchwiliad llawn
    iii. Cyngor ar faterion cydymffurfio systemig
    iv. Cyngor yn dilyn ymchwiliad lle nad oes angen cymryd camau gorfodi ffurfiol

41. Bydd y corff llywodraethiant yn datblygu darlun clir a strategol o'r hyn sydd, ac nad sydd, yn gweithio'n effeithiol ar draws tirwedd cyfraith amgylcheddol. Bydd felly mewn sefyllfa dda i roi cyngor arbenigol i Lywodraeth Cymru ar gynigion deddfwriaethol sy'n ymwneud â'r amgylchedd ac mae'n bwysig bod barn y corff llywodraethiant yn cael ei hystyried wrth ddatblygu newidiadau arfaethedig. Gallai hyn fod yn rhan o ymgynghoriadau cyhoeddus yn ogystal ag achosion lle mae Gweinidogion Cymru yn gofyn yn benodol am gyngor ar ddatblygu polisi sy'n ymwneud â chyfraith amgylcheddol. I'r perwyl hwnnw, rydym yn cynnig bod yn rhaid i'r corff llywodraethiant roi cyngor, yn ôl y gofyn, i Weinidogion Cymru ar gynigion deddfwriaethol sy'n ymwneud â chyfraith amgylcheddol.

42. Yn ogystal, awgrymodd y Grŵp Gorchwyl y dylid creu dwy swyddogaeth gynghori ychwanegol ac ar wahân ar gyfer y corff llywodraethiant sy'n ymwneud yn benodol â mynd i'r afael â chwynion a materion cydymffurfio systemig:
    a. O ran **mynd i'r afael â chwynion**, awgrymwyd y gellid rhoi cyngor i gyrff cyhoeddus ar faterion sy'n ymwneud â materion cyfraith amgylcheddol penodol er mwyn cywiro cwynion yn gynnar.
    b. Awgrymwyd hefyd y gallai'r corff llywodraethiant ddarparu cyngor lle mae ymchwiliad wedi nodi **mater cydymffurfio systemig** posibl lle mae dau neu fwy o gyrff cyhoeddus wedi methu â chydymffurfio â'r un agwedd (neu

agwedd debyg) ar gyfraith amgylcheddol. Gellid rhoi cyngor ar ffurf argymhellion i Weinidogion Cymru a/neu awdurdodau cyhoeddus Cymru gyda'r nod o leihau'r defnydd o gamau gorfodi ffurfiol. Serch hynny, pe bai'r corff yn credu bod angen proses ffurfiol, byddai modd iddo ddefnyddio'r cynlluniau gwella sy'n cael eu nodi yn yr adran ar orfodi.

43. Efallai y bydd achosion hefyd lle mae'r corff llywodraethiant, yn dilyn ymchwiliad, yn penderfynu na chydymffurfiwyd â chyfraith amgylcheddol, ond gan nad oes niwed amgylcheddol wedi digwydd eto, mae'n ystyried ei bod yn fwy priodol mynd i'r afael â'r diffyg cydymffurfio hwn trwy gynnig cyngor yn hytrach na mesurau gorfodi ffurfiol. Byddai hyn yn ôl disgresiwn y corff llywodraethiant, ond mae'n darparu adnodd arall i'r corff llywodraethiant ei ddefnyddio cyn symud at orfodi ffurfiol pe bai'n ystyried bod hynny'n fwy addas.

44. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno ag asesiad y Grŵp Gorchwyl bod swyddogaethau cynghori yn ychwanegu gwerth sylweddol. Fodd bynnag, byddai angen i'r corff llywodraethiant sicrhau bod y cyngor mae'n ei roi yn gyfyngedig i'r meysydd hyn, ac nad yw swyddogaethau cynghori sefydliadau pwysig eraill fel Cyfoeth Naturiol Cymru yn cael eu dyblygu.

45. Rydym hefyd yn ystyried rôl bosibl corff llywodraethiant wrth ddarparu cyngor ac arweiniad hygyrch i'r cyhoedd ar gyfraith amgylcheddol, er enghraifft trwy dudalen 'esboniadau' hygyrch ar-lein. Gallai hyn gynorthwyo awdurdodau cyhoeddus, cwmnïau preifat a'r cyhoedd yn gyffredinol i ddeall yn well beth mae elfennau cymhleth cyfraith amgylcheddol yn ei olygu neu'n gofyn amdano yn ymarferol. Ni fyddai hyn yn gyngor cyfreithiol penodol ond gallai helpu i atal niwed amgylcheddol trwy wella dealltwriaeth gyffredin o ofynion cyfraith amgylcheddol.

CLl6: I ba raddau ydych chi'n cytuno â chwmpas a rôl arfaethedig swyddogaethau cynghori'r corff llywodraethiant?

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

Os hoffech egluro'ch ateb, defnyddiwch y blwch testun isod.

| |
|---|
| |

## Cwynion a sylwadau

46. Rôl bwysig y corff llywodraethiant newydd fydd ymdrin â sylwadau am swyddogaethau a gweithredu cyfraith amgylcheddol a methiannau honedig i gydymffurfio â chyfraith o'r fath gan awdurdodau cyhoeddus Cymru.

47. Yn dilyn ymgynghoriad 2019, cydnabu'r grŵp gorchwyl rhanddeiliaid bwysigrwydd cael gweithdrefn gwyno agored a thryloyw ac ychwanegodd y byddai angen cyd-destun pellach ar bwnc cwynion a chylch gwaith y corff i osgoi

gwrthdaro awdurdodol ag asiantaethau eraill, yn ogystal â sicrhau'r gallu i ailgyfeirio cwynion, yn ôl yr angen.

48. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno â'r farn hon ac yn ystyried y dylai cwmpas cwynion ymwneud yn unig â swyddogaethau/gweithredu cyfraith amgylcheddol yn ogystal ag achosion honedig o dorri cyfraith o'r fath gan awdurdodau cyhoeddus Cymru. Mae hyn yn golygu na fydd y corff llywodraethiant yn ymdrin â chwynion sy'n ymwneud â phenderfyniadau penodol a wneir gan gyrff cyhoeddus (er enghraifft, cyhoeddi trwyddedau neu ganiatâd cynllunio) oni bai eu bod yn ymwneud â mater ynghlwm wrth sut mae'r corff cyhoeddus yn cydymffurfio'n ehangach â chyfraith amgylcheddol.

49. At hynny, cyn gwneud cwyn i'r corff llywodraethiant, rhaid i sefydliad neu aelod o'r cyhoedd allu dangos eu bod wedi ceisio datrys y mater trwy weithdrefn gwynion fewnol berthnasol awdurdod cyhoeddus Cymru ac unrhyw reoleiddiwr perthnasol, lle'r oedd gan y rheoleiddiwr hwnnw rôl briodol. Bydd hyn yn rhoi cyfle i awdurdodau cyhoeddus Cymru fynd i'r afael â materion eu hunain a sicrhau bod y mecanweithiau cwynion presennol yn cael eu dilyn cyn i faterion gael eu cyfeirio at y corff llywodraethiant.

50. Rydym o'r farn y dylai fod yn fater i'r corff llywodraethiant lunio gweithdrefn gwyno yn unol â'i amcanion, ond fel rhan o'i strategaeth, dylai'r corff llywodraethiant amlinellu'r weithdrefn hon mewn modd clir a hygyrch. Dylai hefyd fanylu ar sut y bydd cynnydd yn erbyn cwynion yn cael ei hysbysu, y meini prawf a ddefnyddir i asesu'r gŵyn cyn ymchwilio iddi, yn ogystal â sut i 'uwchgyfeirio' cwynion. Bydd gan y corff llywodraethiant hyblygrwydd i benderfynu pa faterion y mae'n mynd i'r afael â hwy, ond mae'n rhaid iddo ymateb i'r person sy'n gwneud y gŵyn i egluro ei benderfyniad.

51. Bydd y dull hwn yn datblygu ar waith pwysig Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru, sydd wedi sefydlu system i alluogi'r cyhoedd i fynegi pryderon lle maent o'r farn bod diffyg cydymffurfiaeth â chyfraith amgylcheddol.

CLI7: I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r dull a awgrymir ar gyfer rheoli cwynion a sylwadau?

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

Os hoffech egluro'ch ateb, defnyddiwch y blwch testun isod.

| |
|---|

## Ymchwilio

52. Bydd ymchwilio trylwyr i fethiannau honedig i gydymffurfio â chyfraith amgylcheddol gan awdurdodau cyhoeddus Cymru yn gam cyntaf angenrheidiol wrth ystyried unrhyw gamau gorfodi posibl. Ynghyd â'r pŵer i gymryd camau

gorfodi, bydd ymchwilio yn agwedd sylfaenol ar allu'r corff llywodraethiant i ddarparu llywodraethiant effeithiol o sut mae awdurdodau cyhoeddus Cymru yn gweithredu cyfraith amgylcheddol yng Nghymru ac yn cydymffurfio â hi.

53. Roedd ymgynghoriad 2019 yn gofyn yn benodol am farn ar ba bwerau y dylai'r corff llywodraethiant eu cael i ymchwilio i gwynion, gan gynnwys a ddylai'r corff llywodraethiant allu comisiynu neu ofyn am wybodaeth ychwanegol gan gyrff cyhoeddus eraill fel y bo'n briodol. Roedd ymatebwyr i'r ymgynghoriad yn cytuno â'n barn ni y dylai'r corff llywodraethiant gael y grym i gynnal ei ymchwiliadau, gwaith monitro ac adolygiadau thematig o faterion systemig ei hun, a derbyniodd y farn hon gefnogaeth bellach yn adroddiad grŵp gorchwyl rhanddeiliaid 2020.

54. Lle mae'r corff llywodraethiant wedi cael gafael ar dystiolaeth sy'n awgrymu bod awdurdod cyhoeddus yng Nghymru wedi methu cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol, bydd yn gallu dechrau ymchwiliad i'r methiant posibl.

55. Dylai'r corff llywodraethiant allu cynnal ymchwiliadau o'r fath ar ei liwt ei hun (er enghraifft, oherwydd monitro), neu mewn ymateb i sylwadau gan y cyhoedd. Fodd bynnag, ni fydd yn ofynnol i'r corff llywodraethiant ymchwilio i bob methiant honedig i gydymffurfio â chyfraith amgylcheddol (boed hynny'n ganlyniad i'w waith ei hun neu trwy gwynion) a bydd yn cael disgresiwn i benderfynu pryd a pha fethiannau honedig i ymchwilio iddynt.

*Hysbysu'r Ymchwiliad*

56. Er mwyn cyflawni ei swyddogaeth ymchwilio yn effeithiol, bydd angen i'r corff llywodraethiant ofyn am wybodaeth berthnasol gan awdurdodau cyhoeddus Cymru. I ddechrau, gallai'r corff llywodraethiant ddibynnu ar y ddyletswydd gyffredinol i awdurdodau cyhoeddus Cymru gydweithredu ag ef (sy'n cynnwys ceisiadau i ddarparu gwybodaeth) wrth arfer ei swyddogaethau, sy'n cael ei nodi yn yr adran 'cyrff cyhoeddus perthnasol' uchod. Yng nghyd-destun ymchwiliadau, nod y ddyletswydd i gydweithredu yw helpu'r corff llywodraethiant ac awdurdodau cyhoeddus Cymru i ddatrys problemau, lle bynnag y bo modd, yn anffurfiol a heb fod angen camau gorfodi ffurfiol.

57. Efallai na fydd datrysiad anffurfiol bob amser yn bosibl. Rydym felly'n cynnig y bydd y pŵer gan y corff llywodraethiant i gyhoeddi 'hysbysiadau gwybodaeth' i awdurdodau cyhoeddus Cymru sy'n gofyn iddynt ddarparu gwybodaeth, data, dogfennau neu dystiolaeth arall sy'n angenrheidiol i arfer ei swyddogaethau. Rhaid i awdurdodau cyhoeddus Cymru ymateb i hysbysiadau gwybodaeth o fewn yr amser a nodir yn yr hysbysiad, a darparu'r wybodaeth y gofynnir amdani. Os nad yw awdurdodau cyhoeddus Cymru yn cydymffurfio â hysbysiad gwybodaeth, naill ai trwy fethu â darparu'r wybodaeth neu trwy beidio ag ymateb o fewn yr amser a nodir yn yr hysbysiad, yna gall y corff llywodraethiant gymryd camau gorfodi. Er hynny, rydym yn cydnabod y bydd angen arweiniad clir i sicrhau'r ddealltwriaeth orau o'r gweithdrefnau ac rydym yn disgwyl i'r corff llywodraethiant ac awdurdodau cyhoeddus Cymru drafod unrhyw bryderon sydd ganddynt am hysbysiad gwybodaeth cyn uwchgyfeirio achos.

CLI8: I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynigion i alluogi'r corff i ymchwilio?

| Cytuno’n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno’n gryf |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

Os hoffech egluro’ch ateb, defnyddiwch y blwch testun isod.

| |
|---|
| |

## Gorfodi

58. Er mwyn goruchwylio cydymffurfiaeth awdurdodau cyhoeddus Cymru â chyfraith amgylcheddol yn effeithiol, mae’n hanfodol i’r corff llywodraethiant allu dwyn camau gorfodi pan fydd yn ystyried bod awdurdodau cyhoeddus Cymru wedi methu â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol.

59. Roedd ymgynghoriad 2019 yn ceisio barn ar ba ddulliau gorfodi anffurfiol a ffurfiol y dylai corff eu rhoi ar waith, a pha gamau gorfodi sydd angen bod ar gael. Roedd ymatebwyr i’r ymgynghoriad yn gefnogol ar y cyfan i ddull uwchgyfeirio o fynd i’r afael â materion cyn gynted â phosibl a defnyddio gwahanol adnoddau, a fyddai’n osgoi neu’n lleihau’r defnydd o fecanweithiau ffurfiol, yn enwedig atgyfeirio i lys neu dribiwnlys.

60. Cadarnhaodd adroddiad grŵp gorchwyl rhanddeiliaid 2020 y farn hon, gan gytuno y dylid annog dull uwchgyfeirio ac ataliol i gyfeirio materion lle bo angen i atal difrod amgylcheddol, yn ogystal â gallu mynd i’r afael â materion mewn modd priodol, o roi cyngor i gyrff cyhoeddus yng Nghymru hyd at gamau gorfodi.

61. Rydym wedi gwreiddio’r dull hwn yn swyddogaeth gyffredinol y corff llywodraethiant ac rydym o’r farn fod gorfodi yn aml yn gallu bod yn ‘ddewis olaf’ angenrheidiol i’w ddefnyddio pan nad yw cydweithio, cyngor ac arweiniad yn gallu, neu’n annhebygol o allu, atal difrod amgylcheddol, neu os yw difrod amgylcheddol eisoes wedi’i achosi oherwydd diffyg cydymffurfio.

62. Ar y sail hon, os yw’r corff llywodraethiant yn ystyried bod awdurdod cyhoeddus wedi methu â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol, mae Llywodraeth Cymru yn cynnig bod gan y corff llywodraethiant ddisgresiwn ynghylch pa gamau pellach i’w cymryd. Dylid ffafrio camau unioni cynnar ar ran awdurdodau cyhoeddus Cymru cyn ystyried camau gorfodi, a dylai’r corff llywodraethiant geisio gweithio’n adeiladol gydag awdurdodau cyhoeddus Cymru lle bo hynny’n bosibl i ddod i benderfyniad anffurfiol. Bydd y dull hyblyg hwn yn galluogi’r corff llywodraethiant i fynd i’r afael â materion mewn modd priodol tra’n sicrhau bod y pŵer angenrheidiol ganddo i gymryd camau pellach os oes angen.

*Hysbysiadau Cydymffurfio*

63. Mewn achosion lle mae’r corff llywodraethiant wedi cynnal ymchwiliad i fethiant i gydymffurfio â chyfraith amgylcheddol ac nad yw wedi bod yn bosibl sicrhau

datrysiad anffurfiol, neu os nad yw rhoi cyngor yn cael ei ystyried yn ddull priodol o ddatrys y mater, yna bydd y pŵer gan y corff llywodraethiant i roi hysbysiad cydymffurfio i awdurdodau cyhoeddus Cymru.

64. Bydd yr hysbysiad hwn yn manylu ar y camau a gymerwyd yn ystod ymchwiliad, yn amlinellu'r methiant penodol i gydymffurfio â chyfraith amgylcheddol, ac yn nodi'r camau y mae'n rhaid i awdurdod cyhoeddus Cymru eu cymryd i unioni neu liniaru'r diffyg cydymffurfio, gan gynnwys yr amserlen ar gyfer cyflawni camau o'r fath.

*Apelio yn erbyn hysbysiadau cydymffurfio*

65. Bydd gan awdurdodau cyhoeddus Cymru hawl i apelio yn erbyn hysbysiad cydymffurfio, a fydd yn cael ei darparu yn y Bil. Rhaid i'r corff llywodraethiant nodi'r hawl i apelio yn yr hysbysiad cydymffurfio, gan gynnwys yr amserlen ar gyfer cyflwyno apêl.

66. Wrth apelio yn erbyn hysbysiad cydymffurfio, gall awdurdod cyhoeddus yng Nghymru ddadlau nad yw wedi gweithredu yn y modd a honnir yn yr hysbysiad cydymffurfio, neu nad yw ei ymddygiad yn cynrychioli diffyg cydymffurfiaeth â chyfraith amgylcheddol.

67. Bydd apeliadau'n cael eu hystyried gan y llys neu'r tribiwnlys perthnasol, a all wedyn wneud unrhyw orchmynion sy'n briodol ym marn y llys neu'r tribiwnlys. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys derbyn apêl awdurdod cyhoeddus yng Nghymru a dileu'r hysbysiad cydymffurfio neu wrthod yr apêl a chadarnhau'r hysbysiad cydymffurfio.

*Methiant i gydymffurfio â hysbysiad cydymffurfio*

68. Os yw awdurdod cyhoeddus yng Nghymru yn methu â chydymffurfio â hysbysiad cydymffurfio ac nad yw wedi cyflwyno apêl yn erbyn yr hysbysiad cydymffurfio, rydym yn cynnig y gall y corff llywodraethiant gyfeirio'r achos o ddiffyg cydymffurfio i lys neu dribiwnlys priodol, a all wedyn wneud unrhyw orchmynion sy'n briodol ym marn y llys neu'r tribiwnlys o dan yr amgylchiadau.

69. Mae'r ESS wedi mabwysiadu dull tebyg. Fodd bynnag, mae dull yr Alban o gyflwyno hysbysiadau cydymffurfio yn gysylltiedig â methiant i gydymffurfio â chyfraith amgylcheddol pan fo awdurdodau cyhoeddus yn yr Alban yn cyflawni 'swyddogaethau rheoleiddiol', fel:
    a) Gosod rheolau, cyfyngiadau neu amodau ar weithgaredd.
    b) Gosod nodau a safonau ar gyfer gweithgaredd.
    c) Darparu cyngor neu gyfarwyddiadau sy'n gysylltiedig â gweithgaredd.
    d) Gorfodi rheolau, terfynau, amodau, safonau, nodau neu gyngor sy'n gysylltiedig â gweithgaredd.

70. Er bod dull yr Alban yn cwmpasu ystod eang o weithgareddau sy'n ymwneud â chyfraith amgylcheddol, rydym yn cynnig un dull ar gyfer methiant i gydymffurfio â chyfraith amgylcheddol, boed y swyddogaethau'n rhai rheoleiddiol ai peidio.

*Llys neu dribiwnlys perthnasol*

71. Rydym yn cynnig y dylid cyfeirio apêl awdurdod cyhoeddus yng Nghymru yn erbyn hysbysiadau cydymffurfio, neu fethiant i gydymffurfio â hysbysiadau cydymffurfio, i Dribiwnlys yr Haen Gyntaf arfaethedig Cymru. Fodd bynnag, y bwriad yw cyflwyno'r ddeddfwriaeth i sefydlu system dribiwnlysoedd ddatganoledig newydd i Gymru yn ystod tymor y Senedd hon, sy'n golygu na fydd system dribiwnlysoedd newydd Cymru o reidrwydd yn weithredol pan fydd y Bil hwn yn cael Cydsyniad Brenhinol.

72. Byddwn yn edrych ar ffyrdd y gall y Bil hwn ddarparu ar gyfer Tribiwnlysoedd Cymru yn awr ac yn y dyfodol a byddwn yn gweithio i gyflawni hyn yn y tymor hir. Fodd bynnag, os nad yw hyn yn cael ei ystyried yn ddichonadwy, byddwn yn archwilio opsiynau i'r corff llywodraethiant gyfeirio achosion o ddiffyg cydymffurfio i'r Uchel Lys neu Dribiwnlys yr Haen Gyntaf Cymru a Lloegr.

CLl9: I ba raddau ydych chi'n cytuno â phroses arfaethedig Llywodraeth Cymru ar gyfer ymdrin yn ffurfiol ag achosion o ddiffyg cydymffurfio trwy hysbysiadau cydymffurfio a gweithdrefnau llys neu dribiwnlys?

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

Os hoffech egluro'ch ateb, defnyddiwch y blwch testun isod.

| |
|---|

*Adroddiadau / Cynlluniau Gwella*

73. Er mwyn mynd i'r afael â sefyllfaoedd lle mae un neu fwy o gyrff cyhoeddus wedi methu â chydymffurfio â'r un agwedd (neu agwedd debyg) ar gyfraith amgylcheddol (rydym wedi cynnig y bydd hyn yn cael ei gategoreiddio fel 'materion cydymffurfio systemig'), rydym yn ystyried a fyddai'n werth datblygu'r broses orfodi ymhellach ar gyfer amgylchiadau lle mae awdurdod cyhoeddus yng Nghymru wedi methu â chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol ac ni fyddai hysbysiadau cydymffurfio yn darparu ffordd effeithiol o ddatrys hynny, gan y gallai fod patrwm amlwg o ddiffyg cydymffurfio gan nifer o awdurdodau cyhoeddus sy'n nodi diffyg strwythurol yn y system yn ei chyfanrwydd.

74. Mae cynsail ar gyfer y dull hwn yn bodoli yn yr Alban, lle mae'r ESS yn paratoi [adroddiad gwella] pan fydd o'r farn:

   i. na fydd hysbysiad cydymffurfio yn datrys y mater, er enghraifft pan nad yw'r swyddogaeth sy'n cael ei harfer gan yr awdurdod cyhoeddus yn cael ei chwmpasu gan hysbysiad cydymffurfio (e.e. swyddogaeth nad yw'n un reoleiddiol fel adrodd), neu fod y broblem yn mynd y tu hwnt i weithredoedd un awdurdod cyhoeddus (e.e. yn adlewyrchu patrwm

ymddygiad ar draws nifer o awdurdodau cyhoeddus sy'n awgrymu bod diffygion systemig neu strwythurol)

ii. lle y gallai fod angen adolygu a diwygio'r ddeddfwriaeth berthnasol ei hun ac ystyried effaith effeithiau cronnus a chyfuniad o effeithiau a'u cyfraniad at fethiant systemig.

75. O ystyried nad ydym yn bwriadu cyfyngu'r weithdrefn hysbysiad cydymffurfio i swyddogaethau rheoleiddio yn unig, bydd gwerth y dull hwn yn y Bil yn ymwneud yn bennaf â'r cyfle i fynd i'r afael â materion systemig trwy broses fwy ffurfiol na rhoi cyngor i Weinidogion Cymru.

76. Mewn amgylchiadau o'r fath, bydd y corff llywodraethiant yn gallu llunio adroddiad gwella sy'n cynnwys argymhellion y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru eu hystyried. Bydd gofyn wedyn i Weinidogion Cymru ymateb iddynt trwy gynllun gwella, gan nodi a yw argymhellion yn cael eu derbyn ac, os felly, y camau y maent yn bwriadu eu cymryd, neu os nad yw'r argymhellion yn cael eu derbyn, y rhesymau am hynny. Gan y bydd y broses hon yn cael ei chyfyngu i achosion lle dylai Gweinidogion Cymru weithredu i ddatrys methiannau systemig, rydym o'r farn mai i Weinidogion Cymru yn unig y dylai fod yn berthnasol.

77. Rydym o'r farn y gallai'r dull hwn fod yn effeithiol yng nghyd-destun Cymru trwy ddarparu sianel glir i nodi materion cydymffurfio systematig neu gymhleth, adrodd arnynt a'u datrys yn y pen draw a allai fod yn fwy effeithiol yn yr amgylchiadau hyn na'r broses hysbysiadau cydymffurfio. Os caiff ei fabwysiadu, byddem yn disgwyl i'r corff llywodraethiant fanylu ar ei ddull o ymdrin ag adroddiadau gwella yn ei strategaeth.

CLl10: I ba raddau ydych chi'n cytuno â chynnig Llywodraeth Cymru i gynnwys adroddiadau/cynlluniau gwella fel cam gorfodi i greu cyfle i ddatrys materion systemig lle maent yn amlwg, ond lle tybir nad hysbysiad cydymffurfio yw'r mecanwaith gorau posibl i fynd i'r afael â'r mater?

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

Os hoffech egluro'ch ateb, defnyddiwch y blwch testun isod.

| |
|---|

*Adolygiad Barnwrol*

78. Yn y rhan fwyaf o achosion, rydym yn disgwyl y bydd y corff llywodraethiant yn gallu cywiro unrhyw ganfyddiadau o ddiffyg cydymffurfio naill ai trwy gynnig cyngor, neu trwy gyflwyno hysbysiadau cydymffurfio neu adroddiadau/cynlluniau gwella ac, os oes angen, uwchgyfeirio achosion i lys neu dribiwnlys perthnasol.

79. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, mae'n bosibl y bydd angen i'r corff llywodraethiant wneud cais am adolygiad barnwrol, neu wneud cais i ymuno ag

achos adolygiad barnwrol, heb fynd trwy'r broses orfodi uchod yn gyntaf. Er enghraifft, pan fo'r corff llywodraethiant o'r farn bod ymddygiad awdurdod cyhoeddus yng Nghymru yn gyfystyr â methiant difrifol neu fethiant brys i gydymffurfio â chyfraith amgylcheddol. Bydd disgwyl i'r corff llywodraethiant nodi beth sy'n gyfystyr â difrifol a/neu frys o fewn ei strategaeth.

80. Mae'r dull hwn i'w ddefnyddio trwy eithriad yn unig, felly rydym yn cynnig cyfyngu ar bŵer y corff llywodraethiant i wneud cais am adolygiad barnwrol i amgylchiadau lle mae'r corff llywodraethiant o'r farn ei bod yn angenrheidiol atal, neu liniaru, niwed difrifol i'r amgylchedd naturiol neu i iechyd pobl.

*Ymyrryd mewn Achosion Sifil*

81. Efallai y bydd amgylchiadau pan fydd achosion sifil eisoes ar y gweill a bod y corff llywodraethiant o'r farn bod angen ymyrryd yn yr achos.

82. Fel y broses adolygiad barnwrol, rydym o'r farn y dylai'r corff llywodraethiant allu ymyrryd mewn achos sifil er mwyn gwneud cyflwyniad i'r llys ar fater sy'n codi. Dim ond mewn perthynas â honiadau sy'n gyfystyr â methiant gan awdurdod cyhoeddus i gydymffurfio â chyfraith amgylcheddol y byddai modd gwneud hyn. Yn ogystal, credwn y dylai'r ymyrraeth hon fod yn 'eithriad', wedi'i chyfyngu i amgylchiadau lle mae angen ymyrryd i atal, neu liniaru, niwed amgylcheddol difrifol yn unig. Mewn amgylchiadau eraill, byddai'n fwy priodol a chymesur dilyn y prosesau gorfodi a nodwyd eisoes, er enghraifft trwy gyflwyno hysbysiadau cydymffurfio.

CLI11: I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig i'r corff llywodraethiant, trwy eithriad, allu gwneud cais am adolygiad barnwrol a/neu ymyrryd mewn achos sifil?

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

Os hoffech egluro'ch ateb, defnyddiwch y blwch testun isod.

| |
|---|

*Cosbau ariannol*

83. Wrth benderfynu ar ddull gorfodi ar gyfer y corff llywodraethiant, rydym wedi ystyried rôl bosibl dirwyon fel un o'r dulliau posibl i sicrhau cydymffurfiaeth.

84. Yn y cyd-destun arfaethedig i'r corff llywodraethiant, er y byddai dull arall o gymell cydymffurfiaeth yn ddefnyddiol, rydym wedi ystyried dwy brif her.

    i. mewn llawer o achosion, mae dirwyon a roddir gan gyrff cyhoeddus i gyrff cyhoeddus eraill i bob pwrpas yn dosbarthu arian o fewn y sector cyhoeddus yn gyffredinol, a gallai amharu ar gyflawni a'r gallu i unioni pethau.

ii. nid yw’r corff llywodraethiant wedi’i gynllunio i fod yn rheoleiddiwr rheng flaen, gyda llawer ohonynt yn meddu ar bŵer i roi dirwyon. Yn hytrach, pwrpas y corff llywodraethiant yw goruchwylio bod cyfreithiau amgylcheddol yn gweithio ac yn cael eu gweithredu’n effeithiol yng Nghymru, yn ogystal â sicrhau bod awdurdodau cyhoeddus Cymru yn cydymffurfio â chyfreithiau o’r fath.

85. Ystyriwyd hyn yn fanylach yn ystod ymgynghoriad Llywodraeth Cymru 2019, lle ceisiwyd safbwyntiau ynghylch a ddylai’r corff llywodraethiant gael pŵer i osod cosbau ariannol ar awdurdodau cyhoeddus y mae eu hymddygiad yn gyfystyr â methiant i gydymffurfio â chyfraith amgylcheddol. Clywyd safbwyntiau cymysg ar ddefnyddio dirwyon a phriodoldeb dirwyon fel offeryn gorfodi, gyda’r un neges yn codi yn adroddiad grŵp gorchwyl rhanddeiliaid 2020, lle’r oedd y mwyafrif (ond nid pob un) yn ystyried dirwyo cyrff cyhoeddus yn ddull aneffeithiol ac, o bosibl, gwrthgynhyrchiol.

86. Wrth gydbwyso’r risgiau a’r heriau hyn, rydym o’r farn na fyddai dirwyon yn darparu dull priodol nac effeithiol o ddatrys diffyg cydymffurfio â chyfraith amgylcheddol gan awdurdodau cyhoeddus, yn enwedig o ystyried yr adnoddau sydd eisoes wedi’u cynnig i alluogi cydweithio, cyngor, hysbysiadau cydymffurfio ac, os oes angen, camau tribiwnlys.

CLI12: Mae Llywodraeth Cymru o’r farn y byddai cosbau ariannol yn ddull aneffeithiol ac, mewn rhai achosion, gwrthgynhyrchiol o gywiro methiant i gydymffurfio â chyfraith amgylcheddol gan awdurdodau cyhoeddus Cymru. I ba raddau ydych chi’n cytuno â’r safbwynt hwn?

| Cytuno’n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno’n gryf |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

Os hoffech egluro’ch ateb, defnyddiwch y blwch testun isod.

| |
|---|

## Partneriaeth

87. Gan adlewyrchu’r rôl a ragwelir i’r corff llywodraethiant o ran dwyn cyrff cyhoeddus eraill i gyfrif, bydd yn hanfodol sicrhau ei fod yn cyflawni ei swyddogaethau mewn ffordd agored a thryloyw. Bydd gofyn i’r corff llywodraethiant weithio gydag ystod eang o randdeiliaid sydd â buddiannau amrywiol a bydd angen gallu addasu’n hyblyg i amgylchiadau sy’n newid. Bydd yn bwysig bod gan randdeiliaid lefel uchel o ymddiriedaeth yn y corff llywodraethiant, fel eu bod yn hyderus yn eu gallu i gyfrannu at y ffordd y mae’r corff llywodraethiant, yn ei strategaeth, yn datgan sut y bydd yn cyflawni ei swyddogaethau ac yn dyrannu ei adnoddau.

88. Fel y nodwyd yn flaenorol, rydym yn bwriadu i’r corff llywodraethiant ddatblygu ei strategaeth a’i ffyrdd o weithio ei hun. Fodd bynnag, bydd canllawiau’n cael eu darparu ar feysydd y mae’n rhaid i’r corff llywodraethiant fanylu yn eu cylch yn ei strategaeth, sy’n cael sylw pellach yn yr is-adran *Strategaeth a Gofynion Adrodd* uchod. At hynny, wrth baratoi ei strategaeth, bydd angen i’r corff llywodraethiant ymgynghori cyn cwblhau ei ddull gweithredu a bydd angen iddo roi cyfrif am safbwyntiau a sylwadau eu partneriaid cyhoeddus.

89. Rydym o’r farn y bydd yn arbennig o bwysig i’r corff llywodraethiant nodi yn ei strategaeth sut y bydd yn gweithio gyda rhai sefydliadau lle mae’r amcanion strategol yn cyd-fynd agosaf.

*Rhyngweithio â chyrff goruchwylio eraill*

90. Fel y trafodwyd uchod, mae’r OEP yn goruchwylio cyrff cyhoeddus sydd heb eu datganoli yng Nghymru, yn cynnwys Gweinidogion y Goron ac Adrannau Llywodraeth y DU ymysg eraill. Mae Gweinidogion Cymru yn disgwyl i’r corff llywodraethiant weithio’n agos iawn gyda’r OEP, ac iddo nodi sut mae’n bwriadu cydweithio â’r OEP yn ei strategaeth. Mae’n debygol y bydd y corff llywodraethiant yn dymuno cydystyried heriau cyffredin wrth weithio gyda’r OEP a’r ESS.

91. Mae **Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol Cymru** yn adrodd ar y cynnydd y mae cyrff cyhoeddus wedi’i wneud ac y dylent ei wneud mewn perthynas â gosod a bodloni amcanion llesiant yn unol â’r egwyddor datblygu cynaliadwy yn Neddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae’n gallu rhoi cyngor i gyrff cyhoeddus yn ogystal â chynnal adolygiadau o’r ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn ystyried effaith hirdymor eu penderfyniadau

92. Mae yna hefyd sawl corff yn gweithredu yng Nghymru sydd eisoes yn darparu swyddogaethau llywodraethu allweddol, gan gynnwys:

   a. **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru**, sy’n derbyn cwynion am y ffordd y mae cyrff cyhoeddus yn cyflawni eu swyddogaethau ac yn eu dwyn i gyfrif.
   b. Mae **Archwilydd Cyffredinol Cymru,** fel archwilydd allanol y rhan fwyaf o’r sector cyhoeddus yng Nghymru, yn archwilio sut y mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sut y maent yn sicrhau gwerth wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

93. Er bod y cyrff hyn yn darparu gwahanol raddau o oruchwyliaeth, nid ydym eisiau unrhyw orgyffwrdd â swyddogaethau’r corff llywodraethiant arfaethedig. Nid ydynt wedi’u sefydlu’n benodol i oruchwylio cydymffurfio priodol â chyfraith amgylcheddol, ac nid ydynt eu hunain yn darparu dewis amgen addas i rôl flaenorol Comisiwn yr UE. Nid ydynt chwaith yn meddu ar yr arbenigedd i fynd i’r afael â materion amgylcheddol cymhleth, ac nid oes ganddynt y swyddogaethau cyfatebol ganddynt i ymgymryd â’r gwaith monitro neu orfodi parhaus mewn

perthynas â chyfraith amgylcheddol sy’n cael ei ragweld ar gyfer y corff llywodraethiant.

94. Fodd bynnag, mae meysydd amlwg o ddiddordeb cyffredin, yn enwedig mewn perthynas â swyddogaethau cynghori’r corff llywodraethiant, a all orgyffwrdd â chyrff eraill, megis rôl CNC wrth ddarparu cyngor i Lywodraeth Cymru ar reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, neu’r Pwyllgor Newid Hinsawdd. Bydd gan y corff llywodraethiant ei faes ei hun mewn perthynas â chyfraith amgylcheddol, ond rydym o’r farn y dylai’r corff llywodraethiant nodi â phwy y mae’n bwriadu gweithio mewn partneriaeth. Yn y man lleiaf, bydd hyn yn cynnwys sut y mae’n bwriadu cydweithio a chydweithredu â
    i. Cyfoeth Naturiol Cymru (yn ei rôl fel corff cadwraeth natur statudol)
    ii. Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
    iii. Archwilydd Cyffredinol Cymru
    iv. Y Pwyllgor Newid Hinsawdd
    v. Comisiynydd Cenedlaethau’r Dyfodol

95. Bydd angen i’r ffyrdd o weithio nodi’n glir sut mae’r corff llywodraethiant yn bwriadu cydweithredu wrth osgoi dyblygu a gorgyffwrdd wrth arfer ei swyddogaethau.

CLI13: Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig y dylai’r corff llywodraethiant nodi sut y mae’n bwriadu cydweithredu â’r sefydliadau a nodir, gan gynnwys sut y byddant yn osgoi dyblygu a gorgyffwrdd wrth arfer eu swyddogaethau. I ba raddau ydych chi’n cytuno â’r dull hwn?

| Cytuno’n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno’n gryf |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

Os hoffech egluro’ch ateb, defnyddiwch y blwch testun isod.

| |
|---|
| |

## Ffurf a Model Gweithredu’r Corff Llywodraethiant Amgylcheddol

### Model Gweithredu

96. Er mwyn cyflawni prif nod y corff llywodraethiant sef craffu ar weithredu a chydymffurfio â chyfraith amgylcheddol, bydd yn hanfodol i’r corff llywodraethiant gael ei gyfansoddi mewn modd sy’n sicrhau bod ganddo adnoddau ac arbenigedd digonol i gyflawni ei amcanion, yn ogystal â gweithredu’n annibynnol ar Weinidogion Cymru.

97. Roedd ymgynghoriad 2019 yn nodi ein barn y dylai unrhyw gorff goruchwylio fod yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru ac y bydd angen iddo weithredu mewn modd tryloyw a diduedd. Cafwyd ymatebion cymysg mewn perthynas â'r union fodel y dylai'r corff llywodraethiant ei fabwysiadu, gyda llawer o ymatebwyr heb nodi dewis penodol. Fodd bynnag, roedd yr ymatebwyr yn cytuno'n llwyr â barn Llywodraeth Cymru y dylai'r corff llywodraethiant fod yn annibynnol.

98. Nododd Grŵp Gorchwyl 2020 y dylai'r corff llywodraethiant amgylcheddol fod yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru, y byddai angen sicrwydd ynghylch ei gyllideb dros gyfnod estynedig o amser, ac y dylai perfformiad y corff llywodraethiant gael ei archwilio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru. Bu'r Grŵp Gorchwyl hefyd yn ystyried amrywiaeth o ffurfiau posibl i'r corff llywodraethiant er mwyn cyflawni ei bwrpas orau, a daeth i'r casgliad mai'r model comisiwn a sgoriodd uchaf yn erbyn ei feini prawf llywodraethu, gyda dwbl sgôr yr opsiynau eraill a gafodd eu hystyried. Argymhellodd y Grŵp Gorchwyl fodel Comisiwn fel y ffurf fwyaf priodol ar gyfer y corff newydd, a derbyniwyd y canfyddiadau hyn mewn egwyddor yn ystod tymor y Senedd flaenorol gan Weinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig ar y pryd, yn amodol ar ystyriaeth bellach o'r modelau Comisiwn, Comisiynydd a Chorff hyd braich.

*Opsiynau model gweithredu*

99. Wrth ymateb i argymhellion y Grŵp Gorchwyl, rhoddodd Lywodraeth Cymru ystyriaeth bellach i'r model comisiwn, model comisiynydd a model corff hyd braich.

100. Roedd ein harfarniad o'r **model comisiwn** yn cydnabod ei fod fel arfer yn cynnwys nifer o aelodau gyda chefndiroedd ac arbenigedd amrywiol. Mae hyn yn gallu sicrhau proses gytbwys o wneud penderfyniadau, gan ymgorffori gwahanol safbwyntiau a gwybodaeth. Roedd hyn yn cael ei ystyried yn gryfder penodol yng nghyd-destun corff llywodraethiant amgylcheddol, oherwydd er mwyn gweithio'n effeithiol bydd angen dull amlddisgyblaethol ar draws gwahanol feysydd arbenigol, megis cyfraith amgylcheddol, gwyddoniaeth, archwilio a rheoleiddio. Roedd anfanteision posibl y model hwn yn cynnwys y risg y gallai proses gwneud penderfyniadau comisiwn fod yn arafach oherwydd yr angen am gonsensws ymhlith ei aelodau, er bod modd lliniaru hynny trwy benodi cadeirydd, neu benderfyniad gan fwyafrif. At hynny, nid oes cynsail i'r math hwn o fodel yn neddfwriaeth Cymru ar hyn o bryd. Gallai hyn ychwanegu haen ychwanegol o gymhlethdod i'r broses gan nad oes model 'parod' ar gael fel cymhariaeth. Yn ogystal, o ystyried yr arbenigedd penodol sydd ei angen ar y corff, os nad yw Comisiynwyr yn llawn amser, mae perygl y bydd gwrthdaro buddiannau yn codi rhwng eu cyfrifoldebau eraill mewn meysydd cysylltiedig a rôl y corff.

101. Wrth ystyried **model 'comisiynydd'** unigol, roeddem o'r farn y gallai manteision y dull hwn olygu prosesau gwneud penderfyniadau cyflym, gan alluogi ymateb cyflymach i heriau amgylcheddol. Gallai comisiynydd unigol addasu ac ymateb yn gyflym i faterion sy'n dod i'r amlwg, oherwydd bod modd gneud penderfyniadau unochrog heb fod angen ceisio consensws neu benderfyniad gan y mwyafrif.

102. Gallai penodi comisiynydd unigol hwyluso dal yr unigolyn i gyfrif am weithredoedd a phenderfyniadau'r corff llywodraethiant amgylcheddol. Efallai y byddai cael unigolyn penodol wrth y llyw yn hytrach na Bwrdd/Comisiwn sy'n cynnwys nifer o bobl yn gwneud y corff yn fwy gweladwy, ac mae sawl cynsail ar gyfer y math hwn o gomisiynydd yn neddfwriaeth Cymru eisoes. Ar y llaw arall, byddai'n bosibl sicrhau'r manteision hyn hefyd trwy'r modelau comisiwn a chorff hyd braich trwy benodi cadeirydd ymroddedig.

103. Fodd bynnag, roedd anfanteision yn cynnwys cydnabyddiaeth na allai un comisiynydd feddu ar yr un hyd a lled o arbenigedd amlddisgyblaethol ag y gallai comisiwn neu gorff hyd braich ei ddarparu, yn enwedig o gofio'r arbenigedd eang sydd ei angen i fynd i'r afael â materion amgylcheddol cymhleth, a chwmpas swyddogaethau arfaethedig y corff llywodraethiant. Gallai hyn gael ei liniaru trwy ddarparu cymorth ar ffurf panel arbenigol a staff cefn swyddfa, ond byddai hyn ar lefel gwneud penderfyniadau llai strategol o'i gymharu â'r ddau fodel arall. Mae profiad Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru wedi dangos yr angen am gapasiti ychwanegol, ac mae proses i benodi Dirprwy Asesydd Interim ar y gweill ar hyn o bryd. Hyd yn oed gyda'r adnoddau staff mwy sylweddol a fyddai ar gael i gefnogi Comisiynydd, o'i gymharu â'r trefniadau interim, mae profiad wedi dangos na fyddai'n datrys yr holl heriau.

104. Yn drydydd, ystyriwyd **'Model Corff Hyd Braich'**, sydd fel arfer yn cael ei arwain gan Gadeirydd a bwrdd anweithredol o aelodau, gyda chefnogaeth tîm gweithredol i ymdrin â gweithrediadau o ddydd i ddydd. Gallai'r model corff hyd braich esgor ar fanteision tebyg i'r model comisiwn trwy ganiatáu penodi ystod ehangach o arbenigwyr ar lefel bwrdd, gan gefnogi swyddogaethau amrywiol y corff llywodraethiant a darparu'r wybodaeth arbenigol sydd ei hangen. At hynny, byddai'r model hwn yn cynnig lefel uchel o annibyniaeth a hyblygrwydd gweithredol trwy gael ei sefydlu'n annibynnol ar y llywodraeth, gan hybu gwneud penderfyniadau ar sail barn broffesiynol yn hytrach nag ystyriaethau gwleidyddol.

*Y model gweithredu o ddewis*

105. **Model comisiwn** sy'n cael ei ffafrio gan Lywodraeth Cymru, ar y sail ganlynol:
- Byddai comisiwn sy'n cynnwys arbenigwyr yn eu meysydd yn cynnig amrywiaeth eang o wybodaeth arbenigol ar lefel bwrdd, gan gefnogi natur amrywiol a thechnegol swyddogaethau'r corff llywodraethiant, sydd â mantais dros y model comisiynydd. Mae hyn yn arbennig o berthnasol mewn perthynas â chynnwys swyddogaethau statudol fel gorfodi o fewn cylch gwaith y corff.
- Mae modd dylunio'r comisiwn i weithredu'n annibynnol ar reolaeth uniongyrchol y llywodraeth, gan ganiatáu iddo wneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar ei arbenigedd, ei swyddogaethau a'r amcanion yn ei strategaeth heb ymyrraeth wleidyddol ormodol.

106. Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu sefydlu proses gadarn ar gyfer penodiadau cyhoeddus i gydbwyso annibyniaeth, natur ddiduedd ac uniondeb y corff gyda gwybodaeth arbenigol a chydweddu polisi, gan sicrhau bod y comisiynwyr yn cael eu derbyn gan ystod eang o sefydliadau ac ar draws y

sbectrwm gwleidyddol. Bydd y broses yn adlewyrchu ymrwymiadau ehangach Llywodraeth Cymru i hybu'r defnydd o'r Gymraeg, rhoi terfyn ar ragfarn a hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth.

CLI13: Y model sy'n cael ei ffafrio gennym ar gyfer y corff llywodraethiant yw 'Comisiwn', ond rydym o'r farn y byddai modelau amgen, fel corff hyd braich, yn gallu darparu manteision tebyg. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r dull hwn?

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

Os hoffech egluro'ch ateb, defnyddiwch y blwch testun isod.

| |
|---|
| |

## Cyllid

107. Bydd darparu'r adnoddau ariannol i alluogi'r corff llywodraethiant i gyflawni ei amcanion yn effeithiol, yn ogystal â sicrwydd ynghylch y gyllideb dros gyfnod estynedig o amser, yn hollbwysig er mwyn gallu sefydlu'r corff llywodraethiant yn effeithiol a'i alluogi i berfformio'n effeithiol. O gofio hynny, rydym wedi ystyried dau fecanwaith cyllido sylfaenol i gyflawni'r pwrpas hwn:
    - Mae'r corff llywodraethiant yn cael ei ariannu'n uniongyrchol gan Lywodraeth Cymru, fel sy'n wir gydag Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru ar hyn o bryd.
    - Mae'r corff llywodraethiant yn cael ei ariannu'n uniongyrchol o Gronfa Gyfunol Cymru, fel sy'n wir am Swyddfa Archwilio Cymru.

108. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig ariannu'r corff llywodraethiant yn uniongyrchol ar y sail y byddai'n cynnig llawer mwy o hyblygrwydd cyllidebol, gan alluogi ymyrraeth ariannol cyflym pe bai angen adnoddau ychwanegol a'r gallu i drosglwyddo tanwariant yn hawdd o fewn cyllidebau cyffredinol y gweinidogion, na fyddai'n ymarferol o'i ariannu drwy Gronfa Gyfunol Cymru.

109. Ar ben hynny, gan fod Cronfa Gyfunol Cymru yn cael ei dyrannu i Gymru gan Lywodraeth y DU trwy Ysgrifennydd Gwladol Cymru, byddai'r dull gweithredu yn ddarostyngedig i benderfyniadau cyllidebol Llywodraeth y DU, a allai adael y corff llywodraethiant yn agored i heriau ariannu, heb lawer o opsiynau i liniaru a diogelu eu swyddogaeth bwysig.

110. O ystyried mai rôl y corff llywodraethiant yw craffu ar Weinidogion Cymru, rydym yn cydnabod y gallai fod gwrthdaro canfyddedig os yw Gweinidogion Cymru yn rheoli'r gyllideb, gyda'r potensial i Weinidogion Cymru gael eu cyhuddo o atal neu gyfyngu ar gyllid er mwyn cyfyngu ar y craffu ar eu gweithredoedd.

111. Rydym wedi ystyried hyn ac wedi dod i'r casgliad bod y Comisiynwyr presennol wedi lliniaru'r risg hon o'r blaen trwy sicrhau, lle ceir gwrthdaro

buddiannau, y bydd y Gweinidog Cyllid neu'r Ysgrifennydd Parhaol eu hunain yn gwneud y penderfyniadau cyllido yn lle'r Gweinidog sydd â chyfrifoldeb polisi.

112. Mae galluogi Llywodraeth Cymru i ariannu'r corff llywodraethiant yn uniongyrchol yn gyson â'r trefniant ariannu presennol ar gyfer Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru. Mae hefyd wedi cael ei ddefnyddio'n gyson ar gyfer nifer o gyrff cyhoeddus a chomisiynwyr yng Nghymru.

## Penodi

113. Rydym yn cynnig y dylai'r comisiwn gael cadeirydd a rhwng saith ac wyth comisiynydd arall, a fydd yn cael eu penodi am hyd at bum mlynedd gan Weinidogion Cymru.

114. Er mwyn cyflawni ei swyddogaethau a'i amcanion yn effeithiol, bydd y comisiwn yn cynnwys ystod amrywiol ond arbenigol o unigolion. Mae hyn yn cynnwys y canlynol, ond heb ei gyfyngu iddynt:

- Gwybodaeth ac arbenigedd mewn perthynas â chyfraith amgylcheddol, ac yn benodol, sut mae'n cael ei chymhwyso yng Nghymru a'r DU;
- Sgiliau dadansoddi a chrebwyll cryf yn seiliedig ar allu arbenigol i brosesu a dehongli gwybodaeth gymhleth a thechnegol a'i thrawsnewid yn gyfarwyddiadau cymesur a gweithredadwy i gyrff cyhoeddus eu cyflawni;
- Galluoedd cyfathrebu, gan gynnwys rhyngweithio â Llywodraeth Cymru, y Senedd, y cyfryngau a chynulleidfaoedd cyhoeddus ehangach, a meithrin perthnasoedd ar bob lefel ac ar draws awdurdodau cyhoeddus Cymru;
- Y gallu i sicrhau bod trafodion ariannol y sefydliad yn cael eu cofnodi'n ddarbodus ac yn systematig, yn cael eu harchwilio, a'u bod ar gael i'r cyhoedd, gan ddangos ymrwymiad i dryloywder a bod yn agored;
- Y gallu i fesur ac adrodd ar lywodraethu corfforaethol, gan gynnwys perfformiad, rheoli risg, tryloywder a gwneud penderfyniadau.
- Deall egwyddorion bywyd cyhoeddus Nolan ac ymrwymo iddynt; ac
- Y gallu i ddangos ymrwymiad i egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth, a chyflawni'n unol â hwy.

115. Bydd angen i'r Cadeirydd ddarparu arweinyddiaeth strategol i'r Comisiwn, gosod blaenoriaethau a sicrhau annibyniaeth penderfyniadau'r Comisiwn, gyda sgiliau amlwg ynghylch gosod cyfeiriad, elwa ar sgiliau, profiad ac arbenigedd ehangach, ymgysylltu â rhanddeiliaid ar bob lefel a chynrychioli'r comisiwn yn briodol ac yn effeithiol.

116. Bydd Gweinidogion Cymru yn ymgynghori â'r pwyllgor Senedd priodol wrth benodi'r Cadeirydd a'r Comisiynwyr.

*Maint y Corff*

117. O ran maint y corff llywodraethiant, rydym yn parhau i ystyried y maint mwyaf priodol sy'n gymesur â'i amcanion a'i swyddogaethau arfaethedig. Y cynnig presennol yw i'r corff llywodraethiant fod tua'r un maint â Safonau Amgylcheddol

yr Alban (sy'n cynnwys wyth aelod bwrdd ar hyn o bryd) oherwydd pwerau a swyddogaethau amgylcheddol datganoledig tebyg yr Alban. Byddai'r dull hwn yn arwain at gadeirydd a saith neu wyth comisiynydd ar gyfer y corff llywodraethiant, gyda chymorth cefn swyddfa i ddeuddeg aelod ychwanegol o staff.

118. Mae gan Lywodraeth Cymru ragor o waith ystyried polisi i'w wneud mewn perthynas â maint y corff ond byddai'n croesawu sylwadau ynghylch y nifer briodol o Gomisiynwyr sydd eu hangen i sicrhau cyflawni swyddogaethau craidd y corff llywodraethiant yn effeithiol.

CLI14: I ba raddau ydych chi'n cytuno â dull Llywodraeth Cymru o benodi aelodau a dyrannu adnoddau i'r corff llywodraethiant?

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

Os hoffech egluro'ch ateb, defnyddiwch y blwch testun isod.

| |
|---|

CLI15: A oes unrhyw safbwyntiau eraill yr hoffech eu mynegi mewn perthynas â'n cynigion i sefydlu corff llywodraethiant?

| |
|---|

## Rhan C - Targedau ar gyfer diogelu ac adfer bioamrywiaeth

## Rhagarweiniad

1. Mae Cymru, ynghyd â gweddill y byd, yn wynebu argyfwng bioamrywiaeth. Yn 2021, fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddatgan "argyfwng natur" gydag un o bob chwe rhywogaeth yng Nghymru mewn perygl o ddiflannu.


2. Er mwyn cryfhau a chanolbwyntio ein darpariaeth i fynd i'r afael â'r argyfwng natur, mae Gweinidogion Cymru wedi ymrwymo yn eu Rhaglen Lywodraethu bresennol i *"weithio tuag at sefydlu Corff Llywodraethu Amgylcheddol, dyletswydd statudol a thargedau ar gyfer diogelu ac adfer bioamrywiaeth."*

3. Bydd mynd i'r afael â'r argyfwng natur yn gofyn am gamau brys, parhaus a hirdymor i gyflawni'r newid trawsnewidiol sydd ei angen. Gan gydnabod hyn, bydd Gweinidogion Cymru yn cyflwyno fframwaith adfer natur strategol i ddiogelu ac adfer natur yn ogystal â darparu mwy o atebolrwydd a thryloywder.

4. Bydd fframwaith adfer natur Cymru yn cynnwys:

    a) Targedau bioamrywiaeth statudol sy'n cynnwys targed pennawd natur-bositif yn y Bil a chyfres o dargedau bioamrywiaeth ategol i'w pennu gan Weinidogion Cymru mewn is-ddeddfwriaeth.
    b) Gofynion monitro, adrodd a chraffu effeithiol ar gyfer y targed pennawd a'r targedau ategol a fydd yn ategu ac yn gwella mecanweithiau.
    c) Strategaeth Adfer Natur a fydd yn nodi gweledigaeth hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer Cymru natur-bositif lle mae bioamrywiaeth yn cael ei diogelu a'i hadfer, gan osod y llwybr strategol ar gyfer cyflawni'r targedau bioamrywiaeth statudol. Bydd yn rhoi sylw i'n hymateb i'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang, a'r newid tymor hwy sydd ei angen i ymateb i'r argyfwng natur.
    d) Cynllun Gweithredu Adfer Natur a fydd yn manylu ar y camau sydd eu hangen i gyflawni'r targedau bioamrywiaeth statudol ac wrth wneud hynny, yn gwireddu ein gweledigaeth hirdymor o Gymru natur-bositif.
    e) Cynlluniau Adfer Natur Lleol i'w llunio gan awdurdodau cyhoeddus Cymru, gyda'r bwriad o amlinellu camau gweithredu a blaenoriaethau lleol sy'n adlewyrchu Strategaeth Adfer Natur Cymru a'u cyfraniad at helpu i gyflawni'r targedau bioamrywiaeth statudol.

Ffigur C1. Fframwaith adfer natur Cymru




5. Mae'r Papur Gwyn hwn yn cynnwys ein cynigion ar gyfer y Bil i sefydlu'r fframwaith adfer natur strategol i'n helpu i ymateb yn fwy cadarn i'r argyfwng natur.

## Cefndir – materion a thueddiadau cyfredol sy'n destun gweithredu

### Bioamrywiaeth – mater byd-eang

6. Mae bioamrywiaeth yn cyfeirio at bethau byw yn eu holl amrywiaeth, gan gynnwys pob rhywogaeth o blanhigion ac anifeiliaid, yr amrywiaeth o wahanol gynefinoedd ac ecosystemau sy'n gartref i'r rhywogaethau hynny, yn ogystal â'r amrywiaeth genetig o fewn rhywogaethau a rhyngddynt. Mae bioamrywiaeth ac ecosystemau iach yn hanfodol ar gyfer ein goroesiad, gan ddarparu aer glân, dŵr, bwyd, meddyginiaethau, tanwydd, ffibr a phren, yn ogystal â chefnogi ein hiechyd a'n llesiant. Gweler Atodiad A, Adran 1 am ragor o wybodaeth am y buddion sy'n cael eu darparu gan ecosystemau sy'n gweithredu'n iach.

7. Mae bioamrywiaeth fyd-eang wedi dirywio, gyda gostyngiad o 69 y cant yn nigonedd cymharol poblogaethau bywyd gwyllt sy'n cael eu monitro rhwng 1970 a 2018 (WWF, 2022). Yn y DU, mae digonedd a dosbarthiad rhywogaethau hefyd wedi dirywio ers y 1970au ar gyfartaledd (Hayhow et al., 2019). Cyn y 1970au, roedd dirywiad eisoes wedi bod yn digwydd ers canrifoedd, felly mae'r dirywiad hwn yn seiliedig ar linell sylfaen a oedd eisoes wedi dirywio.

8. Mae adroddiad asesu byd-eang IPBES (Intergovernmental Science-Policy Platform on Biodiversity and Ecosystem Services) yn 2019 yn nodi:

> *"An average of around 25 per cent of species in assessed animal and plant groups are threatened, suggesting that around one million species already face extinction, many within decades, unless action is taken to reduce the intensity of drivers of biodiversity loss. Without such action, there will be a further acceleration in the global rate of species extinction, which is already at least tens to hundreds of times higher than it has averaged over the past 10 million years."*

## Bioamrywiaeth yng Nghymru

9. Yn 2021, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru argyfwng natur gydag un o bob chwe rhywogaeth yng Nghymru mewn perygl o ddiflannu.

10. Mae Adroddiad Sefyllfa Natur Cymru 2023 yn nodi bod *“Cymru, ynghyd â gwledydd eraill y DU ac fel y rhan fwyaf o ranbarthau eraill ledled y byd, wedi colli bioamrywiaeth yn sylweddol. Mae’r tueddiadau mewn natur a gyflwynir yma yn cwmpasu, ar y mwyaf, 50 mlynedd, ond mae’r rhain yn dilyn newidiadau mawr i natur Cymru dros y canrifoedd blaenorol. O ganlyniad, mae Cymru bellach ymysg y gwledydd ar y Ddaear sydd wedi gweld ei natur yn teneuo fwyaf.”* Nodir ffigurau rhywogaethau allweddol o’r adroddiad yn Atodiad 3, Adran 2.

## Sbardunau allweddol colli bioamrywiaeth

11. Yn ôl yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol 2020 (SoNaRR), mae’r pwysau allweddol sy’n effeithio ar golli bioamrywiaeth ar y tir yng Nghymru ac ar draws y DU yn deillio o’r canlynol: rheolaeth amaethyddol; newid hinsawdd; trefoli; llygredd; newid hydrolegol; rhywogaethau estron goresgynnol a rheoli coetiroedd. Mae’r bennod forol yn nodi mai’r pwysau pennaf ar yr amgylchedd morol yw newid hinsawdd, rhai gweithgareddau dynol, rhywogaethau estron a mewnlifoedd o ddalgylchoedd dŵr croyw (h.y. llygredd). Am fwy o wybodaeth am sbardunau byd-eang colli bioamrywiaeth, gweler Atodiad 3, Adran 3.

12. Mae Adroddiad Sefyllfa Natur Cymru 2023 wedi nodi mai rheoli tir amaethyddol yw’r ffactor mwyaf arwyddocaol sy’n sbarduno newid ym mhoblogaeth rhywogaethau yn y DU. Gyda 90 y cant o dir Cymru yn cael ei ddefnyddio ar gyfer amaethyddiaeth, mae dros 50 y cant o orchudd tir Cymru yn laswelltir wedi’i wella sy’n cynnwys rhygwellt yn bennaf. Mae natur ledled yr ucheldir a’r iseldir wedi cael ei bygwth, ac yn parhau i gael ei bygwth, gan arferion ffermio fel:

   - dulliau mwy dwys o reoli glaswelltir a rhostir
   - colli amrywiaeth cynefinoedd ar raddfa tirwedd
   - pori da byw mewnbwn uchel a dwys
   - ac effeithiau ar rywogaethau arbenigol, fel y rhai sy’n gysylltiedig â dirywiad mewn cynefinoedd amaethyddol fel tir âr dwysedd isel

13. Mae’r Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol yn nodi mai newid hinsawdd yw ail sbardun pwysicaf newidiadau i rywogaethau ar draws y DU, ac mae hynny’n debygol o fod yn wir yng Nghymru hefyd. Er enghraifft, mae toreithrwydd cannoedd o rywogaethau gwyfynod wedi dirywio’n sylweddol yng Nghymru yn ystod y 50 mlynedd diwethaf, a nodwyd bod newid hinsawdd yn rhoi pwysau sylweddol ar boblogaethau gwyfynod. Er bod effaith net newid hinsawdd ar wyfynod yng Nghymru yn debygol o fod yn negyddol, mae’n debygol hefyd fod newid hinsawdd wedi cefnogi cynnydd mewn rhywogaethau eraill, yn ogystal ag effeithio ar ffenoleg (amseriad digwyddiadau tymhorol) rhywogaethau.

14. Rhagwelir y bydd newid hinsawdd yn dod yn fwyfwy difrifol trwy gydol y ganrif hon. Eisoes, mae tymheredd cyfartalog y DU wedi cynyddu bron i 1°C ers y 1980au, gydag effeithiau amlwg a helaeth ar natur. Mae tystiolaeth gynyddol bod newid hinsawdd yn sbarduno newidiadau eang a chyflym yn nhoreithrwydd, dosbarthiad ac ecoleg rhywogaethau, gan achosi newidiadau i gymunedau rhywogaethau, newidiadau y rhagwelir y byddant yn parhau am ddegawdau neu hyd yn oed ganrifoedd i ddod (Hayhow et al., 2019). Mae newid hinsawdd yn gorfodi rhywogaethau i symud lleoliad. Gallai rhywogaethau Arctig-Alpaidd mewn cynefinoedd mynydd ddiflannu o Gymru wrth i'w cynefinoedd encilio tua'r gogledd ac i dir uwch oherwydd y cynnydd mewn tymheredd. Pan na all planhigion a bywyd gwyllt arfordirol symud i'r tir, gall y cynnydd yn lefel y môr a mwy o erydu tir arwain at golled eang. Mae nifer ac ystod rhywogaethau estron goresgynnol yn debygol o gynyddu wrth i'r hinsawdd newid, ac mae hynny hefyd yn achosi dirywiad mewn bioamrywiaeth fyd-eang ar raddfa na welwyd erioed yn hanes dynoliaeth. Mae rhywogaethau'n diflannu ar gyfradd gyflymach.

15. Mae newid hinsawdd hefyd yn cael ei nodi fel pwysau allweddol ar fywyd morol yng Nghymru, fel y mae materion ansawdd dŵr, ynghyd â sbwriel morol, sy'n fater ar wahân. Er yn hanfodol i gynlluniau lliniaru'r newid yn yr hinsawdd, mae targedau uchelgeisiol i ehangu cynhyrchu ynni adnewyddadwy ar y môr hefyd yn meddu ar y potensial i effeithio'n negyddol ar fywyd morol, os nad yw'n cael ei gynllunio, ei reoli a'i fonitro mewn ffordd sensitif.

## Bioamrywiaeth, ecosystemau a llesiant

16. Mae bioamrywiaeth wrth wraidd ecosystemau sy'n gweithredu'n iach a'u gallu i barhau i ddarparu gwasanaethau ecosystem hanfodol neu fuddion i'n llesiant. Mae'r gwasanaethau hyn, fel darparu dŵr glân, rheoleiddio'r hinsawdd, perygl llifogydd, iechyd pridd ar gyfer cynhyrchu bwyd a llawer mwy, yn parhau i gael eu diraddio gan golli bioamrywiaeth.

17. Un o brif negeseuon Asesiad Ecosystem Cenedlaethol y DU 2011 oedd y bydd sicrhau datblygu cynaliadwy yn gofyn am gymysgedd priodol o reoliadau, technoleg, buddsoddiad ariannol ac addysg, yn ogystal â newidiadau mewn ymddygiad unigol a chymdeithasol a mabwysiadu dull mwy integredig, yn hytrach na dull sectorol confensiynol, o reoli ecosystemau.

18. Mae gwytnwch ecosystemau, a'r bioamrywiaeth (cynefinoedd a rhywogaethau) sy'n sail i hynny, wrth wraidd y dull integredig o reoli ein hadnoddau naturiol a'n hecosystemau sy'n cael ei ragweld trwy Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy (gweler adran Y ddeddfwriaeth a'r dull gweithredu cyfredol yng Nghymru).

19. Mae SoNaRR 2020 yn adrodd ar wytnwch ecosystemau Cymru trwy eu hasesu yn erbyn meini prawf fframwaith DECCA, sef amrywiaeth, maint, cyflwr, cysylltedd a gallu i addasu. Mae'r asesiad o wytnwch ecosystemau yng Nghymru wedi'i nodi yn Atodiad 3, Adran 4.

20. O ystyried yr asesiadau hyn, mae angen i'r targedau bioamrywiaeth statudol arfaethedig ymwneud ag iechyd a gwytnwch ecosystemau yn ogystal â'r elfennau bioamrywiaeth sy'n sail i hynny, cyfoeth rhywogaethau a thoreithrwydd rhywogaethau a chynefinoedd.

21. Bydd angen i'r targedau bioamrywiaeth statudol rydym yn eu datblygu ar gyfer Cymru adlewyrchu'r elfennau bioffisegol megis y rhai a nodwyd yn Adroddiad Sefyllfa Natur Cymru, ond mae angen iddynt hefyd fynd i'r afael â'r sbardunau, y pwysau a'r ysgogiadau ehangach i fynd i'r afael â'r argyfwng natur.

## Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol

22. Ym mis Rhagfyr 2022, ailadroddodd Llywodraeth Cymru ei hymrwymiad i fynd i'r afael â'r argyfwng natur wrth ymateb i Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Kunming-Montreal COP15, gan nodi bwriad i "arwain y byd" trwy weithredu a "dysgu oddi wrth bobl o bob cwr o'r byd... ar adfer coedwigoedd a natur."

23. Mae Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Kunming-Montreal (ôl-2020) a fabwysiadwyd ym mis Rhagfyr 2022 yn 15fed Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol (COP15) yn nodi llwybr uchelgeisiol i wireddu'r weledigaeth fyd-eang o fyd sy'n byw mewn cytgord â natur erbyn 2050. Roedd yn cadarnhau cenhadaeth fyd-eang i atal a gwrthdroi colli natur erbyn 2030, a chyflawni adferiad erbyn 2050, fel y bydd natur yn ffynnu, gan gynnal planed iach a sicrhau buddion sy'n hanfodol i bawb.

24. Mae'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang yn cynnwys pedwar nod sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau i'w cyflawni erbyn 2050, gan gwmpasu amddiffyn ac adfer ecosystemau, rhywogaethau ac amrywiaeth genetig, yn ogystal â defnyddio bioamrywiaeth yn gynaliadwy, rhannu buddion sy'n deillio o fioamrywiaeth yn deg, a symudoli adnoddau. Yn sail i'r rhain mae 23 o dargedau i'w cyflawni erbyn 2030, sy'n dod o dan dri phennawd:
    1) Lleihau bygythiadau i fioamrywiaeth
    2) Diwallu anghenion pobl trwy ddefnydd cynaliadwy a rhannu buddion
    3) Adnoddau ac atebion ar gyfer gweithredu a phrif ffrydio

Ffigur C2 – Targedau Bioamrywiaeth Byd-eang ar gyfer 2030

| Nod A: Canlyniadau ar gyfer adfer rhywogaethau ac ecosystemau | Nod B: Defnyddiau cynaliadwy a chyfraniadau natur at bobl | Nod C: Rhannu manteision adnoddau genetig yn deg | Nod D: Ffyrdd o weithredu, gan gynnwys cyllid |
|---|---|---|---|

| **Lleihau bygythiadau i fioamrywiaeth** | **Diwallu anghenion pobl** | **Adnoddau ac atebion** |
|---|---|---|
| Targed 1: Cynllunio gofodol<br>Targed 2: Adfer ecosystemau 30%<br>Targed 3: Ardaloedd gwarchodedig 30%<br>Targed 4: Adfer rhywogaethau<br>Targed 5: Gorddefnyddio<br>Targed 6: Rhywogaethau goresgynnol estron<br>Targed 7: Llygredd<br>Targed 8: Newid hinsawdd | Targed 9: Defnydd cynaliadwy o rywogaethau gwyllt<br>Targed 10: Cynhyrchu cynaliadwy<br>Targed 11: Cyfraniad natur at bobl<br>Targed 12: Amgylchedd trefol<br>Targed 13: Mynediad a rhannu manteision | Targed 14: Prif ffrydio<br>Targed 15: Camau gweithredu busnesau<br>Targed 16: Defnydd cynaliadwy<br>Targed 17: Bioddiogelwch<br>Targed 18: Diwygio cymorthdaliadau<br>Targed 19: Defnyddio adnoddau ariannol<br>Targed 20: Meithrin capasiti<br>Targed 21: Rhannu gwybodaeth a data<br>Targed 22: Pobl frodorol a chymunedau lleol<br>Targed 23: Rhywedd |

25. Mae'r 23 targed sy'n canolbwyntio ar weithredu yn nodi camau brys y mae angen eu cychwyn ar unwaith a'u cwblhau erbyn 2030. Er mwyn gweithredu'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang yn llwyddiannus, rhaid i bartïon (gan gynnwys Llywodraeth y DU) gymryd cyfrifoldeb a darparu tryloywder, gyda chymorth mecanweithiau effeithiol ar gyfer monitro cynllunio, adrodd ac adolygu. Mae Strategaethau a Chynlluniau Gweithredu Cenedlaethol ar Fioamrywiaeth yn nodi gweithrediad y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang ar lefel gwledydd, gyda thargedau a nodau yn gyfrwng allweddol ar gyfer gweithredu.

26. Mae'r DU, yn ei chyfanrwydd, yn rhan o Gytundebau Amgylcheddol Amlochrog mawr fel Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol, Fframwaith Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Newid Hinsawdd, a Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Kunming-Montreal y cytunwyd arno yn ddiweddar.

27. Gan fod polisi amgylcheddol wedi ei ddatganoli o fewn y DU, mae gan bob un o bedair gwlad y DU ei Strategaeth a'i Chynllun Gweithredu ar Fioamrywiaeth ei hun i ymgorffori'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang ac i geisio amddiffyn ac adfer bioamrywiaeth. Yn ogystal â'r rhain, mae Strategaeth Forol y DU sy'n cydlynu camau gweithredu i sicrhau statws amgylcheddol da ein moroedd. Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn helpu i gyflawni ymrwymiadau bioamrywiaeth rhyngwladol y DU.

28. Grŵp Bioamrywiaeth y Pedair Gwlad (4CBG) yw'r corff llywodraethiant arweiniol ar gyfer ymateb ac adrodd ar gyfer y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang. Mae Llywodraeth y DU a'r Llywodraethau Datganoledig bellach yn cadarnhau ac yn ffurfioli eu dull o ymdrin â'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang trwy Fframwaith Bioamrywiaeth newydd i'r DU. Mae'r fframwaith newydd yn hwyluso casglu a chydgrynhoi gwybodaeth am weithgareddau a chanlyniadau ar draws y pedair gwlad. Mae hefyd yn fodd i'r pedair gwlad roi gwybod beth y maent yn ei wneud yn unigol ac ar y cyd i gyflawni ymrwymiadau bioamrywiaeth rhyngwladol y DU.

**Deddfwriaeth gyfredol Cymru**

Bydd rhagor o fanylion ynghylch deddfwriaeth berthnasol Cymru yn cael eu cynnwys yn yr Atodiad (i ddilyn)

## Cynigion deddfwriaethol

### Targedau bioamrywiaeth statudol sy'n cynnwys targed pennawd a chyfres o dargedau ategol


29. Mae angen gweithredu ar frys i atal a gwrthdroi colli bioamrywiaeth yng Nghymru. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig gosod targedau i bennu lefel yr uchelgais a'r llwybr sydd ei angen i ymateb i'r argyfwng natur.

30. Bydd gosod targedau priodol yn sicrhau ein bod yn sbarduno'r camau cadarnhaol hirdymor sy'n ofynnol i fynd i'r afael â'r argyfwng natur gan ddefnyddio'r dull a nodir yn y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang.

31. Rydym yn cynnig cyflwyno targed pennawd natur-bositif yn y Bil hwn fel rhan o Fframwaith Adfer Natur Cymru (gweler Ffigur C1) gyda'r nod o sbarduno uchelgais a chamau gweithredu i wrthdroi dirywiad bioamrywiaeth wedi'i seilio ar gyfres o dargedau ategol.

32. Pwrpas y targedau bioamrywiaeth statudol newydd yw gosod y llwybr ar gyfer gwella a fydd yn arwain camau gweithredu a maint y camau gweithredu sydd eu hangen i ymateb i golli bioamrywiaeth. Bydd gosod targedau hirdymor a thargedau interim yn galluogi Gweinidogion Cymru i gynllunio ar gyfer canlyniadau dros y tymor hwy, gan rychwantu cylchoedd etholiadol, gyda darpariaethau monitro ac adrodd priodol cysylltiedig, gan ddarparu llwybr clir i'w ddilyn. Yn yr un modd, mae cyllidebau carbon yn cynllunio tuag at dargedau sero net statudol Gweinidogion Cymru ar gyfer 2030 a 2050 o dan Ran 2 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru). Ers datgan argyfwng hinsawdd yn 2019, mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud nifer o reoliadau sy'n ceisio lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr Cymru (sydd hefyd yn cael eu galw'n allyriadau carbon) i sero net erbyn 2050, gan gynnwys pennu cyfres o gyllidebau carbon pum mlynedd statudol.

**Ffigur C3 Targedau bioamrywiaeth statudol**




Targed pennawd natur-bositif

33. Rydym yn cynnig cyflwyno targed pennawd natur-bositif yn y Bil hwn gyda'r nod o sbarduno uchelgais a chamau gweithredu i wrthdroi dirywiad bioamrywiaeth wedi'i seilio ar gyfres o dargedau ategol. Rydym hefyd yn cynnig cynnwys y posibilrwydd o osod targedau interim os yw hynny'n briodol.

34. Rydym yn cynnig y byddai'r targed pennawd yn adlewyrchu ymrwymiad cyfredol carreg filltir Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: '*gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth drwy wella statws rhywogaethau ac ecosystemau erbyn 2030 a'u hadferiad clir erbyn 2050*'

35. Datblygwyd y garreg filltir llesiant hon ochr yn ochr â thrafodaethau COP15 yn 2022, gyda'r nod o adlewyrchu maint yr uchelgais sydd ei angen i fynd i'r afael â'r argyfwng natur yng Nghymru yn ogystal â chyd-fynd â'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang newydd. Fodd bynnag, nid oes strategaeth na chynllun gweithredu i ategu'r garreg filltir llesiant. Rydym yn cynnig cynnwys y targed pennawd natur-bositif hwn yn y Bil i roi proses gryfach ar waith i sicrhau ein bod yn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir.

36. Rydym yn cynnig i'r targed pennawd natur-bositif newydd hwn fod yn darged brig, gyda chyfres o dargedau ategol yn sail iddo. Efallai y caiff targedau interim eu gosod hefyd i asesu cynnydd yn well dros gyfnod hir.

37. Bydd y garreg filltir llesiant/targed pennawd natur-bositif yn parhau i fod yn destun monitro ac adrodd gan Gomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol, gan gydnabod cyfraniad y garreg filltir/targed at gyflawni'r nodau llesiant.

38. Bydd cynnydd tuag at y targed pennawd natur-bositif yn cael ei ategu gan fonitro ac adrodd mewn perthynas â'r gyfres o dargedau cefnogi bioamrywiaeth. Bydd y targed pennawd natur-bositif hefyd yn ddarostyngedig i'r drefn adrodd a goruchwylio sy'n cael ei chynnig yn ddiweddarach yn y papur.

Cefnogi targedau bioamrywiaeth

39. Rydym yn cynnig bod Gweinidogion Cymru yn gosod targedau ategol mewn is-ddeddfwriaeth sy'n cefnogi'r targed pennawd natur-bositif i adlewyrchu ymateb Cymru i'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang, i grynhoi'r dull ecosystemau a amlinellir yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, ac i gyd-fynd â blaenoriaethau bioamrywiaeth yng Nghymru.

40. Mae datblygu targedau bioamrywiaeth newydd ac uchelgeisiol yn broses gymhleth. Byddwn yn sicrhau bod targedau yn seiliedig ar dystiolaeth a'n bod yn eu datblygu gan ddefnyddio'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Elfen hanfodol yn hyn o beth fydd ymgysylltu a chydlunio ein dull gweithredu gydag arbenigwyr a rhanddeiliaid allweddol.

41. Mae gan Gymru nifer o ddangosyddion, targedau a cherrig milltir ar waith ar draws nifer o feysydd gan gynnwys newid hinsawdd, yr economi gylchol, coedwigaeth, y môr, mawndiroedd, cynllunio a dŵr, gyda sail statudol i rai ohonynt (gweler Atodiad 4 am ragor o fanylion). Er y bydd y targedau hyn yn mynd i'r afael â rhai o brif sbardunau colli bioamrywiaeth, nid ydynt yn canolbwyntio ar weithredu uniongyrchol i amddiffyn ac adfer bioamrywiaeth. Bydd angen i dargedau bioamrywiaeth statudol ychwanegol ategu, nid atgynhyrchu, y rhai sydd eisoes ar waith. Bydd crynhoi mesurau hen a newydd yn ein galluogi i baentio'r darlun o sut yr ydym yn mesur cynnydd ar fioamrywiaeth.

42. Mae nodi'r targedau cywir yn hanfodol os am sbarduno'r camau mwyaf priodol i fynd i'r afael â'r materion allweddol sy'n sail i golli bioamrywiaeth. Bydd angen i ni wneud gwaith dadansoddi a modelu cadarn i sicrhau bod y targedau'n bodloni'r meini prawf allweddol a amlinellir isod yn y broses o ddylunio'r targedau cywir. Efallai y bydd hyn yn ei gwneud yn ofynnol i ni ganolbwyntio ar osod nifer bach o dargedau cychwynnol. Mae'n hanfodol cael y dadansoddiad o fanylion penodol y targedau yn gywir, oherwydd bod angen i ni sicrhau nad ydym yn sbarduno canlyniadau anfwriadol yn y gofod cymhleth hwn oherwydd gallai hynny gael effaith niweidiol. Tra'n cydnabod yr angen am newid trawsnewidiol, bydd gweithredu targedau yn effeithiol hefyd yn dibynnu ar gost gweithredu, ynghyd â'r adnoddau sydd ar gael, gan gynnwys cyllidebau.

43. Nid yw'r amserlen ar gyfer cyflwyno'r Bil yn caniatáu i ni ymgymryd â gwaith modelu digonol a'r dadansoddiad cadarn sydd ei angen i sicrhau bod y targedau bioamrywiaeth yn bodloni'r meini prawf a amlinellir isod, meini prawf yr hoffem gadw atynt wrth ddylunio'r targedau cywir. O'r herwydd, byddai angen cynnwys manylion penodol y gyfres gyntaf o dargedau â blaenoriaeth mewn is-ddeddfwriaeth yr ydym yn cynnig ei chyflwyno cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r Bil hwn gael Cydsyniad Brenhinol.

44. Mae'n debygol y bydd y pynciau cychwynnol ar gyfer targedau ategol posibl sy'n sail i'r targed pennawd natur-bositif yn ymwneud â:

- Rhywogaethau (dosbarthiad, toreithrwydd a risg diflannu), gyda'r nod o atal a gwrthdroi'r dirywiad yn ein poblogaethau bywyd gwyllt.
- Cynefin (amddiffyn, rheoli ac adfer), gan gydnabod yr angen i ddiogelu ac adfer rhai o'r cynefinoedd allweddol (megis glaswelltiroedd, gweirgloddiau, rhostir, corsydd, mawnogydd, afonydd, arfordirol neu forol) gan gynnwys ardaloedd gwarchodedig cydnabyddedig, gan fod safleoedd o'r fath yn allweddol i sbarduno adferiad natur, ac mae gwella eu cyflwr yn hanfodol er mwyn bodloni'r targedau amgylcheddol.
- Iechyd, gwytnwch ac adferiad ecosystemau i gydnabod y rôl allweddol y mae ecosystemau yn ei chwarae wrth gyfrannu gwasanaethau gwerthfawr sy'n sail i'n hiechyd a'n llesiant ni.

45. Bydd y cynigion cychwynnol hyn ar gyfer targedau yn destun dadansoddi ac ymgynghori pellach fel rhan o'r broses o'u cyflwyno mewn is-ddeddfwriaeth.

46. Yn ogystal, gellid nodi targedau ategol gyda'r nod o fynd i'r afael â rhai o'r ffactorau pwysau allweddol a sbardunau colli bioamrywiaeth, gan gynnwys uno â rhai meysydd lle mae targedau eisoes wedi'u gosod, fel ansawdd aer, carbon a gwastraff.

Sut yr ydym yn bwriadu gosod targedau

47. Wrth gynnal ein dadansoddiad cadarn ar sail tystiolaeth, byddwn yn ystyried yr holl ffactorau perthnasol, gan gynnwys yr agweddau canlynol:
    - Er y byddai ein targedau yn cyfrannu at ein rhwymedigaethau rhyngwladol, dylai targedau bioamrywiaeth Cymru fynd i'r afael â'r materion allweddol yng Nghymru. Bydd angen i ni bwyso ar dystiolaeth allweddol fel yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR) 2020, oherwydd mae hwn wedi tynnu sylw at y materion allweddol mewn amgylcheddau dŵr croyw, morol a daearol yng Nghymru yn ogystal â'r adroddiad Rheoli Tir yn Gynaliadwy (unwaith y caiff ei gyhoeddi).
    - Rhaid i ddatblygiad y targedau newydd adlewyrchu'r fframwaith deddfwriaethol sydd eisoes wedi'i nodi yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Deddf yr Amgylchedd (Cymru), gan sicrhau ein bod yn mabwysiadu dull seiliedig ar ecosystemau o ddatblygu a gweithredu'r targedau newydd. Rhaid i hyn hefyd ystyried y Garreg Filltir Bioamrywiaeth gyfredol a'r fframwaith dangosyddion a bennwyd fel rhan o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, y mae Gweinidogion yn adrodd ar eu cynnydd yn ei erbyn ar ddechrau pob blwyddyn ariannol i'r Senedd (Yr adroddiad diwethaf yw Llesiant Cymru, 2023). Bydd angen iddo hefyd ystyried targedau cysylltiedig eraill, gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud â newid hinsawdd a thargedau a gafodd eu cynnig gan Fil yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru).
    - Dylai'r negeseuon cyfathrebu am dargedau o fewn a thu allan i Lywodraeth Cymru fod yn hygyrch i bawb.
    - Dylai targedau annog cyfranogiad a chydweithio ystyrlon â rhanddeiliaid.

48. Dylai targedau fod yn rhai CAMPUS (Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol a Synhwyrol). Canfu dysgu o weithredu'r targedau Aichi

byd-eang blaenorol fod eu llwyddiant a'u methiant wedi'i briodoli i ba mor dda roeddent yn bodloni'r meini prawf hyn (Green e tal., 2019). Yn ogystal, byddwn yn ystyried meini prawf perthnasol eraill wrth ddatblygu targedau, gan gynnwys y canlynol:

- Eu bod yn canolbwyntio ar fynd i'r afael â'r materion sy'n cael yr effaith fwyaf i gyflawni'r canlyniadau amgylcheddol cadarnhaol gofynnol
- Eu bod yn bosibl eu cyflawni o fewn terfynau cyllideb ac adnoddau tebygol
- Eu bod yn ddymunol, yn dderbyniol ac yn gadarn yn gymdeithasol i randdeiliaid allweddol a'r cyhoedd ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol
- Eu bod yn darparu gwerth am arian i gymdeithas gan ystyried y cydbwysedd gorau o gostau, manteision, risgiau a ffactorau na ellir eu mesur yn ariannol
- Eu bod yn gadarn a hirhoedlog, yn seiliedig ar sbardunau allweddol newid bioamrywiaeth ac ar waith cynllunio senarios yn y dyfodol yn seiliedig ar fodelu

Gosod targedau ar sail statudol

49. Cynigir y bydd y Bil hwn yn cyflwyno dyletswydd ar Weinidogion Cymru i
    - sefydlu targedau ategol newydd mewn is-ddeddfwriaeth a
    - pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth i ddiwygio, dirymu neu ddisodli targedau bioamrywiaeth presennol i fynd i'r afael â'r argyfwng natur.

50. Bydd y Bil yn gwneud darpariaeth i Weinidogion Cymru osod y targedau ategol mewn is-ddeddfwriaeth cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i'r Bil gael Cydsyniad Brenhinol.

51. Cynigir y bydd darpariaeth yn cael ei gwneud i adolygu'r targedau o bryd i'w gilydd, i alluogi ail-bennu targedau os oes angen a galluogi targedau ychwanegol i gael eu gosod yn y dyfodol i gyflawni canlyniadau cadarnhaol effeithiol a hirdymor ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

52. Cynigir y bydd y Bil yn gwneud darpariaeth iddi fod yn ofynnol i Weinidogion Cymru, trwy is-ddeddfwriaeth, bennu dyddiad erbyn pryd y mae'n rhaid cyflawni pob targed.

## Monitro, adrodd a chraffu effeithiol

53. Rydym yn cynnig y bydd y Bil yn cyflwyno cylch o fonitro, asesu ac adrodd effeithiol i ddarparu mwy o atebolrwydd a thryloywder. Bydd hyn yn debyg i'r broses gyllidebu carbon o dan Ran 2 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

54. Bydd y Bil yn nodi'r gofynion ar gyfer gweithredu, monitro (gan gynnwys dangosyddion ategol), adrodd, craffu a goruchwylio'r targedau gan Weinidogion Cymru ac awdurdodau cyhoeddus Cymru yn Atodiad A (a amlinellir yn ddiweddarach yn yr adran hon).

*Mecanweithiau cyfredol*

55. Gofynion adrodd Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol – mae gweithredu'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang yn llwyddiannus yn gofyn am gyfrifoldeb a thryloywder. Mae adrodd yn rhan allweddol o'r broses hon. Mae Gweinidogion Cymru yn cyfrannu at adrodd yn y DU ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am ein cynnydd yn seiliedig ar ddangosyddion allweddol a amlinellir yn y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang.

56. SoNaRR – Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n cynhyrchu'r SoNaRR, sydd ar hyn o bryd yn asesu rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yng Nghymru ac yn nodi cyfleoedd amrywiol ar gyfer gweithredu. Cyhoeddir adroddiad SoNaRR cyn diwedd y flwyddyn galendr cyn blwyddyn pan mae etholiad cyffredinol arferol i fod i gael ei gynnal. Disgwylir y rhifynnau nesaf o SoNaRR yn 2024 a 2028.

Monitro

57. Bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru sicrhau bod monitro effeithiol yn cael ei roi ar waith i gofnodi cynnydd tuag at gyflawni'r targedau, gan gynnwys y targed pennawd natur-bositif. Bydd monitro effeithiol hefyd yn sail i wneud penderfyniadau er mwyn galluogi dull rheoli addasol sy'n ofynnol i ddarparu ecosystemau gwydn. Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn gwerthuso ein hanghenion data, gan adeiladu ar y setiau data a'r arferion da sydd gennym eisoes a nodi anghenion y dyfodol. Byddwn yn creu cyfleoedd ar gyfer gwell cydweithredu, rôl gynyddol i wyddor dinasyddion ac yn gwneud gwell defnydd o ddatblygiadau technolegol.

58. Bydd angen datblygu cyfres o ddangosyddion i siartio a monitro cynnydd yn erbyn y targedau. Mae targedau yn gosod yr uchelgais, tra bod modd defnyddio dangosyddion i asesu cynnydd tuag at yr amcanion a ddymunir ar wahanol raddfeydd ac i nodi materion allweddol i'w datrys trwy ymyriadau polisi a chamau gweithredu eraill. Felly, mae dangosyddion yn bwysig ar gyfer monitro statws a thueddiadau amrywiaeth fiolegol ac, yn eu tro, maent yn bwydo gwybodaeth yn ôl ar ffyrdd o wella effeithiolrwydd rhaglenni rheoli bioamrywiaeth yn barhaus.

59. Mae fframwaith monitro manwl yn cyd-fynd â'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang. Mae'n cynnwys cyfres o ddangosyddion y cytunwyd arnynt ar gyfer olrhain cynnydd tuag at Nodau a Thargedau'r Fframwaith. Mae'r fframwaith monitro yn cynnwys dangosyddion pennawd sy'n cael eu hargymell ar gyfer monitro cenedlaethol, rhanbarthol a byd-eang, a dangosyddion elfen ac ategol manylach. Rydym yn cynnig cydweddu ein monitro i sicrhau bod data sy'n cael ei gasglu ar gyfer ein targedau cenedlaethol hefyd yn cael ei ddefnyddio ar gyfer adrodd yn rhyngwladol.

Asesu ac Adrodd

60. Mae gan ddinasyddion Cymru hawl i wybod am ansawdd eu hamgylchedd ac a yw'r camau i gyflawni'r targedau statudol yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol. Mae adrodd ar gynnydd yn darparu'r dystiolaeth a'r wybodaeth ar gyfer gwneud penderfyniadau. Ein nod yw adroddiadau â ffocws gyda mynediad at wybodaeth

sy'n hawdd i'w chyrchu a'i defnyddio, a monitro mwy effeithiol yn sail i hynny. Mae'n bwysig ein bod yn symleiddio ein prosesau cyn belled ag y bo modd, fel nad ydym yn cynyddu'r baich gweinyddol wrth ddarparu sylfaen dystiolaeth gryfach yn ogystal â mwy o dryloywder.

61. Rydym yn cynnig proses integredig sy'n ystyried y gofynion a nodir yn y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang ond sydd hefyd yn defnyddio rhai o'r mecanweithiau adrodd allweddol sydd eisoes ar waith, fel SoNaRR, yr adroddiad bob tair blynedd o dan adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, ac adroddiad blynyddol ar gynnydd tuag at gyflawni'r amcanion llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Rydym yn cydnabod bod angen symleiddio ein prosesau ac yn cynnig bod darpariaeth yn cael ei gwneud trwy'r Bil i sicrhau bod SoNaRR yn cynnwys adroddiadau ar y targedau bioamrywiaeth statudol.

Gofynion adrodd ychwanegol

62. Rydym yn bwriadu cynnwys y gofynion adrodd ychwanegol canlynol yn y Bil:

- **SoNaRR –** rydym yn cynnig y bydd SoNaRR yn adrodd yn erbyn y targedau bioamrywiaeth a fydd yn cael eu pennu gan Weinidogion Cymru i greu un adroddiad diffiniol a hygyrch ar gyfer natur yng Nghymru.

- **Datganiad – bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi datganiad** a'i osod gerbron y Senedd i adrodd a yw targedau wedi'u bodloni erbyn dyddiad a bennir yn y rheoliadau. Bydd y datganiad hwn yn pwyso, ymhlith pethau eraill, ar y Strategaeth Adfer Natur a'r Cynllun Gweithredu Adfer Natur arfaethedig, y dystiolaeth a ddarparwyd gan CNC yn y fersiwn ddiweddaraf o SoNaRR yn ogystal ag unrhyw ffynonellau eraill o dystiolaeth gadarn. Cynigir llunio'r datganiad hwn bob pedair blynedd i gyd-fynd â SoNaRR (gweler uchod).

63. Os a phan fydd targed yn cael ei fodloni, cynigir y bydd y datganiad yn egluro sut y mae hyn wedi cyfrannu at gyflawni'r targed pennawd natur-bositif.

64. Cynigir y bydd amserlenni adrodd ar gyfer pob targed hefyd yn cael eu gosod o fewn yr is-ddeddfwriaeth gan y byddant yn dibynnu ar hyd pob targed, yn ogystal ag argaeledd data a modelu allweddol.

65. Bydd y Bil hefyd yn nodi darpariaeth ar gyfer achos lle nad yw targedau bioamrywiaeth yn cael eu bodloni, fel y bydd angen i Weinidogion Cymru geisio cyngor annibynnol ac arbenigol i gael barn ar y rhesymau pam na chyflawnwyd y targedau ac ar unrhyw gamau pellach yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol er mwyn eu bodloni. Cynigir y bydd y Bil yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gymryd camau rhesymol pellach i gyflawni'r targedau cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl ar ôl derbyn cyngor o'r fath.

- **Cyfrifoldebau adrodd ehangach –** yn ogystal â Gweinidogion Cymru, bydd yn ofynnol i Cyfoeth Naturiol Cymru a'r rhestr arfaethedig o awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru gefnogi'r gwaith o weithredu'r

targedau. Bydd eu rôl arfaethedig wrth adrodd hefyd yn cael ei phennu fel rhan o’r adran ganlynol.

## Craffu a goruchwylio annibynnol

Rhyngwladol

66. Fel rhan o ofynion adrodd Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol, bydd adolygiadau byd-eang o gynnydd cyfunol wrth weithredu’r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang yn seiliedig ar yr adroddiadau cenedlaethol. Gall hyn hefyd gynnwys adolygiadau gwirfoddol gan gymheiriaid. Gall partïon ystyried canlyniadau hyn wrth ddiwygio a gweithredu yn y dyfodol gyda’r bwriad o wella gweithredoedd ac ymdrechion. Bydd cyfarfodydd Cynhadledd y Partïon yn y dyfodol yn ystyried ac yn darparu unrhyw argymhellion ychwanegol, yn ôl yr angen, gan gynnwys ar sail canlyniadau’r adolygiadau, gyda’r bwriad o gyflawni nodau a thargedau’r Fframwaith. Fel llywodraeth is-genedlaethol, bydd Cymru’n destun y gwaith craffu a goruchwylio hyn fel rhan o’r DU.

Cymru

67. Yn ogystal â’r gwaith craffu a ddarperir gan y Senedd a chyrff megis Archwilio Cymru, bydd rôl hefyd i gorff llywodraethiant amgylcheddol Cymru wrth ddarparu craffu a goruchwyliaeth annibynnol mewn perthynas â’r gwaith o gyflawni’r targedau statudol a bennir gan Weinidogion Cymru.

68. Mae **Rhan B** o’r Papur Gwyn hwn yn nodi rôl y corff llywodraethiant mewn perthynas â thargedau statudol. Fel rhan o ddyletswydd gyffredinol y corff llywodraethiant i fonitro gweithredu cyfraith amgylcheddol yng Nghymru, a chydymffurfio â hi, disgwyliwn y bydd y corff llywodraethiant yn monitro cynnydd a chyflawni Gweinidogion Cymru yn erbyn y targedau bioamrywiaeth statudol arfaethedig hyn. Bydd y corff llywodraethiant yn adrodd yn rheolaidd ar sut y mae’r targedau hyn yn cael eu bodloni, naill ai trwy ei adroddiad blynyddol, neu drwy eithriad pan fydd y sefyllfa’n cyfiawnhau hynny.

Cwestiynau’r ymgynghoriad

TB1: I ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â chynnwys Fframwaith Adfer Natur Cymru yn y Bil, yn unol â’r cynnig yn y papur?

| Cytuno’n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno’n gryf |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

Os hoffech egluro’ch ateb, defnyddiwch y blwch testun isod.

TB2: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â chynnwys yn y Bil y targed pennawd natur-bositif: ***'Gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth drwy wella statws rhywogaethau ac ecosystemau erbyn 2030 a'u hadferiad clir erbyn 2050'*** **.**

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

Os ydych chi'n anghytuno, pa darged pennawd natur-bositif ydych chi'n ei gynnig?

TB3: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i gynnwys dyletswydd fod rhaid i Weinidogion Cymru bennu targedau bioamrywiaeth statudol mewn is-ddeddfwriaeth?

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

Os hoffech egluro'ch ateb, defnyddiwch y blwch testun isod.

TB4: Mae'n debygol mai'r gyfres o dargedau ategol, i ategu'r targed pennawd, fydd:

- Rhywogaethau – dosbarthiad, toreithrwydd a risg diflannu;
- Cynefin – diogelu, rheoli ac adfer; ac
- Iechyd a gwytnwch ecosystemau **–** cydnabod rôl a chyfraniad allweddol ecosystemau

I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r meysydd allweddol sydd mewn golwg ar gyfer y targedau bioamrywiaeth i'w cyflwyno mewn is-ddeddfwriaeth yn Fframwaith Adfer Natur Cymru?

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

Os hoffech egluro'ch ateb, defnyddiwch y blwch testun isod.

TB5: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn adrodd ar y targedau bioamrywiaeth fel rhan o'r Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol?

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

Os hoffech egluro'ch ateb, defnyddiwch y blwch testun isod.

TB6: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi datganiad, gerbron y Senedd, i ddatgan a yw'r targedau bioamrywiaeth statudol wedi'u bodloni erbyn y dyddiad a bennir yn y rheoliadau?

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

Os hoffech egluro'ch ateb, defnyddiwch y blwch testun isod.

## Strategaeth Adfer Natur Cymru a Chynllun Gweithredu Adfer Natur

*Cryfhau ymateb Cymru i'r Argyfwng Natur trwy osod ein Strategaeth a'n Cynllun Gweithredu ar sail statudol*

69. Er y byddai Llywodraeth Cymru yn disgwyl diweddaru ei strategaeth a chynllun gweithredu bioamrywiaeth presennol i adlewyrchu'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang newydd, bydd gosod y dogfennau polisi hyn ar sail statudol yn rhoi cryfder ychwanegol i'r ymrwymiadau ynddynt, yn ogystal ag atgyfnerthu'r gofynion ar gyfer gweithredu, monitro llywodraethiant a chraffu fel rhan annatod o Fframwaith Adfer Natur Cymru.

70. Rydym felly'n cynnig bod y Bil yn cynnwys dyletswydd ar Weinidogion Cymru i baratoi, cyhoeddi a gweithredu:-
    - Strategaeth Adfer Natur Cymru hirdymor a fyddai'n gysylltiedig â'r targed pennawd natur-bositif, a
    - Chynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Cymru tymor byrrach/tymor canolig a fydd yn cael ei adolygu bob pedair blynedd a'i ddiwygio yn ôl yr angen, ac sy'n nodi sut y byddai'r targedau hynny'n cael eu cyflawni.

71. Mae’r cynigion hyn yn cael eu nodi’n fanylach isod.

Strategaeth Adfer Natur Cymru

72. Bydd Strategaeth Adfer Natur Cymru yn nodi ein gweledigaeth hirdymor ar gyfer Cymru natur-bositif, lle mae bioamrywiaeth yn cael ei diogelu a’i hadfer, gan osod y llwybr strategol ar gyfer cyflawni’r targedau bioamrywiaeth statudol.

73. Mae mynd i’r afael â’r argyfwng natur yn gofyn am ymrwymiad hirdymor i weledigaeth a nodau cyffredin adfer natur tra’n cydnabod yr angen i gyflawni newid systemig, trwy ddull hyblyg.

74. Bydd Strategaeth Adfer Natur Cymru arfaethedig yn amlinellu’r dull o gyflawni’r targedau statudol yn ogystal ag ymateb Llywodraeth Cymru i’r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang. Mae’n bosibl y bydd angen adnewyddu’r strategaeth hirdymor hon i adlewyrchu unrhyw newidiadau perthnasol yn y dyfodol naill ai i’n targedau, datblygu targedau ychwanegol, darparu tystiolaeth ategol neu fframwaith bioamrywiaeth byd-eang newydd.

75. Bydd y Strategaeth yn rhoi mwy o fanylion am y cyfraniad y rhagwelir y bydd y rhestr arfaethedig o awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru, sy’n ddarostyngedig i’r ddyletswydd i gyfrannu at gyrraedd y targedau, yn ei wneud tuag at eu cyflawni. Mae rhagor o fanylion am y ddyletswydd hon wedi’i chynnwys mewn adran ganlynol. Bydd hefyd yn nodi sut y gall pobl, cymunedau a sectorau eraill gyfrannu. Cynigir y byddai hyn hefyd yn destun ymgynghoriad pellach.

Cynllun Gweithredu Adfer Natur

76. Bydd y Cynllun Gweithredu Adfer Natur yn sail i’r Strategaeth Adfer Natur a fydd yn manylu ar y camau i gyflawni’r targedau bioamrywiaeth statudol a’r weledigaeth hirdymor o Gymru natur-bositif.

77. Bydd y Cynllun Gweithredu Adfer Natur yn manylu ar y rhaglen waith sydd ei hangen i gyflawni’r targedau bioamrywiaeth statudol a’r weledigaeth hirdymor o Gymru natur-bositif. Cynigir y bydd y Cynllun Gweithredu Adfer Natur yn cael ei adolygu bob pedair blynedd a’i ddiwygio yn ôl yr angen. Bydd hyn hefyd yn ein galluogi i nodi lle mae angen cynyddu graddfa a chyflymder y ddarpariaeth yn seiliedig ar gynnydd ar y pryd.

Cyd-destun

78. Mae canllawiau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol yn tynnu sylw at rôl Strategaethau a Chynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Cenedlaethol i gyflawni’r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang newydd. Yn COP15, bu’r DU yn allweddol wrth gytuno ar fecanweithiau cynllunio, monitro, adrodd ac adolygu cryfach i ddwyn Partïon i gyfrif am eu hymrwymiadau. Mae’r mecanweithiau cryfach hyn yn ei gwneud yn ofynnol i Bartïon, erbyn COP16 (Rhagfyr 2024):

- adolygu a diweddaru eu strategaethau a chynlluniau gweithredu bioamrywiaeth cenedlaethol i gyd-fynd â’r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang; a
- chynnwys crynodeb o’u targedau a’u gweithredoedd cenedlaethol yn eu strategaethau bioamrywiaeth cenedlaethol a chynlluniau gweithredu sy’n adlewyrchu holl nodau a thargedau cymwys y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang gan ddefnyddio templed safonol.

79. Mae pedair gwlad y DU wedi ymrwymo i weithio gyda’i gilydd i weithredu’r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang. Mae pob un o’r pedair gwlad yn datblygu neu’n adolygu ei strategaethau a’i chynlluniau mewn ymateb i’r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang a blaenoriaethau domestig eraill. Mae’r Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) yn hwyluso’r gwaith ar draws y DU sy’n angenrheidiol ar gyfer datblygu ymateb y DU i’r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang, er mwyn cyflawni ymrwymiad rhyngwladol y DU i ddiweddaru ein strategaethau a chynlluniau gweithredu bioamrywiaeth cenedlaethol i gyd-fynd â’r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang. Rydym yn gweithio ar y cyd tuag at amserlen uchelgeisiol o gamau gweithredu i gyflawni’r ymrwymiad hwn cyn COP16 ym mis Rhagfyr 2024.

80. Mae’r dull presennol yng Nghymru o fynd i’r afael â’r argyfwng natur wedi’i nodi yn y Cynllun Gweithredu Adfer Natur (NRAP) a gyhoeddwyd gyntaf yn 2015 ac sy’n cynnwys Rhan I – Ein Strategaeth ar gyfer Natur a Rhan II – Ein Cynllun Gweithredu. Mae’n gynllun Cymru gyfan ar gyfer pawb sy’n ymwneud â gweithredu ar fioamrywiaeth yng Nghymru. Menter polisi ydyw yn hytrach na gofyniad statudol. Mae Rhan II wedi’i diwygio ar gyfer 2020-21 yn dilyn mewnbwn gan ystod o randdeiliaid. Rydym wedi cytuno i gynnwys fersiwn wedi’i diweddaru o Strategaeth Bioamrywiaeth Cymru sy’n nodi ein dull o gyflawni’r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang, fel Atodiad i Strategaeth Bioamrywiaeth Cenedlaethol a Chynllun Gweithredu y DU.

Cwestiynau’r ymgynghoriad
TB7: I ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’r cynnig y bydd gofyn i Weinidogion Cymru lunio Strategaeth Adfer Natur hirdymor statudol i Gymru yn amlinellu’r dull o gyflawni’r targedau statudol yn ogystal ag ymateb Llywodraeth Cymru i’r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang?

| Cytuno’n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno’n gryf |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

Os hoffech egluro’ch ateb, defnyddiwch y blwch testun isod.

TB8: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru yn nodi rhaglen waith fanwl sydd ei hangen i gyflawni'r targedau bioamrywiaeth statudol?

| Cytuno'n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno'n gryf |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

Os hoffech egluro'ch ateb, defnyddiwch y blwch testun isod.

## Prif ffrydio cyflawni'r targedau bioamrywiaeth statudol trwy Gynlluniau Gweithredu Adfer Natur Lleol

81. Fel y nodwyd yn gynharach yn yr adran hon, mae angen mwy o hwb i'n gweithredu dros fioamrywiaeth. Mae angen dull cydweithredol ar draws y sector cyhoeddus os ydym am lwyddo i gyflawni'r targedau bioamrywiaeth statudol arfaethedig a mynd i'r afael â'r argyfwng natur yn effeithiol.

82. Mae'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang yn cydnabod rôl cymdeithas gyfan a phwysigrwydd darpariaeth isgenedlaethol, ranbarthol a lleol wrth sicrhau ein bod yn diogelu ac yn adfer bioamrywiaeth ar gyfer y dyfodol.

83. Mae adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus, fel y'u diffinnir yn is-adran (9), i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth pan fyddant yn cyflawni unrhyw swyddogaethau yng Nghymru, neu mewn perthynas â Chymru. Rhaid i awdurdod cyhoeddus, ac eithrio Gweinidogion y Goron neu adrannau'r llywodraeth, gyhoeddi cynllun sy'n amlinellu sut y bydd yn cyflawni ei ddyletswydd. Mae **adran 6(7)** yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod cyhoeddus gyhoeddi adroddiad bob tair blynedd ar sut y mae wedi cyflawni ei rwymedigaethau o dan y ddyletswydd bioamrywiaeth.

84. Nod Fframwaith Adfer Natur Cymru yw darparu dull cydlynol o gynyddu proffil a blaenoriaethu gweithredu i fynd i'r afael â'r argyfwng natur trwy gyflwyno targedau bioamrywiaeth statudol a Strategaeth Adfer Natur Cymru a Chynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru statudol fel yr amlinellwyd mewn adrannau blaenorol. Gosodir y dyletswyddau hyn ar Weinidogion Cymru, ond mae angen gweithredu hefyd gan ystod o weithredwyr i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r targedau statudol. Yn ogystal, bydd gofyn i CNC gyflwyno adroddiad ar y targedau bioamrywiaeth.

85. Rydym felly'n cynnig gosod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus Cymru sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gyfrannu at gyflawni'r targedau bioamrywiaeth statudol.

86. Rydym hefyd yn cynnig dyletswydd ychwanegol i ddangos bod y ddyletswydd yn cael ei gweithredu trwy gynhyrchu Cynlluniau Gweithredu Adfer Natur Lleol sydd yn:

- amlinellu camau gweithredu a blaenoriaethau lleol ar gyfer diogelu ac adfer bioamrywiaeth yn seiliedig ar dystiolaeth leol (megis Datganiadau Ardal neu ffynonellau tystiolaeth eraill). Mae datganiad ardal yn sylfaen dystiolaeth leol a gynhyrchir gan CNC
- adlewyrchu Strategaeth Adfer Natur Cymru (gan gynnwys y weledigaeth) a Chynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru
- dangos sut y mae camau gweithredu yn cyfrannu at gyflawni'r targed pennawd natur-bositif a chefnogi cyfres o dargedau natur statudol
- nodi sut y bydd ystyriaethau bioamrywiaeth yn cael eu gwreiddio mewn dogfennau strategol allweddol eraill megis cynlluniau datblygu lleol a chynlluniau seilwaith gwyrdd

87. Er ein bod wedi awgrymu dyletswydd i lunio Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol fel mecanwaith i gyflawni'r ddyletswydd hon, rydym yn cydnabod bod dulliau eraill o gyflawni'r targedau prif ffrwd yn bosibl.

88. Rydym yn cynnig y bydd y Bil yn cynnwys dyletswydd ar yr awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru a enwir sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt weithredu'r camau gweithredu a nodwyd yn eu Cynlluniau Adfer Natur Lleol ac adrodd ar eu cynnydd. Mae'n ofynnol eisoes i awdurdodau cyhoeddus yn rhinwedd adran 6(7) gyhoeddi adroddiad ar sut y maent wedi cyflawni eu rhwymedigaethau o dan ddyletswydd bioamrywiaeth adran 6. Byddwn yn edrych i weld a yw'n bosibl cyflawni hyn trwy integreiddio adrodd ar y ddyletswydd hon gyda'r gofynion adrodd presennol sydd gan awdurdodau cyhoeddus Cymru o dan adran 6.

89. Bydd angen monitro priodol mewn cydweithrediad â gweithredwyr allweddol eraill, megis Cyfoeth Naturiol Cymru, a Chanolfannau Cofnodion Amgylcheddol Lleol i fesur effaith a chynnydd ar eu cyfraniad at y canlyniadau targed.

90. Rydym yn cynnig y bydd y Bil hefyd yn cynnwys gofyniad i Weinidogion Cymru gyhoeddi canllawiau sy'n ymwneud â'r cynnwys, proses ar gyfer datblygu'r strategaeth a manylion pellach ynghylch monitro ac adrodd. Rhaid i awdurdodau cyhoeddus roi sylw i'r canllawiau wrth baratoi eu Cynlluniau Gweithredu Adfer Natur Lleol.

91. Rydym hefyd yn cynnig y byddai'r corff llywodraethiant newydd yn darparu goruchwyliaeth ychwanegol o weithredu'r ddyletswydd newydd a chydymffurfiaeth â hi.

*I bwy yr ydym yn argymell y byddai'r ddyletswydd yn gymwys?*

92. Mae rhestr o awdurdodau cyhoeddus Cymru wedi'i chynnwys yn Atodiad 2 i'r papur hwn.

93. Er ein bod eisiau cryfhau’r gwaith o gyflawni targedau a Strategaeth a Chynllun Gweithredu Bioamrywiaeth statudol Llywodraeth Cymru, rydym am wneud hyn mewn ffordd deg a chymesur. Nid ydym eisiau rhoi pwysau ychwanegol ar awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru nad oes ganddynt fawr o ddylanwad ar y targedau na’r gwaith o’u cyflawni, nac ar strategaeth a chynllun gweithredu bioamrywiaeth statudol Llywodraeth Cymru.

94. Rydym felly’n awyddus i geisio barn ynghylch a ddylai’r ddyletswydd newydd fod yn berthnasol i’r rhestr lawn a nodir yn Atodiad 2 neu a ddylai fod yn berthnasol i’r awdurdodau cyhoeddus hynny sydd â chyfrifoldebau rheoli tir a chyfrifoldebau cynllunio defnydd tir sylweddol ar gyfer rheoli tir ac sydd felly’n gallu sicrhau’r dylanwad mwyaf wrth gyflawni’r targedau.

95. Mae’r Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol wedi cael ei enwi felly i adlewyrchu’r camau y mae’r awdurdodau cyhoeddus yn eu cymryd ar lefel leol. Cydnabyddir bod gan rai o’r awdurdodau fandad ar draws Cymru gyfan.

96. Manylir ar y rhestr fyrrach arfaethedig, sy’n cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, awdurdodau lleol, y tri pharc cenedlaethol, Dŵr Cymru, Hafren Dyfrdwy a Trafnidiaeth Cymru, yn Atodiad 6.

Cwestiynau’r Ymgynghoriad

TB9: I ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno y dylai fod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus sy’n ei gwneud yn ofynnol iddynt gyfrannu at gyflawni’r targedau bioamrywiaeth statudol?

| Cytuno’n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno’n gryf |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

Os hoffech egluro’ch ateb gan gynnwys awgrymiadau eraill, defnyddiwch y blwch testun isod.

TB10: I ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno y dylai awdurdodau cyhoeddus penodol gynhyrchu Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol i amlinellu camau gweithredu a blaenoriaethau lleol ar gyfer cyflawni’r targedau bioamrywiaeth statudol?

| Cytuno’n gryf | Cytuno | Ddim yn cytuno nac yn anghytuno | Anghytuno | Anghytuno’n gryf |
|---|---|---|---|---|
| | | | | |

Os hoffech egluro’ch ateb gan gynnwys awgrymiadau eraill, defnyddiwch y blwch testun isod.

TB11: Nodwch a fyddai'n well gennych i'r dyletswyddau arfaethedig yn yr adran hon fod yn berthnasol i:

| | Nodwch eich dewis |
|---|---|
| a) y rhestr o awdurdodau cyhoeddus Cymru sydd wedi'i chynnwys yn Atodiad 2 | |
| b) y rhestr fyrrach o awdurdodau cyhoeddus Cymru sydd wedi'i chynnwys yn Atodiad 6 | |

Os hoffech egluro'ch ateb, defnyddiwch y blwch testun isod.

# ATODIAD 1 – Rhestr o Gwestiynau'r Ymgynghoriad

## Rhan A – Egwyddorion Amgylcheddol

- EA1: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynigion sy'n ymwneud â pharatoi canllawiau a fydd yn egluro sut y bwriedir dehongli'r egwyddorion amgylcheddol?
- EA2: Mae Llywodraeth Cymru yn cynnig gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i roi sylw dyladwy i'r egwyddorion amgylcheddol a'r canllawiau cysylltiedig wrth ddatblygu eu polisïau a'u deddfwriaeth. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r dull hwn?
- EA3: A oes gennych unrhyw farn ynghylch a ddylid gosod dyletswydd ar wahân ar gyrff cyhoeddus Cymru (ac eithrio Gweinidogion Cymru) i gymhwyso'r egwyddorion a'r canllawiau cysylltiedig? Os ydych o'r farn y dylai'r ddyletswydd fod yn gymwys i gyrff cyhoeddus Cymru, nodwch yn y blwch testun isod i ba gyrff cyhoeddus yng Nghymru a pham, yn ogystal ag unrhyw safbwynt sydd gennych ar sut y dylai'r ddyletswydd fod yn gymwys i'r cyrff hynny.
- EA4: A oes gennych unrhyw sylwadau ychwanegol yn ymwneud â bwriad Llywodraeth Cymru i wreiddio'r egwyddorion amgylcheddol a'r amcan cyffredin yng nghyfraith Cymru sydd heb eu cynnwys yn eich atebion i'r cwestiynau uchod?

## Rhan B – Sefydlu Corff Llywodraethiant Amgylcheddol i Gymru

- CLl1: I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r pwrpas a'r amcanion arfaethedig ar gyfer y corff llywodraethiant amgylcheddol newydd i Gymru?
- CLl2: I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r gofynion arfaethedig o ran strategaeth a gofynion adrodd y corff llywodraethiant?
- CLl3: Rydym yn cynnig y dylai cylch gwaith y corff llywodraethiant fod yn berthnasol i Weinidogion Cymru ac awdurdodau cyhoeddus perthnasol Cymru sy'n arfer y swyddogaethau amgylcheddol a restrir yn Atodiad 2 yng Nghymru. I ba raddau ydych chi'n cytuno â hyn?
- CLl4: Yn eich barn chi, a oes unrhyw awdurdodau cyhoeddus eraill, neu gyrff preifat sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus, y dylid eu hychwanegu at y rhestr (neu eu dileu oddi arni) yn Atodiad 2? Defnyddiwch y blwch testun isod i esbonio eich ateb.
- CLl5: I ba raddau ydych chi'n cytuno â chwmpas a rôl arfaethedig y corff llywodraethiant mewn perthynas â monitro ac adrodd, gan gynnwys craffu ar dargedau statudol?
- CLl6: I ba raddau ydych chi'n cytuno â chwmpas a rôl arfaethedig swyddogaethau cynghori'r corff llywodraethiant?
  CLl7: I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r dull a awgrymir ar gyfer rheoli cwynion a sylwadau?
- CLl8: I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynigion i alluogi'r corff i ymchwilio?

- CLl9: I ba raddau ydych chi'n cytuno â phroses arfaethedig Llywodraeth Cymru ar gyfer ymdrin yn ffurfiol ag achosion o ddiffyg cydymffurfio trwy hysbysiadau cydymffurfio a gweithdrefnau llys neu dribiwnlys?
- CLl10: I ba raddau ydych chi'n cytuno â chynnig Llywodraeth Cymru i gynnwys adroddiadau/cynlluniau gwella fel cam gorfodi i greu cyfle i ddatrys materion systemig lle maent yn amlwg, ond lle tybir nad hysbysiad cydymffurfio yw'r mecanwaith gorau posibl i fynd i'r afael â'r mater?
- CLl11: I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r cynnig i'r corff llywodraethiant, trwy eithriad, allu gwneud cais am adolygiad barnwrol a/neu ymyrryd mewn achos sifil?
- CLl12: Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y byddai cosbau ariannol yn ddull aneffeithiol ac, mewn rhai achosion, yn ddull gwrthgynhyrchiol o gywiro methiant i gydymffurfio â chyfraith amgylcheddol gan awdurdodau cyhoeddus Cymru. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r safbwynt hwn?
- CLl13: Y model sy'n cael ei ffafrio ar gyfer y corff llywodraethiant yw 'Comisiwn', ond rydym o'r farn y byddai modelau amgen, fel corff hyd braich, yn gallu darparu manteision tebyg. I ba raddau ydych chi'n cytuno â'r dull hwn?
- CLl14: I ba raddau ydych chi'n cytuno â dull Llywodraeth Cymru o benodi aelodau a dyrannu adnoddau i'r corff llywodraethiant?
- CLl15: A oes unrhyw safbwyntiau eraill yr hoffech eu mynegi mewn perthynas â'n cynigion i sefydlu corff llywodraethiant?

## Rhan C: Targedau ar gyfer Diogelu ac Adfer Bioamrywiaeth

- TB1: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â chynnwys Fframwaith Adfer Natur Cymru yn y Bil, yn unol â'r cynnig yn y papur?
- TB2: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â chynnwys yn y Bil y targed pennawd natur-bositif: **'*Gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth drwy wella statws rhywogaethau ac ecosystemau erbyn 2030 a'u hadferiad clir erbyn 2050*'.**
- TB3: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig i gynnwys dyletswydd fod rhaid i Weinidogion Cymru bennu targedau bioamrywiaeth statudol mewn is-ddeddfwriaeth?
- TB4: Mae'n debygol mai'r gyfres bosibl o dargedau ategol, i ategu'r targed pennawd, fydd:

- Rhywogaethau – dosbarthiad, toreithrwydd a risg diflannu;
- Cynefin – diogelu, rheoli ac adfer; ac
- Iechyd a gwytnwch ecosystemau **–** cydnabod rôl a chyfraniad allweddol ecosystemau
  I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r meysydd allweddol sydd mewn golwg ar gyfer y targedau bioamrywiaeth i'w cyflwyno mewn is-ddeddfwriaeth yn Fframwaith Adfer Natur Cymru?
- TB5: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod Cyfoeth Naturiol Cymru yn adrodd ar y targedau bioamrywiaeth fel rhan o'r Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol?

- TB6: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod Gweinidogion Cymru yn cyhoeddi datganiad, gerbron y Senedd, i ddatgan a yw'r targedau bioamrywiaeth statudol wedi'u bodloni erbyn y dyddiad a bennir yn y rheoliadau?
- TB7: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r cynnig y bydd gofyn i Weinidogion Cymru lunio Strategaeth Adfer Natur hirdymor statudol i Gymru yn amlinellu'r dull o gyflawni'r targedau statudol yn ogystal ag ymateb Llywodraeth Cymru i'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang?
- TB8: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod Cynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru yn nodi rhaglen waith fanwl sydd ei hangen i gyflawni'r targedau bioamrywiaeth statudol?
- TB9: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai fod dyletswydd ar awdurdodau cyhoeddus sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gyfrannu at gyflawni'r targedau bioamrywiaeth statudol?
- TB10: I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno y dylai awdurdodau cyhoeddus penodol gynhyrchu Cynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol i amlinellu camau gweithredu a blaenoriaethau lleol ar gyfer cyflawni'r targedau bioamrywiaeth statudol?
- TB11: Nodwch a fyddai'n well gennych i'r dyletswyddau arfaethedig yn yr adran hon fod yn berthnasol i:

| | Nodwch eich dewis |
|---|---|
| a) y rhestr o awdurdodau cyhoeddus Cymru sydd wedi'i chynnwys yn Atodiad 2 | |
| b) y rhestr fyrrach o awdurdodau cyhoeddus Cymru sydd wedi'i chynnwys yn Atodiad 6 | |


## ATODIAD 2 – Rhestr Awgrymedig o Awdurdodau Cyhoeddus Perthnasol yng Nghymru i'w Goruchwylio gan Gorff Llywodraethiant Amgylcheddol Cymru

- Y pwyllgor cynghori i Gymru a sefydlwyd o dan adran 5 o Ddeddf Safonau Bwyd 1999
- Y Panel Cynghori ar Amaethyddiaeth Cymru
- Awdurdod Harbwr Caerdydd
- Prif Arolygydd Dŵr Yfed Cymru neu unrhyw berson arall a benodir gan Weinidogion Cymru o dan adran 86 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (aseswyr ar gyfer gorfodi ansawdd dŵr)
- Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned
- Cyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol neu gyngor cymuned yng Nghymru
- Rheolydd Hawliau Amrywogaethau Planhigion
- Dŵr Cymru
- Awdurdod tân ac achub a sefydlwyd gan gynllun o dan adran 2 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004, neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo, ar gyfer ardal yng Nghymru
- Y Pwyllgor Llifogydd ac Erydu Arfordirol
- Asiantaeth Safonau Bwyd
- Hafren Dyfrdwy
- Hybu Cig Cymru
- Gweinyddwr Annibynnol Cwynion Dŵr Daear
- Cydbwyllgor cynllunio a sefydlwyd o dan adran 2(1B) o Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990
- Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru
- Bwrdd Iechyd Lleol a sefydlwyd o dan adran 11 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006
- Amgueddfa Cymru
- Awdurdod Parc Cenedlaethol a sefydlwyd gan orchymyn o dan adran 63 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995 ar gyfer ardal yng Nghymru
- Corff Adnoddau Naturiol Cymru
- Ymddiriedolaeth GIG a sefydlwyd o dan adran 18 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006
- Comisiwn Brenhinol Henebion Cymru
- Trafnidiaeth Cymru
- Panel cynllunio strategol a sefydlwyd ar gyfer ardal yng Nghymru trwy reoliadau o dan adran 60D o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004
- Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr (Ofwat)
- Gweinidogion Cymru
- Pwyllgor Fferyllol Cymru
- Pwyllgor Cynghori Gwyddonol Cymru.

# ATODIAD 3: Cefndir

## Adran 1: Economeg Gwasanaethau Ecosystemau

*Ffigur 1: Ecosystemau a Systemau Economaidd-gymdeithasol*




Mewn adolygiad diweddar ar Economeg Bioamrywiaeth dan arweiniad yr Athro Syr Partha Dasgupta, nodwyd:

> *Nature is essential for human existence and good quality of life. Most of nature's contributions to people are not fully replaceable, and some are irreplaceable.*
>
> *Nature across most of the globe has now been significantly altered by multiple human drivers, with the great majority of indicators of ecosystems and biodiversity showing rapid decline.*
>
> *Biodiversity is declining faster than at any time in human history. Current extinction rates, for example, are around 100 to 1,000 times higher than the baseline rate, and they are increasing. Such declines are undermining Nature's productivity, resilience and adaptability, and are in turn fuelling extreme risk and uncertainty for our economies and well-being.*

## Adran 2: Ystadegau Bioamrywiaeth yng Nghymru

Mae 18% (663 o rywogaethau) o'r 3,897 o rywogaethau a aseswyd gan ddefnyddio meini prawf y Rhestr Goch mewn perygl o ddiflannu o Gymru. Mae toreithrwydd 380 o rywogaethau tir a dŵr croyw wedi gostwng 20% ar gyfartaledd ledled Cymru ers 1994. O fewn y duedd gyffredinol hon, mae 140 o rywogaethau wedi prinhau (37%) a 107 rhywogaeth wedi cynyddu (28%).

Ar gyfartaledd, rhywogaethau gwyfynod brofodd y dirywiad cryfaf: 43%. Mae data ar wahân yn dangos bod toreithrwydd eog yr Iwerydd (*Salmo salar*) wedi gostwng yn

sylweddol ledled Cymru yn y degawd diwethaf ac yn 2021, aseswyd bod yr holl stociau afonydd ‘mewn perygl’ (91%) neu ‘mewn perygl yn ôl pob tebyg’ (9%).

Ers 1970, gostyngodd dosbarthiad 42% o rywogaethau planhigion blodeuol a 44% o fryoffytau (mwsogau a llysiau’r afu) yn sylweddol ledled Cymru yn ystod y degawd diwethaf. Mae planhigion blodeuol sy’n gysylltiedig â chynefinoedd yr ucheldir wedi dirywio ar gyfartaledd, tra bod llawer o fryoffytau epiphytig (planhigyn sy’n tyfu ar wyneb planhigyn arall e.e. mwsogl, rhedyn, cen) yn gwella o effeithiau llygredd diwydiannol blaenorol.

Ychydig iawn o newid a welwyd ar gyfartaledd ers 1986 yn nhoreithrwydd saith rhywogaeth o adar môr sy’n cael eu monitro’n rheolaidd, mewn cyferbyniad â’r gostyngiadau cyfartalog mewn rhai rhannau eraill o’r DU. Fodd bynnag, mae amrywiad o fewn y duedd gyfartalog hon, ac mae’r ffigurau hyn yn rhagddyddio’r achosion presennol o Ffliw Adar Pathogenig Iawn yn ein cytrefi adar môr ers 2022.


## Adran 3: Sbardunau Colli Bioamrywiaeth

Yn ôl Adroddiad Asesu Byd-eang Platfform Polisi Gwyddoniaeth Rhynglywodraethol ar Fioamrywiaeth a Gwasanaethau Ecosystem (IPBES):

*The rate of global change during the past 50 years is unprecedented in human history. The drivers of change in nature with the largest global impact have been changes in land and sea use, exploitation of organisms, climate change, pollution and invasive alien species. Those drivers reflect indirect drivers of change underpinned by social values. Prominent indirect drivers include increases in population and per capita consumption, changes in nature deterioration per unit of consumption due to technological innovation and, critically, governance and accountability. Trade has shifted where goods are produced, contributing to opportunities for economic development, but also increasing inequities in both economic development and environmental pressures*.

*In the past 30 years, global trade has increased eightfold, coupled with a six-fold increase in the global economy, and the demand for living materials from nature has doubled to meet the increasing demands of a growing global population and of ever more distant consumers, shifting the environmental burden of consumption and production. Increasing demand for food, timber and fibre in higher-income countries is often satisfied by production in distant, lower-income countries.*

*These five direct drivers result from an array of underlying causes – the indirect drivers of change – which are in turn underpinned by societal values and behaviours that include production and consumption patterns, human population dynamics and trends, trade, technological innovations and local through global governance. The rate of change in the direct and indirect drivers differs among regions and countries.*




## Adran 4: Asesu Ecosystemau

Mae Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol 2020 yn adrodd ar wytnwch ecosystemau Cymru trwy eu hasesu yn erbyn meini prawf fframwaith DECCA, sef Amrywiaeth, Maint, Cyflwr, Cysylltedd a Gallu i addasu. Mae'r asesiad o wytnwch ecosystemau yng Nghymru wedi'i nodi isod.

> ***Amrywiaeth*** *Mae amrywiaeth o bwys ar bob lefel a graddfa, o enynnau i rywogaethau, ac o gynefinoedd i dirweddau. Mae'n cefnogi cymhlethdod swyddogaethau a rhyngweithiadau ecosystemau sy'n darparu gwasanaethau a manteision. Mae'r rhan fwyaf o fathau o gynefinoedd wedi gweld gostyngiad mewn amrywiaeth dros y 100 mlynedd diwethaf, gyda chyfradd y dirywiad yn cynyddu o'r 1970au ymlaen. Mae hyn yn dangos nad yw ecosystemau'n wydn, ac nad yw llawer o rywogaethau'n adfer. Os bydd amrywiaeth yn parhau i gael ei cholli, yna gallai arwain at fethiant ecosystemau a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu.*
>
> ***Maint*** *Bydd maint ecosystem yn effeithio ar ei gallu i addasu, adfer neu wrthsefyll aflonyddwch. Gall llai o rywogaethau oroesi mewn ardal lai, ac mae nifer y rhywogaethau'n newid pan gollir cynefin, gan arwain at golli rhywogaethau a dirywiad ecosystemau. SoNaRR2020: Crynodeb Gweithredol Rhagfyr 2020 Fersiwn 2.2 42 Dim ond 31% o Gymru sy'n cael ei ystyried yn gynefin lled-naturiol. Mae o leiaf 40% o gynefinoedd Cymru wedi'u gwasgaru mewn lleiniau mor fach eu bod yn awgrymu gwytnwch isel.*
>
> ***Cyflwr*** *Asesir cyflwr ecosystem gan ddefnyddio ffactorau biolegol ac amgylcheddol sy'n gysylltiedig â chynefinoedd a rhywogaethau. Ychydig iawn*

*o gynefinoedd yng Nghymru sydd mewn cyflwr da oherwydd nifer o fathau gwahanol o bwysau. Effeithir yn bennaf ar gynefinoedd dŵr croyw, er enghraifft, gan orfaethu ac addasiadau ffisegol.*

***Cysylltedd** Y cysylltiad rhwng ac o fewn cynefinoedd. Ar gyfer bywyd gwyllt, mae'n gysylltiedig â'r pellter y gall anifail symud i fwydo, magu a chwblhau cylchoedd bywyd a allai fod angen amgylcheddau gwahanol. Gall fod ar ffurf coridorau naturiol, cerrig camu neu ddarnau rhwng yr un mathau neu fathau cysylltiedig o lystyfiant. Mae ffactorau amgylcheddol fel daeareg, math o bridd neu symudiad dŵr yn effeithio ar gysylltedd tirwedd. Yng Nghymru, mae cysylltedd ar ei isaf mewn cynefinoedd iseldir lle mae'r dirwedd wedi'i symleiddio drwy golled cynefinoedd lled-naturiol a lle rheolir y tir yn ddwys.*

***Gallu i addasu** Mae hwn yn seiliedig ar ganlyniad y pedwar maen prawf uchod ac ar sail yr asesiad, ni ystyrir bod ecosystemau yng Nghymru yn gallu addasu.*





Figure 17 Direction of travel for building ecosystem resilience using the four attributes Adapted from Crick et al., 2020

Note on Figure 17: Core sites to be interpreted as protected sites that are already been designated, for example, Sites of Special Scientific Interest. Core areas have no standard definition but would depend on local priorities

SoNaRR2020 SMNR Aim 2 Ecosystems are Resilient Version 2.1 34

# ATODIAD 4: Targedau a Cherrig Milltir Presennol

## Cerrig Milltir Cenedlaethol

O dan adran (10)(3) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, rhaid i Weinidogion Cymru osod cerrig milltir mewn perthynas â'r dangosyddion cenedlaethol y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried y byddent yn cynorthwyo i fesur a oes cynnydd yn cael ei wneud tuag at gyrraedd y nodau llesiant..

Wrth osod carreg filltir, rhaid i Weinidogion Cymru bennu:

a. y meini prawf ar gyfer penderfynu a yw'r garreg filltir wedi ei chyflawni (drwy gyfeirio at y gwerth neu'r nodweddion a ddefnyddir i fesur y dangosydd), a
b. erbyn pryd y mae'r garreg filltir i gael ei chyflawni.

| Rhif | Dangosydd Llesiant Cenedlaethol | Carreg Filltir Genedlaethol |
|---|---|---|
| 43 | Ardaloedd o ecosystemau iach yng Nghymru | |
| 44 | Statws amrywiaeth fiolegol yng Nghymru | Gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth drwy wella statws rhywogaethau ac ecosystemau erbyn 2030 a'u hadferiad clir erbyn 2050.<br>Mae hyn yn cyd-fynd yn llawn â'r genhadaeth fyd-eang a gadarnhawyd gan COP15 a'r galw am nod natur-bositif gan lawer o sefydliadau cyn COP15 |

| Rhif | Dangosydd Llesiant Cenedlaethol | Carreg Filltir Genedlaethol |
|---|---|---|
| 4. | Lefelau llygredd nitrogen deuocsid (NO2) yn yr aer | |
| 13. | Crynodiad carbon a deunydd organig mewn pridd | |
| 14. | Ôl troed ecolegol Cymru | Bydd Cymru yn defnyddio ei chyfran deg o adnoddau'r byd, a dim mwy na hynny, erbyn 2050 |
| 15. | Swm y gwastraff a gynhyrchir ac na chaiff ei ailgylchu, y pen | |
| 41. | Allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru. | Bydd Cymru'n cyflawni allyriadau nwyon tŷ gwydr sero net erbyn 2050 |
| 42. | Allyriadau nwyon tŷ gwydr sydd i'w priodoli i ddefnyddio nwyddau a gwasanaethau byd-eang yng Nghymru | |
| 45. | Y ganran o'r cyrff dŵr wyneb, a'r cyrff dŵr daear, sy'n cyrraedd statws da neu uchel ar y cyfan | |

**Targedau Presennol**

| Maes ffocws | Disgrifiad | |
|---|---|---|
| **Ansawdd Aer** | | |
| Cynllun Aer Glân | Mae Rheoliadau Ansawdd Aer (Cymru) 2000 yn cynnwys amcanion ansawdd aer cenedlaethol, fel y'u diwygiwyd gan Reoliadau Ansawdd Aer (Diwygio) (Cymru) 2002.<br><br>Mae lefelau llygryddion yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd a byddant yn cael eu cyhoeddi'n fuan. | |
| **Carbon** | **Cyllideb** | **Terfynau** |
| Cynllun Addasu Newid Hinsawdd Cymru (Llywodraeth Cymru, 2019). | Cyllideb garbon 2 (2021-2025) | Gostyngiad cyfartalog o 37%<br>Terfyn gwrthbwyso 0% |
| | Cyllideb garbon 2 Terfyn gwrthbwyso | 0% |
| | Cyllideb garbon 3 (2026-2030) | Gostyngiad cyfartalog o 58%:<br>- Targed 2030 gostyngiad o 63%.<br>- Targed 2040 gostyngiad o 89%.<br>- Targed 2050 gostyngiad o 100% fan leiaf (sero net) |
| **Yr Economi Gylchol** | | |
| Strategaeth 'Mwy nag Ailgylchu', a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2021 | Nod o wireddu'r economi gylchol yng Nghymru:<br>- Ymrwymo i darged i ostwng gwastraff bwyd y gellir ei osgoi 50% erbyn 2025, o'i gymharu â llinell sylfaen 2007, a<br>- Gostyngiad o 60% erbyn 2030. | |
| **Coedwigaeth** | | |
| Strategaeth Coetiroedd i Gymru | Targed i blannu 2,000 hectar y flwyddyn. | |
| **Morol** | | |
| Strategaeth Forol y DU<br><br>ac<br><br>OSPAR | Rhestr gynhwysfawr o dargedau morol y mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru (yn ôl y gyfraith) roi mesurau ar waith i'w cyflawni.<br><br>Strategaeth Forol Rhan Un: asesiad wedi'i ddiweddaru i'r DU a Statws Amgylcheddol Da (publishing.service.gov.uk) a gyhoeddwyd yn 2019 – i'w adolygu'r flwyddyn nesaf.<br><br>Mae targedau amhenodol hefyd (ond sy'n dal i fod yn ofynion cyfreithiol) e.e. cyflawni 'cyflwr ffafriol' ar gyfer | |

| | |
|---|---|
| | Ardaloedd Morol Gwarchodedig sy'n golygu bodloni targedau gwarchodaeth y safle.<br><br>Targedau nad ydynt yn ofynion cyfreithiol sy'n cyd-fynd â Strategaeth Forol y DU. Strategaeth Amgylchedd Gogledd-ddwyrain yr Iwerydd 2030 \| Comisiwn OSPAR |
| **Mawndir** | |
| Cynllun Gweithredu Mawndir Lloegr<br><br>a<br><br>Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd, 2020-2025<br><br>a<br><br>Strategaeth Mawndiroedd y DU 2018-2040 | Adfer o leiaf 25% (~ tua 5,000ha) o'r ardaloedd mawndir sydd wedi'u haddasu fwyaf (oddeutu 600-800ha y flwyddyn).<br><br>Atodiad A – Rhaglen Weithredu Genedlaethol ar Fawndiroedd, 2020-2025 (cyfoethnaturiol.cymru) |
| **Cynllunio** | |
| Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol | Canlyniadau Cymru'r Dyfodol – Cymru lle mae pobl yn byw:<br>1. ac yn gweithio mewn lleoedd cysylltiedig, cynhwysol ac iach.<br>2. mewn lleoedd gwledig llewyrchus lle y gallant gael cartrefi, gwaith a gwasanaethau.<br>3. mewn rhanbarthau nodedig sy'n mynd i'r afael ag anghydraddoldeb iechyd ac economaidd-gymdeithasol drwy dwf cynaliadwy.<br>4. mewn lleoedd lle mae'r iaith Gymraeg yn ffynnu.<br>5. ac yn gweithio mewn trefi a dinasoedd sy'n ganolbwynt ac yn sbardun i dwf cynaliadwy.<br>6. mewn lleoedd lle y caiff ffyniant, arloesedd a diwylliant eu hyrwyddo.<br>7. mewn lleoedd lle mae teithio yn gynaliadwy.<br>8. mewn lleoedd â seilwaith digidol o'r radd flaenaf.<br>9. mewn lleoedd sy'n rheoli eu hadnoddau naturiol yn gynaliadwy ac yn lleihau llygredd.<br>10. mewn lleoedd ag ecosystemau bioamrywiol, cadarn a chysylltiedig.<br>11. mewn lleoedd sydd wedi'u datgarboneiddio ac sy'n gallu gwrthsefyll yr hinsawdd. |
| **Dŵr** | |
| Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr UE | Canolbwyntio ar sefydlu dull integredig o amddiffyn yr amgylchedd dŵr a defnyddio dŵr yn gynaliadwy. |

| | |
|---|---|
| Corff dŵr | Rhaid i bob corff dŵr gyflawni statws ecolegol da 100% o'r amser erbyn 2027. |
| Cyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi | Cyfrannu at wella ansawdd dŵr |
| Cyfarwyddeb Trin Dŵr Gwastraff Trefol a Nitradau | Cyfrannu at wella ansawdd dŵr |

# ATODIAD 5: Deddfwriaeth yng Nghymru

## Adran 1: Y ddeddfwriaeth a'r dull gweithredu cyfredol yng Nghymru

Gan gydnabod y berthynas gymhleth a rhyngddibynnol rhwng bioamrywiaeth, adnoddau naturiol a llesiant dynol, cyflwynodd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ddull rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy sydd yn seiliedig ar gyfres o egwyddorion yn deillio o ddull ecosystem Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Amrywiaeth Fiolegol.

Mae'r dull ecosystem yn pwysleisio'r cysylltiad rhwng statws systemau adnoddau naturiol a gwasanaethau ecosystem sy'n cefnogi llesiant pobl. Mae'n ceisio cynnal uniondeb a gweithrediad ecosystemau yn eu cyfanrwydd er mwyn osgoi newid ecolegol annymunol a chyflym. Mae hefyd yn cydnabod bod effeithiau gweithgareddau dynol yn fater o ddewis cymdeithasol ac yn rhan yr un mor annatod o ryngweithio ecosystemau ag y mae ecosystemau o weithgareddau dynol. O'r herwydd, mae'r dull Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy a gyflwynwyd yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn gosod cynnal a gwella bioamrywiaeth, a gwytnwch ecosystemau a'r manteision y maent yn eu darparu i'n llesiant, wrth wraidd ein Polisi Rheoli Bioamrywiaeth ac Adnoddau Naturiol. Yn ogystal, diben cyffredinol Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) yw Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy a chymhwyso'r egwyddorion hynny wrth arfer ei swyddogaethau.

Y nod yw rheoli ein hadnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy ac ar gyfradd sy'n diwallu anghenion y genhedlaeth bresennol heb beryglu anghenion cenedlaethau'r dyfodol ac sy'n cyfrannu at y saith nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. (gweler isod)

## Adran 2: Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016

Mae Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn darparu fframwaith cyflawni hyblyg sy'n ceisio sicrhau ein bod yn rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae elfennau allweddol y fframwaith hwn yn cynnwys:

- **Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR)** sy'n cael ei gynhyrchu gan CNC i ddarparu asesiad o adnoddau naturiol ac i ba raddau rydym yn llwyddo i'w rheoli mewn ffordd gynaliadwy. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad cyn diwedd y flwyddyn galendr cyn blwyddyn y mae etholiad Senedd arferol i fod i gael ei gynnal. Mae dau Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR) wedi'u cynhyrchu gan Cyfoeth Naturiol Cymru ers pasio Deddf yr Amgylchedd (Cymru), gyda'r diweddaraf yn cael ei gyhoeddi yn 2020.

- **Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol** – rhaid i Weinidogion Cymru lunio polisi cenedlaethol sy'n nodi'r blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd allweddol ar gyfer rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan gynnwys yr hyn sydd angen ei wneud, yn eu tyb hwy, mewn perthynas â newid hinsawdd a bioamrywiaeth. Rhaid adolygu'r polisi ar ôl pob etholiad y Senedd gan ystyried canfyddiadau'r Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol (SoNaRR) a chyhoeddi unrhyw ddiwygiadau. Cyhoeddwyd y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol

cyntaf yn 2018 ac mae disgwyl i un newydd gael ei gyhoeddi yn dilyn yr Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol diwethaf (SoNaRR) yn 2020.

- **Datganiadau ardal** – sylfaen dystiolaeth leol yw'r rhain sy'n cael eu cynhyrchu gan Cyfoeth Naturiol Cymru, ac maent yn helpu i weithredu'r blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd a nodwyd yn y Polisi Adnoddau Naturiol Cenedlaethol a sut mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn bwriadu mynd i'r afael â'r rhain. Cyhoeddwyd saith datganiad ardal yn cwmpasu Cymru gyfan gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn 2020.

- Mae **dyletswydd bioamrywiaeth (Adran 6** y Ddeddf) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau wrth arfer eu swyddogaethau yng Nghymru. Y nod yw gwrthdroi'r dirywiad a sicrhau gwytnwch hirdymor bioamrywiaeth ac ecosystemau yng Nghymru. Mae'r ddyletswydd hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyrff hynny baratoi a chyhoeddi cynllun sy'n nodi'r hyn y maent yn bwriadu ei wneud i gydymffurfio â'r ddyletswydd honno (adran 6) ac i adrodd ar y cynllun hwnnw hefyd.

Dyluniwyd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 i weithio ar y cyd â **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015**, sef deddfwriaeth gyffredinol Cymru ar gyfer datblygu cynaliadwy. Y bwriad yw gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

## Adran 3: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn diffinio saith nod llesiant ar gyfer Cymru, ac mae'n ofynnol i Weinidogion Cymru a chyrff cyhoeddus eraill a enwir weithio tuag at eu cyflawni. Un o'r nodau llesiant hyn yw **'Cymru Gydnerth',** sef ***'cynnal... [a] gwella amgylchedd naturiol bioamrywiol'*** er mwyn datblygu gwell ymwybyddiaeth o'n heffeithiau. Mae'r nod "Cymru gydnerth" yn cydnabod pwysigrwydd natur a bioamrywiaeth fel rhan annatod o greu dyfodol cynaliadwy. Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus sy'n ddarostyngedig i'r Ddeddf, gan gynnwys Gweinidogion Cymru, sicrhau datblygu cynaliadwy sy'n cynnwys pennu a chyhoeddi amcanion llesiant sy'n dangos sut y bydd y corff cyhoeddus perthnasol yn gweithio i gyflawni'r nodau llesiant. Mae'n rhaid i gyrff cyhoeddus wedyn gymryd pob cam rhesymol wrth arfer eu swyddogaethau i gyflawni'r amcanion hynny.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi 'dangosyddion cenedlaethol' ar gyfer mesur cynnydd tuag at gyflawni'r nodau llesiant a chyflwyno copi o'r dangosyddion cenedlaethol gerbron y Senedd. Mae dau ddangosydd yn ymwneud yn benodol â bioamrywiaeth, sef "Ardaloedd o ecosystemau iach yng Nghymru" (rhif 43) a "Statws amrywiaeth fiolegol yng Nghymru" (rhif 44). Mae manylion dangosyddion perthnasol eraill sy'n cyd-fynd â'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang i'w gweld yma.

Rhaid i Weinidogion Cymru hefyd bennu cerrig milltir mewn perthynas â'r dangosyddion cenedlaethol. Pennwyd y garreg filltir 'gwrthdroi'r dirywiad mewn

bioamrywiaeth drwy wella statws rhywogaethau ac ecosystemau erbyn 2030 a'u hadferiad clir erbyn 2050' ym mis Tachwedd 2022 ac mae'n cyd-fynd â dangosyddion 43 a 44.

Rôl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yw hybu'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac, yn benodol, gweithredu i warchod gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion, ac annog cyrff cyhoeddus i ystyried effaith hirdymor eu gweithredoedd. I wneud hyn, mae gan y Comisiynydd ddyletswydd i fonitro ac asesu i ba raddau y mae amcanion llesiant sy'n cael eu pennu gan gyrff cyhoeddus yn cael eu cyflawni.

## Adran 4: Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023

Mae **Deddf Amaethyddiaeth (Cymru) 2023** (y Ddeddf Amaethyddiaeth) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i arfer swyddogaethau penodol mewn ffordd sydd, yn eu tyb hwy, yn cyfrannu orau at gyflawni'r amcanion rheoli tir yn gynaliadwy. Mae'r ddyletswydd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru gyhoeddi a gosod gerbron y Senedd ddatganiad o ddangosyddion a thargedau sy'n mesur cynnydd tuag at gyflawni'r amcanion rheoli tir yn gynaliadwy, ac adrodd trwy gyfeirio (ymhlith pethau eraill) at y dangosyddion a'r targedau a osodwyd ar y cynnydd a wnaed tuag at gyflawni'r amcanion. Mae'r darpariaethau hyn yn cynnig fframwaith ar gyfer datblygu a gweithredu polisi amaethyddol, gan gynnwys y Cynllun Ffermio Cynaliadwy.

Fel y nodwyd uchod, gyda 90 y cant o arwynebedd tir Cymru yn cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau amaethyddol, bydd y ddyletswydd a'r amcanion rheoli tir yn gynaliadwy yn y Ddeddf hon yn sbarduno ystod o gamau gweithredu ar draws y rhaglenni a ddatblygir ar gyfer y sector hwn, a bydd yn gwneud cyfraniad sylweddol i lawer o nodau a thargedau Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Kunming-Montreal COP15. Bydd angen i'r ddyletswydd a'r amcanion rheoli tir yn cynaliadwy, a'r dangosyddion a'r targedau a fydd yn cael eu datblygu i fesur cynnydd tuag at eu cyflawni, ategu a chyfrannu at y targedau bioamrywiaeth statudol arfaethedig yn y Papur Gwyn hwn.

Mae'r darpariaethau rheoli tir yn gynaliadwy yn y Ddeddf yn cynnig ymateb clir i'r argyfwng natur. Mae'r trydydd amcan rheoli tir yn gynaliadwy, yn arbennig, yn gosod gofyniad clir i gynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r manteision maent yn eu darparu.

Mae'r Ddeddf Amaethyddiaeth yn datgan yn benodol bod ffactorau perthnasol i'r diben hwn yn cynnwys, ymhlith pethau eraill (a) amrywiaeth rhwng ecosystemau ac oddi mewn iddynt; (b) y cysylltiadau rhwng ecosystemau ac oddi mewn iddynt; (c) graddfa ecosystemau; (d) cyflwr ecosystemau (gan gynnwys eu strwythur a'u gweithrediad); (e) gallu ecosystemau i addasu.

Ni ellir ystyried adferiad natur yn rhywbeth ar wahân. Dyna un o'r rhesymau pam mae'r amcanion wedi'u cynllunio i ategu a chefnogi ei gilydd cymaint ag y mae hynny'n bosibl. Er enghraifft, mae adferiad natur hefyd yn dibynnu ar weithredu i fynd i'r afael â newid hinsawdd hefyd, a dyma yw ffocws yr ail o'r amcanion Rheoli Tir yn Gynaliadwy.

Y pedwar amcan Rheoli Tir yn Gynaliadwy yw:

1) **Cynhyrchu bwyd a nwyddau eraill mewn modd cynaliadwy.**
Gall hyn gynnwys ystyried effeithiau newid hinsawdd, diraddio pridd, ansawdd dŵr a cholli bioamrywiaeth, er enghraifft, ar ddiogelwch bwyd. Mae'r amcan hwn yn cyflawni camau tuag at darged 10 y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang a thargedau eraill, gan gynnwys targedau 7, 11 a 12.

2) **Lliniaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd.**
Gall hyn gyfrannu at gyflawni nod sero net 2050. Gall hyn gynnwys effeithiau a manteision iechyd pridd da a lleihau allyriadau carbon amaethyddol, er enghraifft. Bydd atafaelu a storio cymaint â phosibl o garbon trwy gynyddu a chreu stociau carbon ar dir fferm yn gweithredu tuag at darged 8 o'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang ac yn cyfrannu tuag at dargedau 2, 3 a 10 hefyd.

3) **Cynnal a gwella gwytnwch ecosystemau a'r manteision maent yn eu darparu.**
Mae'r amcan hwn yn cyfeirio at y Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang, gan ystyried hybu cysylltedd a chynyddu cyflwr a graddfa'r ecosystem. Bydd yr amcan hwn yn gweithredu tuag at dargedau'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang, gan gynnwys targedau 2, 3, 4, 6, 7, 8, 9 a 10.

4) **Cadw a gwella cefn gwlad ac adnoddau diwylliannol a hyrwyddo mynediad y cyhoedd iddynt a'u hymgysylltiad â hwy, a chynnal y Gymraeg a hyrwyddo a hwyluso ei defnydd.**
Mae'r amcan hwn yn cynnwys elfennau cymdeithasol a diwylliannol pwysig. Mae un cyswllt pwysig â thargedau'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang yn ymwneud â diogelu harddwch yr amgylchedd naturiol ac annog mynediad i gefn gwlad, a fydd yn cyfrannu at dargedau'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang, gan gynnwys targedau 4, 6 ac 11.

Mae'r dangosyddion a'r targedau rheoli tir yn gynaliadwy sy'n ofynnol gan y Ddeddf Amaethyddiaeth yn cael eu cynllunio i fesur perfformiad y rhaglenni yn y sector amaethyddiaeth a rheoli tir wrth gyflawni rheoli tir yn gynaliadwy. O'r herwydd, byddant yn cyfrannu at dargedau bioamrywiaeth statudol cyffredin a'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Genedlaethol arfaethedig yn y Papur Gwyn hwn. Cyn belled ag y bo modd, bwriedir i'r dangosyddion a'r targedau rheoli tir yn gynaliadwy gyd-fynd yn agos â'r Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang a'r targedau bioamrywiaeth statudol sydd i'w datblygu yn dilyn y Papur Gwyn hwn.

## Adran 5: Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2023

Mae Deddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) 2023, a gyflwynwyd fel rhan o Gynllun Ansawdd Aer Llywodraeth Cymru, yn creu fframwaith i Weinidogion Cymru bennu targedau penodol ar gyfer llygryddion aer. Mae'r Ddeddf yn rhoi dwy ddyletswydd ar Weinidogion Cymru; yn gyntaf, hybu ymwybyddiaeth o lygredd aer ac, yn ail, cyhoeddi strategaeth seinweddau genedlaethol. Yn ogystal ag

effeithiau cadarnhaol ar iechyd y cyhoedd, mae gwell ansawdd aer hefyd yn mynd i'r afael â'r argyfwng bioamrywiaeth a'r argyfwng hinsawdd. Bydd y strategaeth ansawdd aer genedlaethol a'r targedau a nodir yn y Ddeddf yn cyfrannu'n gadarnhaol at natur yn y ffyrdd canlynol:-

- Mae llygredd aer yn cyfrannu at asideiddio pridd a dŵr wyneb ac ewtroffigedd mewn cynefinoedd sensitif, ac mae'n difrodi llystyfiant drwy gysylltiad â'r osôn. Mae rheoli allyriadau wedi arwain at welliannau mewn ansawdd aer yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.
- Gall ansawdd aer gwael hefyd gael effaith andwyol ar fywyd gwyllt drwy newidiadau eang i ddosbarthiad rhywogaeth ac ansawdd cynefinoedd yn y DU ac mae'n bygwth Statws Cadwraeth llawer o gynefinoedd a restrir o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd.

Bydd y ddyletswydd i greu strategaeth seinwedd genedlaethol fel rhan o Ddeddf yr Amgylchedd (Ansawdd Aer a Seinweddau) (Cymru) yn cefnogi bioamrywiaeth trwy gyfyngu ar y graddau mae llygredd sŵn anthropogenig yn amharu ar ymddygiad rhywoggaethau, megis cynyddu gweithgarwch ystlumod mewn ardaloedd o draffig trwm ac efallai ehangu cynefin addas.

# ATODIAD 6: Dyletswydd i nodi camau gweithredu a blaenoriaethau lleol sy’n cyfrannu at gyflawni’r targedau bioamrywiaeth statudol trwy Gynllun Gweithredu Adfer Natur Lleol – Rhestr fyrrach arfaethedig o Awdurdodau Cyhoeddus

| | **Math** |
|---|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent | ALl |
| Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog | APC |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont | ALl |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili | ALl |
| Cyngor Sir Gâr | ALl |
| Cyngor Sir Ceredigion | ALl |
| Dinas a Sir Abertawe | ALl |
| Cyngor Dinas Caerdydd | ALl |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | ALl |
| Cyngor Sir Ddinbych | ALl |
| Cyngor Sir y Fflint | ALl |
| Cyngor Gwynedd | ALl |
| Cyngor Sir Ynys Môn | ALl |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | ALl |
| Cyngor Sir Fynwy | ALl |
| Cyngor Castell-nedd Port Talbot | ALl |
| Cyngor Dinas Casnewydd | ALl |
| Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro | APC |
| Cyngor Sir Penfro | ALl |
| Cyngor Sir Powys | ALl |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | ALl |
| Parc Cenedlaethol Eryri | APC |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen | ALl |
| Cyngor Bro Morgannwg | ALl |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam | ALl |
| Albion Water | Cyfleustod |
| Dŵr Cymru | Cyfleustod |
| Hafren Dyfrdwy | Cyfleustod |
| Cyfoeth Naturiol Cymru | |
| Trafnidiaeth Cymru | |
| **Awdurdodau Cyhoeddus sy’n gweithredu yng Nghymru a Lloegr (na fyddant yn ddarostyngedig i’r ddyletswydd)** | |
| Grid Cenedlaethol | Cyfleustod |
| Severn Trent Water | Cyfleustod |
| SSE Water | Cyfleustod |
| Wales and West Utilities | Cyfleustod |

| | |
|---|---|
| Western Power Distribution | Cyfleustod |
| Ystad y Goron | |
| Y Weinyddiaeth Amddiffyn | |
| Network Rail | |